Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Yn cefnogi ffermwyr i ffermio







Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2023
Ymatebion erbyn: 7 Mawrth 2024

**Sut i ymateb**
Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 7 Mawrth 2024, gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:

- llenwi'r ffurflen ymateb ar-lein
- lawrlwytho'r ffurflen ymateb, ei llenwi a'i e-bostio i: **CynllunFfermioCynaliadwy@llyw.cymru**
- lawrlwytho'r ffurflen ymateb, ei llenwi a'i phostio i:
  Materion Gwledig a Diwygio Rheoli Tir
  Llywodraeth Cymru
  Parc Cathays
  Caerdydd
  CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael o ofyn amdanynt.

**Manylion cysylltu**
I gael rhagor o wybodaeth:

Materion Gwledig a Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CynllunFfermioCynaliadwy@llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn **Saesneg** hefyd.

OGL © Howifraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48770, Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg /We welcome correspondence and phone calles in Welsh

# Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

**Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithiol dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

**Eich hawliau**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i ofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Am manylion pellach am y wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn dal a'i ddefnydd, neu os dymunwch arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod.

Mae modd cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru drwy:

**Y Swyddog Diogelu Data**
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
**E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

Manylion cyswllt ar gyfer y Swyddfa'r Comisinydd Wybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Ffôn:** 0303 123 1113
**Tudalen we:** ico.org.uk

# Cynnwys


3 Rheoliadau Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)
6 Rhagair y Gweinidog
8 Crynodeb Gweithredol
**10 Pennod 1 – Cyflwyniad**
**13 Pennod 2 - Fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
15 Gweithredoedd Cyffredinol
16 UA1: Meincnodi
18 UA2: Datblygiad Personol Parhaus
20 UA3: Gweithredoedd i helpu i reoli pridd ac adnoddau
23 UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth
25 UA5: Rheolaeth Integredig ar Blâu
26 UA6: Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr
28 Cynefin
29 UA7: Cynnal cynefinoedd
31 Rheol y Cynllun: Mae o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin
32 UA8: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
34 UA9: Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig
35 UA10: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol
38 UA11: Rheoli perthi / gwrychoedd
40 UA12: Cynnal a Chadw Coetir
42 Rheol y Cynllun: O leiaf 10% o dan orchudd o goed, yn goetir neu goed unigol
43 UA13: Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd
45 UA14: Amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella
48 Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd
50 UA15: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid
52 UA16: Lles eich anifeiliaid
53 UA17: Bioddiogelwch da ar y fferm
**59 Pennod 3 – Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**
59 Pwy sy'n gymwys
60 Sut yr ydym yn cynnig bod y model gweithredu yn gweithio
**65 Pennod 4 – Dull talu**
65 Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol
68 Taliad Sefydlogrwydd
68 Gwerth y Taliad
**70 Pennod 5 – Y Cyfnod Pontio**
70 Y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol
71 Cyflwyno Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol yn raddol
**73 Pennod 6 – Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)**
73 Dod â'r BPS i ben yn raddol
73 Newidiadau arfaethedig i reolau'r BPS

**76** **Pennod 7 – Rheoliadau**
76 Pwerau i Ddarparu Cymorth
77 Gofynion Deddfwriaethol ar gyfer y BPS
**78** **Pennod 8 – Tystiolaeth**
78 Asesiad Effaith Integredig
78 Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol
78 Costau a ysgwyddir ac incwm a gollir
79 Gwerth cymdeithasol y canlyniadau
**81** **Pennod 9 – Prosesu ac Adrodd ar Ddata**
81 Prosesu a defnyddio eich data
82 Adrodd
**84** **Atodiad 1: Cwestiynau'r ymgynghoriad**
**86** **Atodiad 2: Gweithredoedd Opsiynol**
**88** **Atodiad 3: Geirfa**
**Atodiad 4: Asesiad Effaith Integredig (Ar-lein yn unig - gweler yma)**
**Adodiad 5: Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canlyniadau modelu Gweithredoedd Sylfaenol (Ar-lein yn unig - gweler yma)**

# Rhagair y Gweinidog

**Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hollbwysig hon, sy'n nodi cam pwysig iawn ymlaen i wireddu'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu.**

A hithau'n gyfnod ariannol anodd arnom ni, mae'n bwysicach nag erioed bod ein mentrau'n cefnogi'r ymrwymiadau hyn a'n bod yr un pryd yn mynd i'r afael â materion mawr fel yr argyfwng hinsawdd a natur a'i effaith aruthrol ar ein gallu i gynhyrchu bwyd hanfodol.

Ni ellir gorbwysleisio'r brys i ddelio â'r argyfwng hinsawdd a natur. Mae'n effeithio ar ein hecosystemau, yn newid hanfod gwead ein byd, gan greu bygythiadau sylweddol i'n systemau amaethyddol a bwyd. Gan gydnabod hyn, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'n sylw ar bolisïau cynaliadwy, strategaethau arloesol ac ymdrechion cydweithredol er mwyn lliniaru effeithiau andwyol y newid yn yr hinsawdd a sicrhau dyfodol cadarn i bawb.

Nid ydym erioed wedi cael help ffermwyr i ddylunio cynllun o'r blaen, fel y cawsom yn y ddau gam cyd-lunio a thrwy ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid. Mae hyn yn crynhoi'r berthynas rwyf am barhau i faethu gyda'n ffermwyr - i fod yn fwy cynhwysol o syniadau a phrofiad gan y bobl sy'n gweithio'n ddiflino i roi bwyd cynaliadwy, diogel a maethlon ar ein platiau'.

Rwy'n cydnabod bod y pwnc dan sylw yn un cymhleth iawn, yn enwedig o gofio'r hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Ond rydym yn parhau i fod yn gadarn ein hymrwymiad i roi blaenoriaeth i arferion cynaliadwy a pholisïau cydnerth sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r pryderon difrifol sy'n ein hwynebu heddiw, ond sydd hefyd yn paratoi'r ffordd ar gyfer dyfodol ffyniannus ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Rwy'n gweld y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel dechrau rhaglen hirdymor i gefnogi ein diwydiant amaethyddol. Cefnogaeth i fod yn gydnerth ac yn gynaliadwy sy'n golygu gallu addasu i dystiolaeth newydd, blaenoriaethau newydd a heriau newydd. Mae'r Cynllun yn rhoi fframwaith clir y gall pob un ohonom ddod yn gyfarwydd ag ef, ond yn un fydd yn esblygu mewn byd sy'n newid.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniad, cefnogaeth ac ymroddiad i greu dyfodol mwy cynaliadwy a chydnerth. Gyda'n gilydd, gadewch i ni gychwyn ar y daith hon o lunio polisïau sy'n cryfhau ein systemau cynhyrchu bwyd, yn cadw ffermwyr yn ffermio, yn diogelu ein hamgylchedd, ac yn delio â'r gofyn brys i ddelio â'r argyfwng hinsawdd a natur.



**Lesley Griffiths AS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd



# Crynodeb Gweithredol

**Yr ymgynghoriad hwn yw ein cam olaf cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS/y Cynllun) sef cychwyn rhaglen hirdymor newydd i gefnogi'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'n cynigion ac yn egluro nifer o weithredoedd a'r cymorth sydd ar gael i wireddu Amcanion Rheoli Tir yn Cynaliadwy (SLM).**

Yn ein pennod agoriadol, rydym yn disgrifio'r gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio i'ch cefnogi chi, y ffermwr, i wella'ch cynhyrchiant ac i fod yn fwy cystadleuol, fel defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a buddsoddi i gryfhau asedau craidd eich busnes. Cafodd y cynigion hyn eu llywio gan yr adborth a gawsom gan ffermwyr a'r diwydiant ehangach mewn tri ymgynghoriad ac yn nau gam y broses gydlunio.

Byddwn yn parhau trwy ddangos sut mae'r Cynllun yn gofyn am fwy na'r hyn a ofynnir amdano gan y gyfraith, gan gefnogi ffermwyr i fynd ymhellach. Rydym yn edrych ar y strwythur tair haen yr ydym wedi'i gadw (Cyffredinol, Opsiynol neu Gydweithredol).

Mae'r 17 o Weithredoedd Cyffredinol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd fydd yn dangos i chi pam ein bod wedi cynnwys y Weithred, pa Weithredoedd y bydd gofyn i chi eu cynnal, yr hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud, ac erbyn pryd. Dangosir hefyd y canlyniadau y byddwch yn helpu i'w cyflawni drwy gynnal pob Gweithred. Rydym yn cynnwys manylion y gofyn i gadw 10% o bob fferm o dan orchudd o goed ac i drin 10% o bob fferm fel cynefin.

Rydym yn cyflwyno ein huchelgais i gynnal prosiectau hirdymor integredig i helpu i wneud ein diwydiant amaethyddol yn fwy cydnerth gan ddangos beth sydd angen i chi ei wneud bob blwyddyn i fod yn rhan o'r Cynllun.

Rydym yn esbonio pwy sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun a sut y bydd yn gweithio, ac yn egluro ein cynnig i roi'r Cynllun ar waith gan ddefnyddio model gweithredu Taliadau Gwledig Cymru (RPW), gan adeiladu ar lwyddiant RPW Ar-lein, y Ffurflen Gais Sengl (SAF) a'r cynlluniau buddsoddi gwledig.

Rydym hefyd yn disgrifio sut y bydd ein cynnig i gynnal Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd yn gweithio ac yn edrych mor bwysig yw sicrhau bod ffermwyr yn deall effaith eu busnes o ran carbon a'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn. Rydym hefyd yn nodi'r drefn cosbi ac apelio ochr yn ochr â'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i chi.

O ran sut ydym am i'r trefniadau talu weithio, er nad ydym yn gwybod ar y funud faint o gyllid fydd ar gael i Lywodraeth Cymru gyfan, rydym yn esbonio sut rydym yn cynnig talu Taliad Sylfaenol Cyffredinol i ffermwyr am gynnal set o Weithredoedd Cyffredinol, y gall ffermydd ledled Cymru eu cyflawni.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno ein cynlluniau pontio sy'n esbonio sut byddwn yn eich helpu cyn ac ar ôl cyflwyno'r Cynllun. Gan weithio gyda chi a thrwy gasglu'ch barn mewn digwyddiadau ac yn ystod yr ymarfer cydlunio, rydym yn gwybod bod hwn yn newid mawr, ac rydym yn disgrifio'r prosesau rydym yn cynnig i'w rhoi ar waith i'ch cefnogi chi a'ch busnes gyda'r newid hwn.

O fewn y Cyfnod Pontio rydym hefyd yn trafod sut rydym yn bwriadu dileu'r BPS yn raddol erbyn 2029, trwy newid rheolau'r BPS. Bwriad y Taliad Sefydlogrwydd yw cefnogi'r rheini sy'n symud o'r BPS i'r Cynllun, drwy sicrhau dilyniant i'w hincwm.

Yn ein penodau cloi rydym yn adolygu ein rheoliadau, tystiolaeth a'n prosesau adrodd a phrosesu. Ein prif neges yw sut rydym yn bwriadu lleihau biwrocratiaeth trwy sefydlu cynlluniau cymorth a darparu cefnogaeth fwy ymatebol, hyblyg a hawdd ei addasu, sy'n diwallu anghenion ein diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

Mae’r Cynllun rydym yn ei gynnig yn yr ymgynghoriad hwn wedi’i lunio, diolch i’r berthynas sydd wedi’i meithrin â ffermwyr ac â’r sector amaethyddol yng Nghymru trwy ddau gam cydlunio a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid.

Rydym yn gwerthfawrogi bod heriau o’n blaenau ac rydym yn annog pawb i ymateb i’r ymgynghoriad hwn i helpu i lunio a chefnogi diwydiant amaethyddol cryf i’r dyfodol.

PENNOD 1

# Cyflwyniad

**Mae cynhyrchu bwyd diogel o ansawdd uchel yn hanfodol yng Nghymru ac i Gymru. Fodd bynnag, peidied â meddwl bod modd mynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n ein hwynebu, ac â'r argyfwng hinsawdd a natur, ar wahân. Mae angen i bob sector o'n heconomi chwarae ei ran i leihau allyriadau Cymru a gwrthdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth. Mae hyn yn dod yn fwy ac yn fwy o hanfod economaidd, h.y. i gystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio ac i ymateb i ofynion cynyddol defnyddwyr.**

Nid yw hyn yn ddewis rhwng cynhyrchu bwyd neu ddiogelu'r amgylchedd. Mae ffermio yn digwydd o fewn yr amgylchedd, a'r amgylchedd ehangach sy'n darparu'r amodau a'r adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu bwyd. Rydym eisoes yn profi tywydd mwy eithafol yng Nghymru fel mwy o lifogydd, a hafau sychach a thwymach. Mae'r digwyddiadau hyn yn dod yn norm, nid yr eithriad.

Rhaid i ni ymateb nawr i ddiogelu eich bywoliaeth a bywoliaeth cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn gwybod sut i gynhyrchu bwyd da, ond mae angen i ni addasu ein harferion i ymdopi â'r aflonyddu ariannol a hinsoddol hyn, a sicrhau bod amaethyddiaeth nid yn unig yn gydnerth, ond yn ffyniannus a phroffidiol hefyd.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio'r gweithredoedd sydd wedi'u llunio i'ch cefnogi chi, y ffermwr, i gymryd y camau allweddol i fuddsoddi i gryfhau asedau craidd eich busnes. Mae'r camau hyn yn hanfodol i wireddu amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gan adeiladu ar y cyfraniad hanfodol y mae ffermio eisoes yn ei wneud at ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

Cafodd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn eu llywio gan yr adborth a gawsom gan ffermwyr a'r diwydiant ehangach mewn tri ymgynghoriad ac yn nau gam y broses gydlunio.

- **cawsom 1,043 o ymatebion unigryw** i Brexit a'n Tir, ein hymgynghoriad ar ein cynigion cychwynnol i gefnogi ffermwyr ar ôl ymadael â'r UE
- **cawsom 508 o ymatebion unigryw** i'n hymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, a oedd yn rhestru'n cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr
- **cawsom 232 o ymatebion** gan unigolion a sefydliadau i'n cynigion ar gyfer y fframwaith deddfwriaethol i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru
- **cymerodd dros 1,500** o ffermwyr ran ym mhob un o'r camau cyd-lunio.

Mae ein hegwyddor o gadw ffermwyr i ffermio, gan sicrhau mai'r bobl sy'n ei nabod orau sy'n cael rheoli'r tir, wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers dechrau'r broses ddatblygu.

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, neu'r 'Cynllun' fel y byddwn yn cyfeirio ato, fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth i ffermwyr yng Nghymru. Bydd y Cynllun yn gwobrwyo ffermwyr am weithredu yn unol â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ('y Ddeddf Amaethyddiaeth'). Y rheini yw:

- Cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo
- Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maent yn eu rhoi
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hybu mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Trwy fynd ati mewn ffordd gynhwysfawr fel hyn, gallwn sicrhau bod arferion rheoli tir yn esgor ar fanteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol i ffermwyr a lles tymor hir y wlad.

Bydd y Cynllun yn helpu i wireddu'n huchelgais i ffermwyr Cymru fod yn arweinwyr byd mewn ffermio cynaliadwy. Mae'n cydnabod bod cyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn dibynnu ar sicrhau bod busnesau fferm yn gynaliadwy yn economaidd yn y tymor hir. Bydd y cynllun yn cefnogi busnesau fferm i fod yn fwy effeithlon a chydnerth, er mwyn iddynt allu cystadlu mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Mae'r gweithredoedd a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u cynllunio i helpu ffermwyr i gael y gorau o'u hadnoddau.

Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei sgrifennu ar gyfer ffermwyr gan gydnabod y rhan bwysig maen nhw'n ei chwarae. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn berthnasol i'r rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r ystod amrywiol o wasanaethau a ddarperir trwy ffermio a'r sector amaethyddol yn ogystal â phobl Cymru y mae eu mwynhad a'u mantais o'r tir yn hanfodol i'w hiechyd a'u lles.



PENNOD 2

# Fframwaith y cynllun ffermio cynaliadwy

**Bydd y Cynllun yn gofyn am fwy na'r hyn a ofynnir amdano gan y gyfraith, gan gefnogi ffermwyr i fynd ymhellach. Rydym yn bwriadu cadw'r strwythur tair haen:**

- Gweithredoedd Cyffredinol, y bydd gofyn i bawb ar y Cynllun eu gwneud
- Gweithredoedd Opsiynol, a fydd yn cynnig dewis i chi allu cynnal neu roi blaenoriaeth i weithredoedd sy' bwysicaf neu fwyaf priodol i'ch amgylchiadau chi, a
- Gweithredoedd Cydweithredol a fydd yn cynnig cyfle i chi weithio gydag eraill i newid pethau ar raddfa fwy.

Mewn ymateb i adborth am faint a chymhlethdod y newid sy'n wynebu'r diwydiant yn gyffredinol, rydym yn cynnig bod yr haenau hyn yn cael eu cyflwyno mewn cyfnodau clir rhwng 2025 a 2029, y Cyfnod Pontio fel yr ydym yn ei alw.

Yn 2025, byddwn yn agor haen Gweithredoedd Cyffredinol y Cynllun. Bydd yn rhaid ichi gynnal y Gweithredoedd hyn er mwyn gallu cael y Taliad Sylfaenol Cyffredinol a delir i bawb.

Rydym yn cynnig cyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol dros y Cyfnod Pontio. I'r rhai sy'n gallu ac eisiau mynd yn gyflymach ac yn bellach, rydym yn cynnig cadw rhai o'n cynlluniau presennol wrth i ni gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol. Byddwn yn nodi hyn yn ein Cynllun Cymorth Aml-flynyddol er mwyn i ffermwyr wybod beth sydd ar gael a phryd.

## Gweithredoedd Cyffredinol

Rhaid i bawb sy'n ymuno â'r Cynllun wneud y Gweithredoedd Cyffredinol. Maen nhw wedi'u cynllunio ar gyfer yr amrywiaeth o ffermydd a geir yng Nghymru. Fydd rhai ddim yn addas ar gyfer pob fferm – er enghraifft, ni fydd angen i fferm ydau weithredu er lles iechyd anifeiliaid. Mae'r Cynllun yn ddigon hyblyg i allu delio â hyn.

Mae'r Gweithredoedd Cyffredinol a dau o reolau'r cynllun yn cael eu dangos i chi ar y tudalennau canlynol. Rydym yn esbonio pam ein bod wedi cynnwys y Weithred, a yw'r Weithred yn berthnasol i chi, beth sy'n rhaid i chi ei wneud os yw, ac erbyn pryd. Mae'r logos bach wrth bob Gweithred yn cyfateb i'r dabl isod ac yn dangos i chi'r canlyniadau niferus y byddwch chi'n helpu i'w cyflawni trwy gynnal pob Gweithred.

## Canlyniadau Rheoli Tir Cynaliadwy

- Annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.
- Gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn.
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.
- Gwella ansawdd aer.
- Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol a'u hymgysylltiad â nhw.
- Lleihau peryglon llifogydd a sychder.
- Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.
- Cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.
- Dal a storio mwy o garbon.
- Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol.
- Gwella ansawdd dŵr.
- Cynnal a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol.
- Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithiol (gan gynnwys trwy fabwysiadu arferion sy'n defnyddio ynni'n effeithiol ac yn arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir).

# Gweithredoedd Cyffredinol (UA)

14 UA1: Meincnodi
16 UA2: Datblygiad Personol Parhaus
18 UA3: Gweithredoedd i helpu i reoli pridd ac adnoddau
21 UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth
23 UA5: Rheolaeth Integredig ar Blâu
24 UA6: Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr
26 Cynefin
27 UA7: Cynnal cynefinoedd
30 UA8: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella
32 UA 9: Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig
33 UA10: Pyllau dwr parhaol a thymhorol
36 UA11: Rheoli gwrychoedd/perthi
38 UA12: Cynnal a Chadw Coetir
41 UA13: Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd
43 UA14: Amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella
46 Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd
48 UA15: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid
50 UA16: Lles eich anifeiliaid
51 UA 17: Bioddiogelwch da ar y fferm

# Rheolau'r cynllun

29 Rheol y cynllun: Mae o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin.
40 Rheol y cynllun: Mae o leiaf 10% o bob fferm o dan orchudd coed fel coetir neu goed unigol.

# UA1: Meincnodi

**Cwblhau hunanasesiad mesur a monitro blynyddol i wella perfformiad y busnes a'ch perfformiad amgylcheddol.**

## Yr uchelgais

Mae llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad eich fferm o dan eich rheolaeth chi. Drwy fesur eich perfformiad yn rheolaidd, gallwch ei gymharu â'ch perfformiad yn y gorffennol, gweld unrhyw dueddiadau a chymryd camau angenrheidiol. Gallwch hefyd gymharu eich perfformiad â ffermwyr ar draws eich sector(au). Wrth wneud, byddwch yn gweld ble gallwch chi wneud gwelliannau i leihau costau, defnyddio adnoddau'n well, lleihau allyriadau carbon a llygredd arall a gwneud mwy er lles bioamrywiaeth a gwaith ecosystemau.

Bydd annog ffermwyr i ddefnyddio dulliau meincnodi sylfaenol gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol syml, yn golygu newid mawr ym mherfformiad ffermydd, gan wella gallu ffermydd i addasu i newid a gwella eu heffaith ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn arwain at fusnes a diwydiant mwy llewyrchus a chydnerth.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm ar y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Bydd angen i chi gynnal hunanasesiad bob blwyddyn. Bydd rhestr o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol safonol. Bydd y rhai sy'n ymwneud â'r Gweithredoedd Cyffredinol yn orfodol. Bydd angen i chi gwblhau tri modiwl ychwanegol neu dau fesul menter, os oes gennych fwy nag un fenter (bîff, defaid, godro ac ati).

Byddwch yn cofnodi'r data ym mhorthol ar-lein Llywodraeth Cymru a bydd arweiniad a chyngor yn cael eu rhoi i chi i'ch helpu. Unwaith y byddwch wedi nodi'ch data, bydd yr offeryn yn cyfrif canlyniadau'ch Dangosyddion (os nad ydych yn eu gwybod eisoes), ac yn eu dangos fel cymhariaeth â pherfformiad ffermydd eraill (e.e. y 5% a'r 25% uchaf a ffermydd canolrifol) neu optimwm. Bydd y broses hefyd yn cynnig awgrymiadau (yn seiliedig ar eich perfformiad) ar sut y gallwch wella. Bydd y cymariaethau a'r awgrymiadau hyn yn cael eu mireinio dros amser wrth i fwy o ffermydd ddefnyddio'r offeryn ac i'r data a gesglir ddod yn fwy cywir.

Ni fydd canlyniad drwg i sgôr meincnodi is, hynny yw, ni fydd lefel eich perfformiad yn effeithio ar eich taliad. Bydd yr wybodaeth yn eich helpu i nodi'r problemau ac atebion posibl, a bydd help ar gael i'ch helpu i wneud y gorau o'r wybodaeth.

Rydym yn ystyried amrywiaeth o Ddangosyddion a'r bwriad yw eu gweld yn datblygu dros amser. Dyma enghreifftiau:

- **Colledion wyn -** yn dangos y refeniw sy'n cael ei golli, ynghyd ag iechyd a lles sylfaenol y mamogiaid.
- **Llaeth o gnwd pori -** mwya'n y byd o laeth a gynhyrchir o gnwd pori, mwya'n y byd yr elw.
- **Y defnydd o Gynnyrch Amddiffyn Planhigion bob blwyddyn -** gall hyn helpu i nodi gwastraff a lleihau eich costau.
- **Y defnydd o ddiesel mewn systemau âr -** mae gweld faint o danwydd a ddefnyddir i dyfu'r cnwd yn ein helpu i ddeall beth yw effeithlonrwydd tanwydd y cynnyrch.
- **Yr Elw Net -** dangosydd pwysig sy'n dangos y proffidioldeb yn hytrach na chyfanswm yr allbwn.

Bydd angen cofnodi Dangosyddion gorfodol sy'n rhan o Weithredoedd Cyffredinol eraill hefyd, fel y defnydd o wrthfiotigau.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylech ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf ac ailadrodd y weithred bob blwyddyn wedi hynny.

# UA2: Datblygiad Personol Parhaus

**Dysgu sgiliau a gwybodaeth ychwanegol trwy gwblhau cylch hyfforddi blynyddol.**

### Yr uchelgais

Chi yw ased pwysicaf eich fferm. Rydym am eich helpu i wella'ch sgiliau a datblygu'ch gwybodaeth yn gyson er mwyn i chi allu addasu ac ymateb yn bositif ac yn hyderus i newidiadau yn y farchnad, yr hinsawdd ac mewn technoleg. Rydym am wneud hyn drwy raglen Datblygu Personol Parhaus (DPP).

**Mae'r rhaglen DPP o hyfforddiant ar-lein wedi'i llunio i'ch helpu:**

- Eich gwneud yn fwy proffidiol
- Gwella cynefinoedd, ansawdd dŵr ac aer a rheoli pridd
- Gwella iechyd a lles anifeiliaid
- Gwella safonau iechyd a diogelwch ar eich fferm.

Bydd modiwlau dysgu yn cael eu cryfhau gan weithgareddau dysgu eraill fel grwpiau trafod neu ffermydd arddangos. Byddwn yn ychwanegu drwy'r amser at y rhaglen i chi gael mwy o gyfle i ddysgu. Mae croeso i chi gynnig pynciau i'w cynnwys.

Rydym yn gwybod y bydd rhai ohonoch eisoes wedi cwblhau neu wrthi'n derbyn hyfforddiant ar lefel uwch nag yn y modiwlau cyflwyniadol hyn. Rydym yn rhagweld y bydd y dysgu parhaus neu flaenorol hwn gyfrif tuag at y Weithred.

Bydd y Weithred DPP hon yn eich helpu i gynnal Gweithredoedd eraill yn y Cynllun.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm ar y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon. Rhaid i'r modiwlau gael eu gwneud gan bartner cofrestredig yn y busnes.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Bydd angen i bartner cofrestredig yn y busnes wneud o leiaf chwe modiwl DPP ar-lein cyn diwedd pob blwyddyn.

Mae modiwl Iechyd a Diogelwch yn orfodol gan ei fod wedi'i gynllunio i helpu i leihau nifer yr anafiadau a'r marwolaethau yn y sector. Bydd angen i chi hefyd ddewis un modiwl y flwyddyn o bob un o'r pum categori isod, oni bai'ch bod wedi'i ddysgu eisoes a bod hynny wedi'i gydnabod. Enghraifft o hyn yw'r modiwl sgorio cyflwr corff/symudedd gorfodol fel rhan o'r Weithred Gyffredinol Lles Anifeiliaid, y gellir ei ddefnyddio i fodloni'r dysgu ar gyfer categori 5.

Bydd nifer o fodiwlau ym mhob categori dysgu (yn seiliedig ar nodweddion y cynllun isod) i ddewis ohonynt.

1. Cydnerth a Chynhyrchiol.
2. Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maethynnau a gwastraff.
3. Lleihau allyriadau'r fferm a dal a storio mwy o garbon.
4. Diogelu a gwella ecosystem y fferm.
5. Lles pobl, anifeiliaid a lle.

Bydd y rhan fwyaf o fodiwlau'n golygu tua awr o ddysgu ar-lein ac asesiad byr. Byddwch yn gallu ailadrodd y dysgu a'r asesiad faint bynnag o weithiau y bydd ei angen i basio, heb unrhyw effaith er enghraifft ar lefel eich taliad.

Gall pobl wahanol wneud y modiwlau os oes mwy nag un partner cofrestredig yn y busnes, neu caiff yr un person wneud pob un. Dylai'r person sy'n dysgu rannu'r wybodaeth â'r partneriaid eraill, aelodau'r teulu neu weddill y staff ac ymwelwyr os yw hynny'n briodol.

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn nid ydym wedi cynnwys yr holl fodiwlau sy'n cael eu cynnig o dan bob categori, ond dyma rai enghreifftiau o fodiwlau y gellid eu cynnwys o dan y categori **Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff**:

- gwella perfformiad trwy leihau mewnbynnau
- meincnodi a gosod nodau
- nodi meysydd i'w gwella a dod o hyd i atebion i broblemau
- rheoli a chael y gorau o bobl
- arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylech ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf ac ailadrodd y weithred bob blwyddyn wedi hynny.

# UA3: Cynllunio iechyd pridd

**Meithrin priddoedd iach drwy brofi a chynllunio iechyd pridd.**

## Yr uchelgais

Bydd cynllunio iechyd pridd yn cynnwys profi a rheoli pridd a chynllunio maethynnau. Y nod yw sicrhau bod cyflwr yr holl bridd yng Nghymru yn dda, drwy arferion rheoli da ac osgoi gweithgareddau sy'n niweidio priddoedd ac yn amharu ar y manteision maen nhw'n eu darparu.

Bydd y Weithred hon yn eich helpu i ddeall iechyd eich priddoedd, gofynion eich cnydau a statws maethynnau eich pridd, gyda'r nod o ymdrin ag iechyd pridd fel system â chanlyniadau lluosog. Drwy wella iechyd pridd a defnyddio maethynnau yn y ffordd orau posibl gallwch:

- arbed arian
- gwella cynhyrchiant drwy sicrhau twf, cynnyrch ac ansawdd cyson
- gwella ansawdd aer a dŵr drwy golli llai o faethynnau ar ffurf llygredd
- lleihau'r risg o lifogydd ac ymdopi'n well â chyfnodau sych drwy osgoi cywasgu pridd er mwyn iddo allu cadw rhagor o ddŵr
- lleihau eich ôl troed carbon drwy storio rhagor o garbon mewn priddoedd.

Mae'r Weithred Iechyd Pridd wedi cael ei dylunio i gyd-fynd â'r asesiad carbon (fel rhan o'r Gyfrifiannell Carbon), eich Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'ch gweithredoedd i leihau gwastraff, risgiau a llygredd. Mae'n gysylltiedig â'ch gofynion am Gynllun Rheoli Maethynnau ar gyfer nitrogen o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Bydd y Weithred ar y dechrau'n canolbwyntio ar brofion pridd a chynnal cyfrif sylfaenol o'r maethynnau, i roi dealltwriaeth ichi o'ch pridd, gofynion eich cnydau ac i gefnogi camau pellach.

Rydym yn disgwyl gweld y Weithred hon yn datblygu dros amser wrth i fwy o brofion pridd gael eu cynnal ledled Cymru ac i'r canlyniadau ganiatáu i ni fireinio'r broses. Yn y pen draw, bydd y Weithred hon yn cynnwys creu Cynlluniau Iechyd Pridd a fydd yn dwyn ynghyd yr holl wybodaeth a gesglir drwy brofion pridd, ynghyd â cherdyn sgorio iechyd pridd, cynlluniau rheoli maethynnau a chynlluniau rheoli pridd er mwyn i chi allu gwneud penderfyniadau rheoli manylach. Efallai y caiff y dull hwn ei dreialu drwy Weithredoedd Opsiynol i sicrhau ei fod yn darparu mecanwaith effeithiol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar eich fferm.

Er y gellir gwneud rhywfaint o'r gwaith dadansoddi ar y fferm, bydd y rhan fwyaf o'r samplau pridd yn cael eu hanfon i labordy cymwys i'w profi.

Gan gydnabod bod data ansawdd pridd yn hanfodol er mwyn arwain rheoli priodol tymor hir, ein bwriad yw i'r canlyniadau gael eu casglu'n electronig trwy RPW Ar-lein i ni allu gweld tueddiadau dros amser ac i'ch helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol. Rydym yn cynnig pan fydd tir yn newid dwylo, er enghraifft pan fydd tenant newydd yn cael rheolaeth lwyr ar y tir, bod y tenant newydd yn cael gweld y data am gaeau. Bydd casglu data'n electronig yn helpu'r gwaith monitro, gwerthuso a pharatoi adroddiadau cenedlaethol. Mae rhagor o fanylion am ein dull o brosesu ac adrodd ar ddata ym Mhennod 9.

### Oes rhaid imi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm yn y cynllun gynnal y Weithred hon.

### Rhaid i bob fferm yn y cynllun gynnal y Weithred hon.

### 1. Profion pridd

Bydd angen ichi brofi 20% o'ch fferm ym mhob blwyddyn y Cynllun, gyda'r bwriad o brofi'r fferm gyfan o fewn pum mlynedd. Bydd angen cynnal profion ar dir sy'n cynnwys tir sydd wedi'i wella'n amaethyddol a chynefinoedd sy'n cael eu diffinio fel glaswelltir sych lled-naturiol wedi'i amgáu. Byddwn yn ystyried profion blaenorol neu ychwanegol pan fydd hynny'n briodol (er enghraifft, os byddwch yn profi mwy nag 20% o'ch fferm mewn unrhyw flwyddyn). Bwriedir i'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd (gweler Pennod 4) gadarnhau'r rhan o'r fferm sydd i'w phrofi.

Bydd yr ystod leiaf o brofion sydd eu hangen yn dibynnu ar y math o dir sydd gennych a'r ffordd rydych yn defnyddio eich tir. Mae hyn yn cael ei grynhoi isod.

| | Glaswellt wedi'i wella a thir cnydau | Glaswelltir sych lled-naturiol caeedig |
|---|---|---|
| Potasiwm (K) | ✓ | ✓ |
| Ffosfforws (P) | ✓ | ✓ |
| Magnesiwm (Mg) | ✓ | ✓ |
| pH | ✓ | ✓ |
| Mater organig pridd (colled ar danio) | ✓ | ✓ |

Rydyn ni hefyd yn ystyried y canlynol o fewn yr ystod o brofion sydd eu hangen.

| Rydyn ni hefyd yn ystyried y canlynol o fewn yr ystod o brofion sydd eu hangen. | | |
|---|---|---|
| Gwead pridd (dosbarthiad maint gronynnau (PSD)) | ✓ | |
| Mesur biolegol: pryfed genwair fel mesur procsi | ✓ | |
| Mesur ffisegol: Gwerthusiad gweledol o strwythur pridd (VESS) | ✓ | |

Bydd y profion yn cael eu cynnal fesul parsel tir. Bydd manteision i chi o gynnal profion ychwanegol ar y parsel os yw amodau'r pridd yn amrywio'n sylweddol o fewn y parsel, er enghraifft oherwydd y ddaeareg sylfaenol. Rydyn ni'n ystyried lefel y profi sydd ei hangen ar gyfer darnau o dir sydd â phriodoleddau ac arferion rheoli tebyg. Darperir canllawiau manwl ar sut i gynnal profion pridd. Byddwn yn disgwyl i hynny gynnwys nifer penodol o samplau. Dylai'r profion:

- Yn ddelfrydol gael eu cynnal ar ddiwedd yr hydref / dechrau'r gaeaf.
- Ni ddylid eu cynnal o fewn chwe wythnos i ddodi tail organig, nac o fewn wyth wythnos i ddodi gwrtaith artiffisial neu galch na throi'r tir.
- Ni ddylid eu cynnal mewn mannau lle mae llawer o fynd a dod e.e. gatiau, llwybrau, traciau neu lle mae da byw yn crynhoi.
- Ni ddylent effeithio ar nodweddion hanesyddol.

## 2. Cyfrifon maethynnau sylfaenol

Rhaid cofnodi canlyniadau'ch profion, o ddewis mewn cynllun rheoli pridd, a rhaid cynnal asesiad o unrhyw weithredu sydd ei angen o ganlyniad. Dylai'r wybodaeth rydych yn ei chofnodi yn eich cynllun rheoli pridd gynnwys:

- math, strwythur a chyfansoddiad y pridd (o'r canlyniadau samplu)
- camau rheoli i wella iechyd pridd ac i leihau gwastraff e.e. trwy dargedu gwrteithiau.

Bydd angen ichi hefyd gynnwys canlyniadau potasiwm a ffosfforws yn eich Cynllun Rheoli Maethynnau, a gaiff ei greu yn unol â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng y maethynnau sydd ar gael yn y pridd a'r hyn sydd ei angen ar eich cnwd, er mwyn ichi allu targedu mewnbynnau a rhag colli maethynnau i'r amgylchedd.

Darperir canllawiau manwl, ynghyd â chyngor a chymorth i'ch helpu i gwblhau'r Weithred hon, ac mae'n bwysig i ddefnyddio'r wybodaeth hon i weithredu'n fwy effeithlon a lleihau'r effaith rydych yn ei chael ar amgylchedd.

### Pryd bydd rhaid imi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd angen ichi brofi o leiaf 20% o'ch tir a llwytho'r canlyniadau i RPW Ar-lein cyn diwedd pob blwyddyn y Cynllun.

Bydd angen i chi ddiweddaru'ch cofnodion wrth ichi reoli'ch tir drwy'r flwyddyn, gan gynnwys pan fyddwch yn ei drin, ei hau, ei wrteithio a'i gynaeafu. Bydd angen cadw cofnodion a sicrhau eu bod ar gael i Lywodraeth Cymru ar gais.

# UA4: Cnydau gorchudd amlrywogaeth

**Diogelu priddoedd rhag eu herydu a'u diraddio trwy sefydlu cnwd gorchudd amlrywogaeth ar yr holl dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf.**

## Yr uchelgais

Mae pridd yn adnodd naturiol yr ydym i gyd yn dibynnu arno. Gall erydiad, cywasgu pridd, a cholli deunydd organig gael effaith fawr ar allu cae i gynhyrchu. Mae'r weithred hon yn canolbwyntio ar sefydlu cnwd gorchudd aml-rywogaeth ar yr holl dir sy'n ddi-gnwd dros y gaeaf i leihau erydiad pridd.

Mae cnydau gorchudd yn cynnig amrywiaeth o fanteision gan ddibynnu ar eich system. Bwriad y weithred hon yw dewis cnydau sy'n:

- amddiffyn pridd rhag erydiad – dewisir planhigion sy'n rhwymo'r pridd i leihau erydiad
- gwella cyflwr y pridd – dewisir planhigion am eu bod yn: gwreiddio'n ddwfn, yn bachu nitrogen neu'n adeiladu deunydd organig
- cadw maethynnau yn y pridd rhag eu colli – planhigion sy'n dal maethynnau a allai fel arall gael eu colli o'r cae
- darparu cynefin – dewisir planhigion sy'n darparu cynefin, bwyd i fywyd gwyllt yn y gaeaf, neu fwyd i bryfed peillio
- rheoli perygl llifogydd a sychder – planhigion sy'n gwreiddio'n ddwfn ac yn hwyluso dŵr i ymdreiddio i'r pridd
- rheoli chwyn a phlâu – dewisir planhigion sy'n boddi chwyn neu sydd â rhinweddau sy'n cyfyngu ar blâu
- cnwd pori – dewisir cyfuniadau o blanhigion sy'n darparu'r uchod, y gellir wedyn eu pori

Mae'r Weithred wedi'i llunio i ddarparu mwy na'r gofyn i gadw tir mewn cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) 4 : Stoc Pridd a Charbon – Cadw gorchudd pridd gofynnol. Rydym yn bwriadu cadw gofyn tebyg i GAEC 4 o fewn rheolau'r Cynllun.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm ar y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon. Bydd angen bodloni'r gofyn i ddarparu cnwd gorchudd ar bob tir a fyddai fel arall yn cael ei adael yn foel ar ôl ei gynaeafu am gyfnod o fwy na 6 wythnos.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Bydd angen i chi gyflwyno cnwd gorchudd cymysg ar yr holl dir a fyddai fel arall yn cael ei adael yn foel ar ôl ei gynaeafu am gyfnod o fwy na 6 wythnos fel bod y gorchudd yn bresennol gydol misoedd y gaeaf.

Mater i chi fydd dewis y gymysgedd o rywogaethau i'w plannu, yn ôl, er enghraifft, manylion eich cylchdro cnydau, amodau'r hinsawdd, cyflwr y pridd, dyddiad cynaeafu, dull clirio'r cnwd, pwysau pla neu chwyn. Rhaid i hadau cnydau gorchudd fod yn gymysgedd o ddwy neu fwy o rywogaethau, ac nid glaswellt a meillion yn unig.

Gallwch hau dan gnwd neu arfer dull arall o sicrhau bod gorchudd ar y pridd yn hytrach na hau ar ôl y cynhaeaf. Rhaid hau o dan gnydau fel indrawn sy'n cael eu cynaeafu'n hwyr, er mwyn cyfyngu ar y difrod i'r pridd.

Byddwn yn ystyried dewisiadau eraill posibl os ydych yn cynaeafu neu'n pori cnydau porthiant fel betys porthiant neu sofl maip dros y gaeaf ac na fydd y gorchudd a heuir felly yn tyfu'n dda. Gallech gynnwys er enghraifft: lain glustogi o leiaf 5m o led i rwystro llif dŵr rhag cyrraedd afon neu heol. Rydym hefyd yn ystyried defnyddio asesiad risg pridd garw os nad yw erydiad pridd yn berygl mawr.

Mae’n well clirio cnydau gorchudd trwy bori ond ystyriwch y risg o stablad (sathru) a chywasgu pridd. Gallai dulliau mecanyddol megis torri, tocio ac ymgorffori, rholio a chrimpio, neu unrhyw ddull mecanyddol arall fod yn dderbyniol. Caniateir defnyddio cemegau ar gyfer clirio cnwd, ond nid ydym yn cynghori hynny.

Bydd angen i chi gadw tystiolaeth o’r Weithred sydd wedi’i chwblhau. Dylai hyn gynnwys derbynebau hadau neu wybodaeth gysylltiedig arall ynghylch ble cawsoch yr hadau, ynghyd â chofnod o’r cnwd gorchudd, dyddiadau hau a dull clirio’r cnwd. Gall Llywodraeth Cymru ofyn am y wybodaeth hon ar unrhyw adeg.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau’r Weithred hon?

Dylid hau’r cnwd gorchudd mor gynnar â phosibl, fel arfer o fewn 10 diwrnod i’r diwrnod cynaeafu, a dylech gadw’r gorchudd tan o leiaf 15 Chwefror, oni bai bod y tywydd yn ei ddinistrio’n naturiol.

# UA5: Rheolaeth Integredig ar Blâu

**Cynnal asesiad blynyddol o'r cynhyrchion diogelu planhigion a ddefnyddir a'r dulliau amgen a ddefnyddir i leihau'r defnydd o gemegau.**

## Yr uchelgais

Mae Rheoli Plâu yn Integredig (IPM) yn ddull o reoli plâu, clefydau neu chwyn sy'n lleihau'r gofyn i ddefnyddio cemegau ar gnydau glaswelltir, âr a garddwriaethol. Mae IPM yn canolbwyntio ar dyfu cnwd iach ac ar amharu cyn lleied â phosibl ar ecosystemau. Gwneir hyn trwy annog y math mwyaf priodol o reolaeth sy'n defnyddio technoleg a dulliau heb gemegau ac yn targedu'r defnydd o gemegau pan fo'u hangen. Bwriad hyn yw lleihau'r perygl o blâu, chwyn a chlefydau drwy'r egwyddor "gwell atal clwy na'i wella".

Nid un weithred mo IPM, ond yn hytrach cyfres o asesiadau, penderfyniadau a mesurau ar gyfer rheoli plâu. Bydd mabwysiadu IPM, er enghraifft sy'n arwain at ddefnyddio llai o gynnyrch amddiffyn planhigion yn arbed arian i chi, yn annog infertebratau rhinweddol, yn lleihau'r risg i'r plâu fagu ymwrthedd, ac yn lleihau'r risg i iechyd pobl.

Mae IPM yn cynnwys defnyddio:

- technegau tyfu priodol
- cylchdroi cnydau a chnydau cydymaith
- mathau o gnydau sydd ag ymwrthedd i blâu
- defnydd priodol ac effeithlon o blaladdwyr a gwrtaith
- cynefinoedd natur mewn caeau ac o'u hamgylch i annog ysglyfaethwyr a phryfed eraill sy'n bwyta plâu cnydau.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm yn y Cynllun sy'n defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion (PPPs) gynnal y weithred hon. Mae PPP yn cynnwys pryfladdwyr, ffwngladdwyr, chwynladdwyr, molwsgladdwyr a rheolyddion tyfiant planhigion.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Os defnyddir PPPs ar eich fferm, hyd yn oed gan drydydd parti, rhaid i chi gynnal a chofnodi asesiad IPM bob blwyddyn.

Ni fyddwn yn rhagnodi fformat yr asesiad hwn gan fod templedi IPM y diwydiant ar gael ar gyfer; tir âr yn bennaf; glaswellt yn bennaf, garddwriaeth yn bennaf. Disgwylir ichi gofnodi'r wybodaeth ganlynol fel rhan o'r broses hon:

- pa PPP a ddefnyddir a faint, dyddiad ac amser ei wasgaru; lleoliad ac arwynebedd y darn tir sy'n cael ei drin (ha), math o gnydau sy'n cael eu trin, rheswm dros eu trin a'r tywydd adeg eu gwasgaru.
- a wnaethoch chi ddefnyddio rhywbeth yn lle PPPs a beth, yr arwynebedd lle gwnaethoch ei ddefnyddio a llwyddiant yr hyn y gwnaethoch ei ddefnyddio yn lle PPPs.

## Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylid cwblhau'r weithred hon cyn diwedd y flwyddyn gyntaf ar ôl ymuno â'r Cynllun a'i diweddaru'n rheolaidd wedi hynny (o leiaf unwaith y flwyddyn) i chi gael y budd mwyaf.

Bydd angen cofnodi'r holl PPP a ddefnyddir bob blwyddyn fel Dangosydd Allweddol.

# UA6: Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr




### Rheoli mawnogydd sydd wedi'u newid yn fawr i ddiogelu stociau carbon y pridd.

### Yr uchelgais

Dim ond 3-4% o Gymru sy'n dir mawnog ond er hynny, mae tir o'r fath yn storio tua 20-25% o'r holl garbon pridd. Mae mawnogydd yn darparu ystod o fanteision ecosystem pwysig gan gynnwys storio a dal carbon, rheoli llifogydd yn naturiol, rheoleiddio ansawdd a'r cyflenwad dŵr ar adegau o sychder, lleihau risg tanau gwyllt a chynhyrchu bwyd trwy bori. Cynnal mawnogydd mewn cyflwr ecolegol da yw'r unig ffordd i sicrhau'r manteision hyn.

Yn hytrach na storio carbon, mawnogydd sydd wedi cael eu newid trwy eu draenio a'u trin yw rhai o'r priddoedd sy'n allyrru carbon fwyaf am eu bod wedi colli'r mwsoglau sy'n ffurfio'r mawn ac mae'r lefel trwythiad uchel sydd ei hangen i'w cynnal wedi gostwng.

Nid yw mawnogydd sydd wedi'u newid yn gallu cael eu diffinio fel cynefinoedd lled-naturiol ac felly ni fydd modd eu cynnwys yn y Gweithredoedd Rheoli Cynefinoedd. Mae mawnogydd sy'n gysylltiedig â gorgorsydd a chyforgorsydd yr ucheldir, yn cael eu cynnwys fel arfer yn y Gweithredoedd Rheoli Cynefin. Hwn yw'r un math pwysig o bridd sydd yn aml yn cael ei gysylltu o safbwynt hydrolegol ac sydd â'r potensial o hyd i gael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol a restrir uchod.

Gan gydnabod yr angen i ddiogelu'r math hwn o bridd sensitif rhag dirywiad diangen a dieisiau i gefnogi'r Cynllun, cynigiwn fod cyfyngiadau'n cael eu rhoi ar nifer o weithgareddau rheoli tir a gweithgareddau eraill a allai fod yn niweidiol yn y rhannau tir a nodwyd.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid cynnal y weithred hon ar bob fferm yn y Cynllun sydd â mawnog sydd wedi'i newid yn fawr.

Byddwn yn dangos i chi os oes mawnogydd o'r fath ar eich fferm.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Ni chewch gynnal y gweithgareddau canlynol ar fawnog sydd wedi'i newid yn fawr:

- Peidiwch â gwasgaru slag basig, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff, cynnyrch treulio anaerobig na gwastraff arall o'r fferm ac o'r tu allan iddi (gan gynnwys dip defaid). Caniateir gwrteithiau organig ac anorganig ond nid ydym yn eu hannog.
- Peidiwch â gwasgaru mwy o galch nag sydd ei angen i godi pH y pridd i uchafswm o 5.5.
- Peidiwch â difrodi'r fawnog sydd wedi'i newid trwy ei gorbori, caniatáu ei stablad (sathru) gan dda byw na'i rhigoli gan beiriannau fferm neu gerbydau eraill.
- Peidiwch â gosod draeniau newydd (gan gynnwys tan-ddraeniau) na newid y draeniau presennol ar fawnog sydd wedi'i newid nac o fewn 100m iddi lle byddai'r ffos neu'r draen yn atal dŵr rhag llifo i'r ardal.
- Peidiwch â charthu ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst Cewch wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar ddraeniau sy'n bodoli eisoes:
  - Cewch glirio llystyfiant a gwaddodion, gan adael llystyfiant ar hyd un ochr y ffos.
  - Ni chaniateir dyfnhau na lledu ffosydd.
  - Rhaid cofnodi manylion unrhyw waith clirio ffosydd ar fawnog.
- Peidiwch â gwneud gwaith sy'n golygu symud pridd, gan gynnwys torri mawn a llenwi pantiau naturiol.

- Peidiwch â chodi craig, sgri, tywod, graean, clai na mawn.
- Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff fferm arall arni.
- Peidiwch ag adeiladu trac, heol, buarth, llawr caled nac unrhyw strwythur newydd arni.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol, ac eithrio lle bo angen hynny'n benodol er lles y da byw.
- Peidiwch â storio deunyddiau, cerbydau, trelars na pheiriannau arni.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd angen rheoli'r holl fawnogydd sydd wedi'u newid ar eich fferm o'r adeg y byddwch yn ymuno â'r Cynllun.

# Cynefin

**Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio set o Weithredoedd Cyffredinol cydgysylltiedig ar gyfer rheoli cynefinoedd lled-naturiol megis porfeydd a gweirgloddiau blodeuog cyfoethog, y rhosydd a'r mawnogydd yn yr ucheldir a'r morfeydd heli a'r twyni tywod o amgylch ein harfordir.**

Rydym wedi disgrifio hefyd y gofyn y dylai o leiaf 10% o bob fferm gael ei reoli fel cynefin er budd bywyd gwyllt ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

Rydym yn cynnig cynnwys unrhyw waith rheoli cynefinoedd lled-naturiol (a restrir isod) yn Haen Gyffredinol y Cynllun a'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol i gydnabod eich ymdrechion i reoli'r tiroedd hyn.

- Morfeydd Heli
- Twyni Tywod Arfordirol a Thraethau Graean
- Rhos yr Arfordir a Rhos Llawr Gwlad
- Gwlypdir wedi'i Amgáu a Glaswelltir Corsiog
- Glaswelltir Sych Lled-naturiol wedi'i Amgáu (wedi'i reoli naill ai fel tir pori neu weirglodd)
- Cynefinoedd Agored yr Ucheldir (gan gynnwys clytwaith o rostir, mawnogydd a glaswelltiroedd eang)
- Perllannau Traddodiadol (cynefin coediog)
- Rhedyn Trwchus
- Prysgwydd (cynefin coediog)
- Coed Pori (cynefin coediog)
- Coed mewn Cae gan gynnwys Coed Hynod (cynefin coediog)

Rydym yn bwriadu dangos i chi yr holl dir cynefin sy'n hysbys (math a maint) fel rhan o'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd (HBR – gweler pennod 4) pan fyddwch yn ymuno â'r Cynllun. Bydd yn nodi'r tir cynefin fydd yn rhan o'n cytundeb ar y cyd â'r camau rheoli y bydd gofyn i chi eu cymryd.

Byddwn yn esbonio'r canlyniadau y byddwn am i chi eu cyflawni. Byddwn yn nodi hefyd cyfres o gyfyngiadau rheoli, gan gynnwys 'Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd', rhag colli a difrodi cynefinoedd lled-naturiol ac i helpu i'w gwella. Yn ogystal â'r gofynion gorfodol hyn, byddwn yn darparu argymhellion rheoli – nid yw'r rhain yn safonau ar gyfer eich mesur. Maent yn awgrymiadau i'ch helpu i gyflawni'r canlyniadau mesuradwy yr ydym yn chwilio amdanyn nhw.

# UA7: Cynnal cynefinoedd



**Cynnal cynefinoedd lled-naturiol sy'n bod i sicrhau'r manteision mwyaf i dda byw sy'n eu pori ac i fywyd gwyllt.**

## Yr uchelgais

Ffocws y Weithred hon fydd yr holl gynefinoedd lled-naturiol sydd ar eich fferm. Mae'r cynefinoedd pwysig hyn yn dibynnu ar gael eu pori gan dda byw i sicrhau eu dyfodol hirdymor. Yn gyfnewid, maen nhw'n darparu cnydau pori amrywiol ac amrywiaeth eang o blanhigion sy'n darparu elfennau hybrin pwysig a manteision eraill megis meddyginiaeth gwrthlyngyr naturiol.

Mae'r gweithredoedd rheoli cynefin a ddisgrifir isod wedi'u cynllunio i gadw a chynnal y cynefin pwysig hwn a'i gyfoethogi.

Rydym yn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth ymdrin â rhai agweddau ar reoli cynefinoedd o'i gymharu â chynlluniau blaenorol fel Glastir. Byddwch yn cael gwneud mwy o benderfyniadau rheoli ar sail y tymor, amodau'r ddaear a'ch da byw.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid cynnal y weithred hon ar bob fferm yn y Cynllun sydd â chynefinoedd lled-naturiol.

Bydd angen cynnal y gweithredoedd rheoli ar bob cynefin lled-naturiol ar eich fferm.

Nid yw'r Weithred Gyffredinol hon yn ymdrin â safleoedd dynodedig megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd fel arfer â chynlluniau pwrpasol sy'n nodi'r gofynion ar gyfer eu rheoli.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Byddwn yn darparu'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob math o gynefin fel eich bod yn gwybod beth sydd ei angen:

- **Amcanion -** disgrifiad byr o'r 'weledigaeth' tymor hir ar gyfer y cynefin.
- **Canlyniadau mesuradwy -** diffiniad manwl o'r union beth sydd angen ei wneud i sicrhau'r canlyniad mesuradwy a ddymunir. Dyma'r canlyniadau penodol y bydd gofyn ichi eu cyflawni a byddwch yn cael eich monitro ar eu sail.
- **Argymhellion rheoli -** cyfres o argymhellion i'ch helpu i gyflawni'r canlyniadau gofynnol e.e. lefelau pori neu fath o dda byw.
- **Cyfyngiadau -** gweithgareddau niweidiol penodol y dylech beidio â'u gwneud ar fath penodol o gynefin. Bydd y rheolau cynefin i atal colli a difrodi cynefinoedd lled-naturiol yn ofynion lleiaf a byddwn yn eu nodi er hwylustod mewn 'Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd'.
- **Rhanddirymiadau posibl -** digwyddiadau y tu allan i'ch rheolaeth lle gellir llacio'r gofynion am gyfnod e.e. pan geir cyfnod hir o dywydd eithafol.

At ddiben yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi cynnwys y wybodaeth uchod ar gyfer pob math o gynefin, ond er enghraifft, rydym wedi cynnwys 'Glaswelltir Sych Lled-naturiol wedi'i Amgáu Amgaeedig – Porfa Bori)' a fydd yn fath o gynefin sy'n gyffredin i lawer o ffermydd.

### Glaswelltir Sych Lled-Naturiol wedi'i Amgáu - Porfa Bori (gan gynnwys Glaswelltir Sur, Niwtral, Calchaidd a Metelaidd)

#### Amcanion

Cynnal y glaswelltir trwy ei bori, er mwyn cael tyfiant amrywiol ei uchder lle bydd amrywiaeth o rywogaethau planhigion brodorol (gan gynnwys perlysiau) yn gyffredin ac yn gallu blodeuo a hadu, a lle gall anifeiliaid (gan gynnwys infertebratau) a ffyngau glaswelltir brodorol ffynnu. Mae rhywogaethau amaethyddol fel rhygwellt a meillion gwyn yn absennol neu'n brin.

#### Canlyniadau mesuradwy:

- Pori i gynnal tyfiant amrywiol ei uchder gydag o leiaf 75% o'r glaswelltir rhwng 5cm ac 20 cm rhwng 15 Mai a 31 Awst.
- Cynnal tyfiant lle bydd 75% o'r glaswelltir rhwng 2cm a 10 cm o uchder rhwng 1 Medi a 31 Hydref.
- Cymerwch y da byw oddi ar y tir os aiff yn rhy wlyb, rhag ei stablad (sathru) a'i gywasgu.
- Nid oes clytiau mawr o ddeunydd marw a byddant yn llai na 10% o gyfanswm y gorchudd.
- Nid fydd mwy na 5% o arwynebedd y cae yn bridd moel, a bydd hwnnw wedi'i wasgaru o amgylch y cae.
- Nid yw glaswellt bras/tal yn dominyddu, ac eithrio mewn clytiau na fydd rhyngddynt yn fwy na 5% o'r glaswelltir.

#### Argymhellion Rheoli:

- Yn ddelfrydol, dylid rhoi gwartheg neu geffylau i bori glaswelltir niwtral yn hytrach na defaid.
- Lefelau stocio a argymhellir:
  - Glaswelltir sur – 0.2-0.4 uned da byw/ha/bl
  - glaswelltir calchaidd – 0.25-0.4 uned da byw/ha/bl
  - glaswelltir niwtral – 0.5-0.7 uned da byw/ha/bl
  - Glaswelltir arfordirol – 0.3-0.6 uned da byw/ha/bl
- Gwasgarwch galch os oes angen i gynnal pH pridd rhwng 5.5 a 6.5 ar laswelltir niwtral

#### Cyfyngiadau:

- Cadwch at y Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd
- Peidiwch â phlannu coed.
- Peidiwch â gadael i dda byw stablad (sathru) y tir (hyn yn dderbyniol wrth fylchau caeau a mannau bwydo a dyfrhau cyn belled nad oes mwy na 5% o'r gorchudd wedi'i stablad neu'n bridd moel)
- Peidiwch â gwasgaru calch ar laswelltir sur, calchaidd neu fetalaidd.
- Peidiwch â thorri neu docio mwy na 30% o'r brwyn neu'r chwyn mewn blwyddyn.
- Peidiwch â gadael i brysgwydd ledaenu.

#### Rhanddirymiadau Posibl

Gallai fod rhanddirymiad dros dro ar y gofynion o ran uchder y borfa os bydd cyfnodau hir o dywydd garw, neu ddigwyddiadau fel llifogydd, sychder, rhew neu eira dros gyfnod hir, tân gwyllt neu glefyd.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd angen rheoli'r holl gynefinoedd lled-naturiol sydd ar eich fferm o'r adeg y byddwch yn ymuno â'r Cynllun.

# Rheol y cynllun

## Rydym yn cynnig y dylai o leiaf 10% o bob fferm gael ei reoli fel cynefin er budd bywyd gwyllt ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

Wrth benderfynu a oes gennych ddigon o gynefin lled-naturiol i fodloni'r gofyn o 10%, byddwn yn canolbwyntio ar gynefinoedd ar raddfa cae fel glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn cynnwys nodweddion cynefinoedd gwerthfawr eraill gan gynnwys pyllau parhaol a thymhorol, coetir llydanddail sydd wedi cydio a pherthi/gwrychoedd fydd mewn 'cyflwr da'.

Mae rhai o'r mathau o gynefinoedd a restrir yn y Weithred Cynnal Cynefinoedd (UA7) uchod wedi'u marcio fel 'cynefinoedd coediog'. Maen nhw'n gynefinoedd aml-haenog sy'n debygol o fod â haen o blanhigion gwerthfawr ar y llawr yn ogystal â chanopi o goed. Rydym yn cynnig y gall yr haen ar y llawr gyfrannu at y gofyn o 10% o gynefin, tra gallai unrhyw ganopi coed yn yr un llain o dir gyfrannu at y gofyn o 10% o orchudd coed.

Os oes gennych ddigon o gynefinoedd lled-naturiol i gyrraedd y trothwy o 10%, gallech ar y darnau hynny o dir sydd uwchlaw'r trothwy ond sydd wedi'u nodi fel cynefinoedd o ansawdd is (e.e. rhedyn trwchus, glaswelltir sych prin ei rywogaethau, glaswelltir brwynog ac eithrio mawnogydd), cyn belled â'u bod yn bodloni'r amod o fod yn gynefin, blannu coed neu greu byllau tymhorol arnynt neu eu hadfer yn gynefinoedd o ansawdd uwch. Bydd hyn yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i chi allu bodloni gofynion eraill y cynllun, yn ogystal â chreu darnau newydd gwerthfawr o gynefin fel clytwaith o wlyptir, coetir llaith a glaswelltir agored newydd.

Os nad oes gennych ddigon o gynefinoedd i fodloni'r amod o 10%, gallwch greu nodweddion cynefin dros dro newydd i gyrraedd y trothwy – gweler Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella (UA8) isod.

Rydym yn deall y gall nodweddion eraill hwnt ac yma ar eich fferm, fel waliau cerrig sych, adeiladau fferm traddodiadol a choetiroedd conwydd, fod yn werthfawr i fywyd gwyllt ond rydym yn cynnig na ddylai'r darnau tir hyn gyfrif at y trothwy o 10%.

# UA8: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

**Creu nodweddion cynefin dros dro ychwanegol ar dir wedi'i wella i fodloni gofynion y cynllun am isafswm arwynebedd cynefin.**

## Yr uchelgais

Yn sgil diwedd y fferm gymysg, mae cefn gwlad Cymru wedi colli'r gymysgedd o gnydau glaswelltir, âr a garddwriaethol a arferai dyfu yno ar un adeg. Mae hyn yn golygu nad oes gennym gynefinoedd mor amrywiol, a dydyn nhw ddim wedi wedi'u cysylltu â'i gilydd i'r un graddau. O ganlyniad, mae llawer o'n planhigion a'n hanifeiliaid gwyllt wedi prinhau – gan gynnwys rhai pryfed peillio, ac adar fel y betrysen a'r bras melyn.

Os oes gennych lai na'r 10% o gynefin sydd ei angen i fodloni gofynion y cynllun, gallwch greu nodweddion cynefin newydd dros dro ar dir wedi'i wella, fel gwyndynnydd cymysg neu ymylon o wyndwn. Gwyndwn cymysg yw tir sydd wedi'i hau â chymysgedd o hadau glaswellt, codlysiau a blodau. Mae'r mathau hyn o gynefin dros dro yn werthfawr gan eu bod yn diwallu anghenion amrywiaeth o fywyd gwyllt a hyd yn oed yn fwy gwerthfawr pan fyddan nhw'n cysylltu darnau eraill o gynefin fel perthi/gwrychoedd, coetiroedd a gwlyptiroedd â'i gilydd.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid cynnal y weithred hon ar bob fferm yn y Cynllun sydd heb ddigon o gynefinoedd i fodloni gofyn y cynllun o 10%.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Byddwch yn cael dewis un neu fwy o'r opsiynau creu cynefinoedd o'r rhestr ganlynol i fodloni'r gofyn isafswm o ran cynefinoedd:

- Ymylon o wyndwn
- Heb ei ffrwythloni, heb ei chwistrellu (â chynnyrch fel cynhyrchion amddiffyn planhigion) a phentiroedd cnydau heb eu cynaeafu
- Creu ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr
- Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr
- Sefydlu gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella (gwyndynnydd aml-rywogaeth neu lysieuol yn enwau eraill arnyn nhw), sef cymysgedd o laswellt, codlysiau a blodau
- Sefydlu cnwd gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt ar dir wedi'i wella

Yn yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi cynnwys manylion pob un o'r rhain, ond rydym am ddisgrifio 'Sefydlu gwyndynnydd cymysg' fel enghraifft all fod yn berthnasol i lawer o ffermydd.

### Sefydlu Gwyndynnydd Cymysg ar Dir wedi'i Wella (gwyndynnydd aml-rywogaeth neu lysieuol yn enwau eraill arnyn nhw)

#### Nodau:

Gall gwyndynnydd cymysg (sef cymysgedd o laswellt, codlysiau a blodau) ddod â mantais i fusnes y fferm trwy wneud y tir pori'n fwy cydnerth. Bydd defnyddio rhywogaethau fel meillion yn lleihau'r gofyn am wrtaith, a bydd rhywogaethau sydd â gwreiddiau dyfnach fel sicori'n gallu cael at y gwlybaniaeth yn y pridd mewn cyfnodau hir o sychder. Mae gwyndynnydd cymysg fel hyn hefyd yn cynefin pwysig ar gyfer pryfed peillio.

#### Canlyniadau mesuradwy:

- Sefydlu gwyndwn cymysg, sy'n cynnwys o leiaf pum rhywogaeth o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth o lysiau.
  - Rhaid hau o leiaf 25kg / ha.
  - Dim mwy na 6 kg / ha o rygwellt
  - Dim mwy na 9 kg / ha o hadau glaswellt eraill (Dim mwy na 15 kg / ha o hadau glaswellt)
- I'w hau ar dir wedi'i wella yn unig a'u defnyddio i greu plociau neu ymylon caeau.
- Defnyddiwch hadau ardystiedig yn unig ar y gyfradd hau a argymhellir.
- Rhaid i'r dewis a'r gymysgedd o rywogaethau fod yn addas i'r lleoliad.
- Ar ôl eu sefydlu, rhaid cadw gwyndynnydd cymysg gydol blwyddyn y Cynllun.
- Dylid hau rhwng 15 Ebrill a 31 Awst.
- Gellir sefydlu'r cnwd drwy aredig, dulliau trin traddodiadol a drilio. Mae bas-droi neu ddrilio uniongyrchol yn well, rhag aflonyddu ar y pridd a cholli carbon.
- Cymysgwch yr hadau yn yr hopran yn syth cyn hau'r gymysgedd hadau i wneud yn siwr eich bod gwasgaru'r gymysgedd yn gyfartal.
- Gellir hau hadau trwy eu gwasgaru ar led neu drwy ddrilio, ond dim dyfnach nag 1cm.
- Rowliwch ar ôl hau i gadw'r lleithder.
- Os ydych yn bras droi'r pridd neu'n drilio'n uniongyrchol, mae angen defnyddio chwynladdwr priodol, cymeradwy i ladd y borfa sydd yno. (Nid oes angen i ffermwyr sydd wedi cael eu hardystio'n organig wneud hyn).
- Raid cynnal llain glustogi o laswellt o 1 metr ar hyd perthi/gwrychoedd, cloddiau neu gyrsiau dŵr.
- Dylid rheoli'r borfa ar ôl ei sefydlu er mwyn cynnal yr amrywiaeth ynddi, i annog y gymysgedd i flodeuo a hadu a'i diogelu rhag ei stablad (sathru) gan dda byw.
- Ar gyfer yr archwilwyr, dylid cadw cofnod o'r holl weithgareddau a wneir yn y cae, gan gynnwys dyddiad hau, tystiolaeth o ddefnyddio gwrtaith a phlaladdwyr a dyddiadau pori.

#### Cyfyngiadau:

- Peidiwch â'i aredig, ei drin na'i ddrilio cyn 1 Mawrth.
- Ar ôl ei sefydlu, peidiwch â defnyddio PPPs ac eithrio o fewn fframwaith cynllun IPM i sbot drin neu glwt-chwynnu chwyn niweidiol neu rywogaethau estron goresgynnol, brwyn caled, brwyn pabwyr, danadl neu redyn.
- Peidiwch â defnyddio gwrteithiau anorganig sy'n cynnwys nitrogen ar ôl i'r cnwd gael ei sefydlu tan y gwanwyn sy'n dilyn. Argymhellir osgoi gwrtaith nitrogen er mwyn sicrhau'r manteision amaeth-economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl o'r gwyndwn cymysg.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylid cynnal y gweithredoedd hyn cyn gynted ag y medrwch yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun, gan ddibynnu ar ofynion tymhorol pob opsiwn.

Os bydd angen hynny yn y blynyddoedd i ddod, dylid cynnal yr opsiynau fel rhan o'r cylchdro neu eu cynnal mewn lle penodol.

# UA9: Cynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig

**Bydd gennych Gynllun Rheoli gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Safleoedd Dynodedig sydd o dan eich rheolaeth.**

## Yr uchelgais

Mae'r weithred hon yn cyfeirio at y rhwydwaith o safleoedd o gwmpas Cymru sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys yr enghreifftiau gorau o'n hamgylchedd naturiol gwerthfawr. Yn ogystal â bod yn hanfodol ar gyfer diogelu ein bywyd gwyllt prin rhag iddo brinhau ymhellach, gall y safleoedd hyn wireddu llawer o ganlyniadau eraill yr egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae rhai SoDdGAau yn fawr ac yn rhychwantu ffiniau nifer o ffermydd. Os oes gennych reolaeth ar ran benodol o SoDdGA, rydym yn bwriadu gweithio gyda chi er mwyn medru targedu'r gwaith rheoli ar y rhan honno o'r safle. Y cam cyntaf a'r prif beth y mae'r Weithred hon yn gofyn amdano yw paratoi cynllun neu gynlluniau rheoli, gan weithio gyda CNC, ar gyfer pob SoDdGA ar eich fferm.

Rydym yn cynnig bod tir mewn SoDdGA yn cael blaenoriaeth ar gyfer ei gynnwys yng Ngweithredoedd Opsiynol y Cynllun i adlewyrchu'r mesurau rheoli mwy unigryw a phenodol y gallai fod eu hangen ar y safleoedd arbennig hyn. Ein barn ar hyn o bryd yw, oherwydd y gofynion rheoli manylach mewn SoDdGA, ni fyddwn yn cael talu elfen gynnal a chadw y Taliad Sylfaenol Cyffredinol ar dir mewn SoDdGA. Diben yr elfen hon yw talu uwchlaw'r lefel reoleiddio sylfaenol. Byddwn yn parhau i ystyried cyfleoedd i dalu taliadau cynnal a chadw ar gyfer SoDdGAau. Bydd gweddill elfennau'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol ar gael i'w talu ar gyfer tir mewn SoDdGA cyn belled â bod yr holl reolau eraill a'r Gweithredoedd Cyffredinol wedi'u bodloni. Bydd arwynebedd y SoDdGA yn cael ei gynnwys yn y Taliad Sefydlogrwydd.

Dylai cynlluniau neu gytundebau rheoli (e.e. Cytundebau Rheoli Adran 15 neu 16 CNC) fydd yn fyw pan fyddwch yn ymuno â'r Cynllun gael parhau nes y byddant yn dod i ben. Yna byddwn yn gweithio gyda chi i'w hadolygu a'u hymgorffori yn y Cynllun.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm yn y Cynllun sydd â rheolaeth lawn ar dir mewn SoDdGA sydd wedi'i ddynodi am ei fywyd gwyllt neu ei ddaeareg gynnal y Weithred hon. Mae'r weithred hon yn berthnasol hefyd i dir sy'n effeithio ar afonydd sydd wedi'u dynodi'n SoDdGA. Byddwn yn cadarnhau gyda chi unrhyw safleoedd sy'n berthnasol i chi.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Y Weithred yw gweithio gyda CNC i lunio Cynllun Rheoli ar gyfer y SoDdGA, gan gynnwys gweledigaeth hirdymor ar ei gyfer.

Unwaith y bydd y Cynllun Rheoli wedi'i lunio i gynnal y Weithred hon, yna gall lywio'r gweithgareddau rheoli y gellir eu hymgorffori mewn Contract Rheoli ar gyfer cael cymorth trwy Haen Opsiynol y Cynllun.

## Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylid llunio'r Cynllun Rheoli cyn gynted â phosibl ar ôl ymuno â'r Cynllun ac erbyn diwedd 2029 fan bellaf.

Os oes gennych Gynllun Rheoli gyda CNC eisoes, wrth ymuno â'r Cynllun, byddwch eisoes wedi cynnal y Weithred Gyffredinol hon.

Rydym yn cydnabod y bydd angen mwy o amser i lunio Cynllun Rheoli ar gyfer safleoedd mawr neu fwy cymhleth. Byddwn yn gweithio gyda chi ac CNC i gytuno ar broses effeithlon ar gyfer llunio Cynlluniau Rheoli ar gyfer eich rhwydwaith o safleoedd dynodedig.

# UA10: Pyllau dŵr parhaol a thymhorol

**Rheoli pyllau dŵr parhaol a thymhorol, neu greu pyllau tymhorol newydd i hybu bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â nodweddion dŵr ar eich fferm.**

## Yr uchelgais

Mae pyllau dŵr tymhorol ar dir fferm yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt gwlyptiroedd yn y dirwedd amaethyddol.

Mae rhwydweithiau iach o byllau, ar adegau gwahanol o'u cylchoedd bywyd, yn caniatáu i fywyd gwyllt fridio, bwydo a symud o gwmpas cefn gwlad. Hefyd, mae pyllau dros dro tymhorol neu naturiol yn gynefin pwysig sydd dan fygythiad mawr. Pan fydd dŵr ynddyn nhw, mae pyllau dros dro yn cynnal llawer o wahanol fathau o fywyd gwyllt yn yr un modd ag y bydd pwll parhaol ond, gan eu bod yn sychu, ni all pysgod ymgartrefu ynddyn nhw.

Mae pyllau tymhorol a rhubanau dros dro o ddŵr bas yn sychu'n araf dros y gwanwyn a'r haf. Wrth i'r dŵr gilio, mae'r ymylon cynnes a'r mwd gwlyb yn creu'r amodau i blanhigion hadu ac i infertebratau dorheulo a bwydo. Gall hynny ddenu adar bridio fel y goesgoch, y gornchwiglen a'r siglen felen i fwydo.

Trwy leoli pyllau tymhorol newydd yn ofalus gallwch wella cysylltiadau â thir cynefin cyfagos ac ychwanegu'n fawr at ei werth.

Caiff pyllau bywyd gwyllt eu diffinio fel nodweddion dŵr agored hyd at 1 hectar o faint a'u prif swyddogaeth yw bod o fudd i natur. Nid chynhwysir nodweddion dŵr os eu prif swyddogaeth yw storio dŵr ar gyfer gwaith y fferm e.e. pyllau dyfrhau, cronfeydd storio dŵr, tanciau dŵr neu gyflenwad dŵr.

Nid yw'r cynnig hwn yn cynnwys cyrsiau dŵr (dŵr sy'n llifo) e.e. ffosydd, nentydd ac afonydd.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm ar y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Ar gyfer y Weithred Gyffredinol hon, mae gofyn gwneud y canlynol;

- Ffermydd 80ha neu lai; rheoli o leiaf dau bwll parhaol a/neu dymhorol sydd gyda'i gilydd o leiaf 0.1ha (1000m2) o faint.
- Ffermydd sy'n fwy na 80ha; rheoli o leiaf dau bwll parhaol a/neu dymhorol sydd gyda'i gilydd o leiaf 0.2ha (2000m2) o faint

Cyfrifir yr arwynebedd yn ôl ffiniau'r nodwedd. Ar gyfer pyllau sydd â lleiniau clustogi i gadw stoc allan, gall y llain glustogi ei hun gyfrannu at yr arwynebedd gofynnol. Bydd angen i chi greu pyllau dros dro newydd os nad ydych yn bodloni'r gofyn hwn.

Os nad yw hi'n bosib i chi greu pwll newydd oherwydd cyfyngiadau ffisegol (e.e. pridd tywodlyd ysgafn, mawndir wedi'i newid neu dir serth) bydd angen i chi Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella o faint cyfatebol yn lle hynny.

Bydd angen i chi hefyd gydymffurfio â'r Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd Lled-Naturiol.

**Dylech reoli pyllau sy'n bod eisoes fel a ganlyn;**

**Canlyniadau mesuradwy:**

- Cadw'r dŵr yn y pyllau yn agored trwy gloddio unrhyw silt, llystyfiant, neu brysgwydd sydd wedi cronni ac sy'n sychu'r pwll neu'n rhwystro golau rhag cyrraedd wyneb y dŵr.

**Argymhellion Rheoli:**

- Nid oes angen codi ffens o gwmpas y pyllau a chewch eu defnyddio i ddyfrhau da byw. Mae'n dderbyniol cynnal mannau yfed priodol.

**Cyfyngiadau:**

- Peidiwch â hau yn y lleiniau clustogi di-stoc. Gadewch i lystyfiant eu meddiannu'n naturiol.
- Peidiwch â chaniatáu i dda byw niweidio pyllau a'u glannau trwy eu stablad/sathru yn ormodol.

**Dylid creu pyllau tymhorol fel a ganlyn;**

**Canlyniadau mesuradwy:**

- Nid oes maint gofynnol ar gyfer pwll tymhorol ond ni fydd cyfanswm arwynebedd y pyllau tymhorol gyda'i gilydd mewn cae yn llai na 0.01ha.
- Ni ddylai pwll tymhorol unigol o ddŵr agored fod yn fwy na 1,000m2 (0.1ha) o faint.
- Bydd ganddo siâp afreolaidd er mwyn i'r lan fod mor hir â phosibl ac i gynyddu ei werth esthetig yn y dirwedd.
- Cloddiwch ei waelod fel bod y dŵr hyd at 500mm (50cm) o ddyfnder yn y canol yn y gaeaf, gyda dyfnder cyfartalog o 250mm (25cm).
- Dylid gadael yr arwynebau rydych wedi'u cloddio yng ngwaelod y pwll yn arw gan amrywio o leiaf 100mm (10cm) o'r man uchaf i'r man isaf.
- Dylai'r ymylon oleddfu'n raddol iawn o arwyneb presennol y ddaear tuag at y canol.
- Dylid rhoi'r deunydd cloddio ar dir wedi'i wella.
- Dylech osgoi glannau serth gydag ond ymyl bwydo mwdlyd cul, os oes ymyl o gwbl.

### Argymhellion Rheoli:

- Byddai nifer o byllau tymhorol llai yn well nag un mawr ac yn cynnig mwy o amrywiaeth o gynefinoedd bwydo.
- Yn ddelfrydol, dylid creu pyllau tymhorol ar dir llawr gwlad lle ceir glaswelltir llaith wedi'i led-wella neu glystyrau o frwyn pabwyr a lle mae'r lefel trwythiad wrth neu ar yr wyneb am gyfran helaeth o'r flwyddyn.
- Mae pyllau tymhorol yn debygol o fod ar eu mwyaf buddiol pan fyddant wrth neu ger cynefinoedd â blaenoriaeth fel glaswelltir heb ei wella, coetir neu nodweddion ffin i gryfhau'r cysylltiadau ar draws y dirwedd.
- Defnyddiwch beiriannau (peiriant cloddio â thrac, isel ei effaith ) a deunyddiau addas a chyffredin i wneud unrhyw waith gofynnol. O gofio y bydd y lleoliadau mwyaf addas ar dir isel, dylid defnyddio peiriannau o faint priodol ar gyfer y dasg ac ar adeg briodol rhag tyrchu'r tir.
- Y nod yw cadw rhywfaint o ddŵr yn y pwll tan fis Gorffennaf-Awst.

### Cyfyngiadau:

- Peidiwch â chreu pyllau tymhorol ar dir sy'n gynefin â blaenoriaeth.
- Peidiwch â mynd ag unrhyw bridd a'i ollwng ar orlifdir neu ar fannau gwlyb ar dir isel, gan gynnwys ar safle o ddiddordeb hanesyddol
- Peidiwch â chreu twmpathau neu argloddiau annaturiol newydd.
- Peidiwch â chreu ynysoedd. Dydyn nhw ddim yn addas mewn pyllau tymhorol.
- Peidiwch â gwneud y pwll yn rhy ddwfn. Hynny rhag cynhyrchu gwastraff ychwanegol a'i gwneud hi'n anodd creu glannau sy'n goleddfu'n fwyn.
- Peidiwch â phlannu coed na llwyni na gosod ffensys gan eu bod yn rhwystr i adar tir agored ac yn creu cysgod i ysglyfaethwyr.
- Peidiwch â chaniatáu gormod o rigoli.
- Peidiwch ag ymgorffori neu newid cyrsiau dŵr, nac amharu arnyn nhw, wrth greu pwll tymhorol. Efallai y bydd angen caniatâd corff statudol arnoch i wneud hyn.

## Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Gan ddibynnu ar gyflwr y pyllau parhaol a thymhorol, bydd angen gwaith rheoli parhaus.

Os oes angen creu pwll tymhorol newydd i fodloni'r arwynebedd lleiaf, dylech ei greu pan ddaw'ch cyfle cyntaf ac erbyn diwedd eich blwyddyn gyntaf yn y Cynllun.

# UA11: Rheoli perthi/gwrychoedd

**Datblygu perthi/gwrychoedd i fod yn rhwystr trwchus na all stoc fynd trwyddo sydd hefyd yn darparu cysgod gwerthfawr, ac yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt.**

### Yr uchelgais

Perthi/gwrychoedd yw calon natur cefn gwlad Cymru ac maen nhw'n rhan hanfodol o hanes ein tir. Maen nhw'n cysgodi cnydau rhag y gwynt ac yn lloches i'ch da byw ac yn eu rhwystro rhag crwydro. Maen nhw'n storio carbon ac yn arafu llif dŵr. Maen nhw'n gartref i fywyd gwyllt ac yn cysylltu cynefinoedd gwasgaredig â'i gilydd. Ein bwriad yw annog mwy o wrychoedd sydd mewn cyflwr da a'u cysylltu'n well â chynefinoedd eraill.

Byddwn yn eich cefnogi i reoli eich gwrychoedd yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys bod yn ystyriol wrth eu tocio (e.e. i bwynt ychydig yn uwch ac yn lletach bob tro) mewn ffordd sy'n cadw'r gwrych yn iach ac yn ddefnyddiol ar gyfer y tymor hir. Nod y gofynion rheoli gwrychoedd yw creu gwrych neu berth drwchus, sy'n cynnig y manteision mwyaf i chi ac i natur.

Mae'r camau rheoli canlynol yn datblygu'r arfer da sy'n bod eisoes ac wedi'u haddasu i fod yn hwylusach na'r Cylch Rheoli Perthi gafodd ei gynnig yn wreiddiol.

At ddiben y Cynllun, diffinnir gwrych/perth fel ffin sydd wedi'i gwneud o goed neu lwyni ac sydd dros 20 metr o hyd.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm yn y Cynllun gynnal y weithred hon os oes ynddi wrychoedd sy'n cael eu tocio neu eu torri'n rheolaidd.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob ffin sy'n cael ei thocio'n rheolaidd fodloni'r diffiniad canlynol o berth/gwrych mewn **cyflwr da** erbyn diwedd pumed flwyddyn y Cynllun:

- o leiaf 2m o uchder ac 1.5m o led neu 1.5m o uchder a 2m o led (ac eithrio'r rhannau sydd wedi'u plygu neu eu bondocio neu lle mae bylchau wedi'u cau). Os ydy'r gwrych ar glawdd, mesurwch uchder y gwrych o ben y clawdd.
- bydd y gwrych yn ddi-dor gyda dim mwy na 5% ohono'n fylchau ar ei hyd
- ni fydd stoc yn gallu mynd trwyddo (heb ffens), gyda thyfiant trwchus o lwyni'n datblygu o fôn neu ger bôn y gwrych, i atal da byw rhag mynd trwyddo.
- bydd coed safonol yn tyfu ar hyd y gwrych. Gydag o leiaf 1 goeden bob 50m ar gyfartaledd.
- bydd ymyl mwy nag 1m o led, o'i fesur o fôn y gwrych neu'r clawdd, heb ei wrteithio na'i chwistrellu (er enghraifft â chynnyrch amddiffyn planhigion).

### Tocio a thorri perthi/gwrychoedd

Nid oes gofyn tocio na thorri pob gwrych ar eich fferm, ond pan fyddwch yn torri neu'n tocio gwrych, rhaid gwneud y canlynol:

**Canlyniadau mesuradwy:**

- Defnyddio dulliau adfer traddodiadol trwy gau bylchau, plygu a bondocio tan 31 Mawrth.
- Os nad oes coed safonol mewn gwrych, naill ai plannwch rai neu ddewiswch sbesimenau addas sydd yn y gwrych a'u gadael i dyfu, 1 bob 50m (ar gyfartaledd)
- Pan fydd angen torri canghennau unigol coeden mewn gwrych (e.e. i godi'r canopi), rhaid gwneud hynny â thoriad glân h.y. nid eu rhwygo neu eu darnio gan beiriant trwm.
- Pan fyddwch yn gosod ffensys newydd fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw, rhowch y pyst i sefyll wrth fôn y clawdd (neu ymhellach oddi wrtho) os oes clawdd, rhag difrodi'r clawdd ac yn ddigon pell oddi wrth y gwrych iddo allu tyfu o leiaf 2m o led.

**Cyfyngiadau:**

- Cadwch at y Cod i Bawb ar gyfer Cynefin Lled-Naturiol.
- Tociwch eich perthi/gwrychoedd yn rheolaidd bob yn ail flwyddyn gan ofalu nad oes unrhyw berth yn cael ei thocio ddwy flynedd o'r bron.
- Peidiwch â thorri neu docio perth â pheiriant yn ystod tymor nythu'r adar (1 Mawrth i 31 Awst). Mae eithriadau i hyn a gellir llacio'r rheolau e.e. tocio perthi ac ymylon perthi ger mynedfa fferm a bwlch cae er mwyn gallu gweld yn ddiogel.
- Peidiwch â thrin (e.e. aredig, rotofatio, tyrchu â phigyn neu ddisg na chwistrell â PPPs) unrhyw dir o fewn 1m i ymyl clawdd neu fôn perth.

### Plannu i gau bylchau

Mae'n dderbyniol i hyd at 5% o hyd gwrych fod yn fylchau. Wrth blannu i gau bwlch, gwnewch y canlynol:

**Canlyniadau mesuradwy:**

- Plannwch goed a llwyni brodorol mewn cymysgedd sy'n cynnwys o leiaf dair rhywogaeth gwrych, heb unrhyw un o'r elfennau'n fwy na 75% o'r cyfanswm. Mae llwyni perth/gwrych traddodiadol yn cynnwys celyn, drain gwyn, drain du a chyll. Dewiswch y mathau sy'n cael eu defnyddio'n draddodiadol yn eich ardal.
- Plannwch blanhigion sydd o leiaf 45-60cm o uchder ac sydd ag egin tyfu cryf.
- Wrth blannu perth newydd, plannwch 7 planhigyn bob metr mewn rhes ddwbl bob yn ail, gydag 20cm – 40cm rhwng pob rhes.
- Gofalwch nad yw planhigion eraill a chwyn yn gorgysgodi neu'n tagu'r planhigion newydd ac yn eu lladd.
- Diogelwch y darnau rydych newydd eu plannu neu eu hadfer rhag da byw.
- Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.
- Cymerwch unrhyw ffensys neu wifrau nad oes eu hangen mwyach o'r safle.
- Gofalwch fod o leiaf 1m rhwng y ffens amddiffyn a’r planhigion newydd.
- Pan fyddwch yn gosod ffensys newydd fel rhan o'r gwaith cynnal a chadw, rhowch y pyst i sefyll wrth fôn y clawdd (neu ymhellach oddi wrtho) os oes clawdd, rhag difrodi'r clawdd ac yn ddigon pell oddi wrth y gwrych iddo allu tyfu o leiaf 2m o led.

Gallai gwrych sydd â mwy nag 20m o fylchau ynddo gael ei adfer fel rhan o Weithred Opsiynol.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd angen cadw at y gofynion tocio a thorri ar eich holl wrychoedd bob blwyddyn o'r flwyddyn gyntaf wedi ichi ymuno â'r Cynllun.

Dylai'ch gwrychoedd fodloni'r disgrifiad 'cyflwr da' erbyn diwedd eich pumed flwyddyn.

# UA12: Cynnal a chadw coetir



**Cynnal y coetiroedd sy'n bod i sicrhau'r manteision gorau posibl i dda byw a bywyd gwyllt ac o ran arallgyfeirio'r busnes.**

## Yr uchelgais

Mae coed yn rhan hanfodol o'n tirweddau gwerthfawr. Maen nhw'n bwysig i fywyd gwyllt, i'n hiechyd a'n mwynhad ac yn nodweddion annatod ar dir fferm. Maen nhw'n rhoi cysgod i'ch da byw, yn gallu arafu llif dŵr mewn tywydd gwlyb ac yn tynnu carbon o'r atmosffer.

Nid oedd taliad ar gyfer coed a thir coediog o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol. Rydym yn cynnig eich talu am gynnal tir o dan goed fel rhan o'r Cynllun i gydnabod ei bwysigrwydd a'r manteision niferus y mae coed a choetiroedd yn eu darparu.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid cynnal y Weithred hon ar bob fferm yn y cynllun sydd â choetir.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rheoli'r coed a'r coetiroedd sy'n bod.

Y gwahaniaeth mawr rhwng y Cynllun hwn a chynlluniau blaenorol fel Glastir a Tir Gofal, yw nad ydym yn cynnig gwahardd stoc o bob coetir. Gellir pori coetiroedd yn unol â'r canlyniadau mesuradwy a restrir isod. Os oes cynllun rheoli neu drefniant cyllido mewn grym sy'n gwahardd stoc neu'n gofyn am batrymau pori penodol, rhaid cadw at y gofynion hynny o hyd.

### Canlyniadau mesuradwy:

- Dylid cadw pob coeden mewn coetir oni bai bod angen cael gwared ar goeden am resymau diogelwch neu ei rheoli o dan drwydded cwympo neu gynllun rheoli coetir sy'n cydymffurfio ag UKFS.
- Cadw pren marw, gan gynnwys pren marw sy'n sefyll, oni bai bod angen cael eu gwared am resymau iechyd a diogelwch.
- Mewn coetir sy'n cael ei bori, sicrhewch nad yw'r lefelau pori yn arwain at dynnu rhisgl coed aeddfed, nad yw'r pridd yn cael ei stablad (sathru), bod fflora'r llawr yn cael ei chadw a bod llai na 10% o'r coed â thir moel o amgylch eu bonion.
- Gofalwch nad yw'r coed yn cael eu difrodi yn sgil trin tir, cywasgu, defnyddio peiriannau na defnyddio agrogemegau, gan gynnwys gwrtaith, o dan ganopi'r coed.
- Dylid cadw mannau agored o fewn y coetir.
- Dylid sicrhau bod unrhyw docio neu frigdorri yn cael ei wneud yn briodol a bod pob toriad yn lân.
- Dylech helpu aildyfiant naturiol o goed yn y coetir lle bo hynny'n briodol

**Cyfyngiadau:**

- Cadwch at y Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd Lled-naturiol.
- Peidiwch â rhoi porthiant atodol i dda byw yn y coetir.
- Peidiwch â defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion ac eithrio i reoli rhywogaethau goresgynnol estron neu i reoli plâu a chlefydau coed sydd wedi'u gweld. Gofalwh eich bod wedi cael caniatâd CNC os ydych yn eu defnyddio o fewn neu wrth ymyl cwrs dŵr neu safle gwarchodedig.
- Peidiwch â symud pridd heb ganiatâd yn y coetir.
- Peidiwch â defnyddio'r coetir ar gyfer gweithgareddau â cherbydau oddi ar y ffordd sydd heb eu cymeradwyo.
- Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, mannau llwytho / pentyrru newydd nag unrhyw strwythurau newydd yn y coetir.

# Rheol y cynllun

## O leiaf 10% o dan orchudd o goed, yn goetir neu goed unigol.

**O leiaf 10% o dan orchudd o goed, yn goetir neu goed unigol.**

Rydym yn cynnig, fel un o ofynion y cynllun, bod o leiaf 10% o bob fferm o dan orchudd o goed erbyn 2030. Mae'r Weithred Cynnal a Chadw Coetir (UA12) uchod yn disgrifio sut dylai coetir sydd ar y fferm gael ei reoli.

Wrth benderfynu a oes gennych ddigon o orchudd coed i fodloni'r 10%, byddwn yn cyfrif coetir llydanddail a chonifferaidd, grwpiau gwasgaredig, a choed unigol mewn caeau a pherthi/gwrychoedd (sy’n fwy na 3m, felly nid y gwrych ei hun). Bydd coed a choed perllan o fewn systemau amaeth-goedwigaeth hefyd yn cael eu cynnwys. Byddwn yn eich helpu i fesur faint o dir sydd gennych o dan goed trwy’r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Rydym wedi addasu'r gofyn hwn am 10% o orchudd coed er mwyn tawelu'r pryderon a godwyd gennych am blannu ar dir nad yw'n bosib plannu coed arno. Er enghraifft:

- Efallai na fydd rhai tenantiaid yn cael plannu coed newydd na rheoli'r coetir sydd ganddyn nhw oherwydd y cytundeb tenantiaeth.
- Nid yw'n bosib plannu coed ar nodweddion parhaol fel ffyrdd, iardiau, arwynebau caled, pyllau dŵr.
- Ni fyddai'n briodol plannu coed mewn cynefinoedd â blaenoriaeth neu o ansawdd uchel fel mawnogydd.

Felly, ni fyddwn yn ystyried arwynebedd cyfan y fferm wrth gyfri'r gofyn am 10% o orchudd coed. Byddwn ond yn defnyddio'r arwynebedd sy'n weddill ar ôl tynnu'r darnau na ellir plannu arnynt.

Mae sensitifeddau eraill y bydd angen eu hystyried fesul fferm wrth benderfynu a yw darn o dir yn addas ar gyfer ei blannu. Er enghraifft, mewn rhai lleoedd, bydd angen i chi asesu a fyddai plannu yn niweidio rhywogaethau fel adar pryn sy'n nythu ar y llawr, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu nodweddion archaeolegol. Byddwn yn datblygu proses ar gyfer asesu'r lleoedd hyn, yn seiliedig ar yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Bydd angen i ni hefyd ystyried sut orau i ddelio â safleoedd ar dir uchel neu'r arfordir sy'n agored i'r elfennau. Gellid gwneud hynny drwy ddewis rhywogaethau gwydn neu blannu coed yn rhannau mwy cysgodol y fferm. Fel arall, gallai olygu bod yna ddarnau mawr o dir na fydd modd eu plannu.

Os oes gennych ddigon o gynefinoedd lled-naturiol i gyrraedd y trothwy o 10%, a'ch bod wedi cynnal asesiad i gadarnhau amodau'r cynefin, gellid ystyried plannu coed ar y darnau hynny o dir sydd dros y trothwy ond sydd wedi'u nodi fel cynefinoedd o ansawdd is (e.e. rhedyn trwchus, glaswelltir sych prin ei rywogaethau, glaswelltir brwynog ac eithrio mawnogydd). Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd pellach i chi o ran bodloni'r rheol hon yn y Cynllun.

Gall y darnau tir ar y fferm na ellir eu plannu newid dros amser gan newid yr arwynebedd fydd yn sail i'r 10%. I'r diben hwnnw, rydym yn bwriadu rhoi manylion y gorchudd o goed sydd gennych ar eich fferm, ynghyd â'r arwynebedd lleiaf a mwyaf y bydd angen ichi ei blannu os nad ydych yn bodloni'r gofyn o 10%. Y gobaith yw diweddaru'r wybodaeth bob blwyddyn.

Os bydd angen plannu coed i fodloni'r gofyn o 10%, byddwn yn gweithio gyda chi i gael hyd i fannau addas lle gall y coed fod yn ddefnyddiol i chi a busnes y fferm – gweler y Weithred Creu Coetir newydd ac Amaeth-goedwigaeth (UA13).

# UA13: Creu coetir ac amaeth-goedwigaeth newydd

**Integreiddio coed a choetir ychwanegol i gwrdd â gofynion y cynllun o ran y gorchudd coed gofynnol.**

## Yr uchelgais

Os oes angen plannu coed newydd, mae nifer o opsiynau y gallech eu hystyried, ac mae cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ar gael ar gyfer sawl un ohonyn nhw.

Gall plannu fesul bloc fod yn addas os ydych am fuddsoddi mewn cnwd pren ar gyfer y dyfodol.

Os ydych am estyn hen goetir, efallai y byddai'n briodol ystyried gadael iddo aildyfu'n naturiol o'r stoc goed bresennol. Byddai hynny'n golygu llai o gost a gall fod yn arbennig o ddefnyddiol ar dir anodd neu lle mae'n bwysicach tyfu coed o darddiad lleol. Ond pella’n y byd yw’r coed sy’n bod eisoes, arafa’n y byd y bydd y coed newydd yn cydio a lleiaf llwyddiannus yn y byd y byddan nhw. Bydd ei gyfraniad at y 10% yn fach iawn nes bod y coed yn datblygu.

Fel arall, mae mwy o ffermwyr yn ystyried modelau amaeth-goedwigaeth, lle mae'r coed a blennir yn cael eu defnyddio ledled y fferm i ddarparu cymysgedd o fanteision eraill gan gynnwys cysgod a phorthiant ar gyfer da byw.

Dyma enghreifftiau o'r manteision hyn:

- **Lleiniau a choed cysgodi –** gellir defnyddio lleiniau cysgodi, o'u lleoli'n ofalus, i leihau effaith tywydd y gaeaf a llochesu da byw rhagddo.
- **Coed cysgod –** yn ystod ein hafau cynyddol dwym a sych, gall coed ychwanegol ar dir agored roi cysgod gwerthfawr i leihau'r risg o straen gwres mewn da byw.
- **Rhwystrau i ddal llygredd aer –** gall lleiniau o goed o amgylch siediau anifeiliaid neu storfeydd slyri ddal yr amonia a llygryddion eraill yn yr aer a all fel arall effeithio'n negyddol ar ecosystemau a chyfrannu at salwch anadlu.
- **Rhwystrau bioddiogelwch -** gall lleiniau cysgodi ar ffiniau ffermydd greu rhwystr bioddiogelwch gwerthfawr rhwng eich diadell neu'ch buches chi a rhai'ch cymdogion.
- **Tir Parc –** gall plannu sbesimenau a grwpiau ychwanegu at werth nodweddion hanesyddol pwysig.
- **Perllannau –** gall mathau traddodiadol o goed perllan (ac eithrio cyltifarau modern bach) gynhyrchu cnwd amgen a darparu cynefin pwysig ar gyfer pryfed peillio.

Rydym yn cynnig bod rhannau llai cynhyrchiol eich fferm, fel llethrau a chorneli caeau, yn cael eu defnyddio i blannu coed arnyn nhw os nad yw hynny'n niweidio cynefinoedd o ansawdd uchel neu fawndir.

Byddwn yn eich helpu i blannu mwy o goed drwy roi gwybodaeth a chyngor ichi. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu ble i blannu a pha waith plannu allai fod yn addas i chi.

Ar ôl sefydlu coed newydd, cewch help i reoli'r coed sydd newydd eu sefydlu yn unol â Safon Goedwigaeth y DU (UKFS), lle bo hynny'n briodol. Gall cynllunwyr coetir cofrestredig ddatblygu cynllun UKFS ar eich rhan ar gyfer safleoedd plannu mwy neu ar gyfer plannu ar dir sensitif.

Ar ôl plannu coed, bydd angen i chi ofalu amdanyn nhw fel a ganlyn i roi'r cyfle gorau i'ch coed newydd oroesi.

**Canlyniadau mesuradwy:**

- Rheoli'r llystyfiant wrth fonion coed a llwyni am o leiaf tair blynedd nes bod y coed yn tyfu'n well na'r llystyfiant o'u hamgylch, ac i leihau'r gystadleuaeth am ddŵr a maethynnau.
- Plannu coed a llwyni yn lle'r rhai sy'n marw i sicrhau bod 100% o'r coed yn goroesi lle bo dwysedd plannu penodol wedi'i nodi.
- Cadwch olwg ar lewys a gardiau coed yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn rhwystro cwningod a mamaliaid bach eraill rhag cael at y coesynnau.

Wedi hynny, rheolir y coed yn unol â'r camau rheoli coetir uchod (ar gyfer coetiroedd dros 0.1 hectar).

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd angen cwblhau unrhyw blannu ychwanegol sy'n ofynnol i fodloni rheol 10% y cynllun erbyn 2030. Rydym yn argymell eich bod yn plannu i gyrraedd y targed o 10% bob yn gam yn hytrach na'i adael i'r flwyddyn ddiwethaf.

# UA14: Amgylchedd hanesyddol – cynnal a gwella

**Diogelu nodweddion pwysig ein treftadaeth rhag difrod pellach i warchod ein cymeriad diwylliannol unigryw.**

## Yr uchelgais

Gwlad wledig yw Cymru i raddau helaeth ac mae ganddi batrwm cymhleth o dirweddau naturiol a diwylliannol gafodd eu ffurfio dros filoedd o flynyddoedd o ryngweithio rhwng dyn a'r amgylchedd naturiol. Mae tirwedd Cymru fel y mae heddiw, yn ganlyniad y rhyngweithio hwn a dyma'r hyn sy'n rhoi i Gymru ei chymeriad gweledol a diwylliannol unigryw.

O fewn y Cynllun, rydym yn cynnig canolbwyntio ar ddiogelu a rheoli nodweddion hanesyddol ar dir fferm er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Bydd y Weithredu Gyffredinol hon yn dangos i chi sut orau i ddiogelu'r nodweddion ar eich fferm a thynnu'ch sylw o bosib at nodweddion nad oeddech yn gwybod eu bod yno.

Os oes gennych nodwedd hanesyddol wedi'i nodi ar eich tir, bydd gofyn i chi ddilyn canllawiau cyffredinol ar gyfer gofalu amdano. Bydd hynny'n cynnwys gwneud gwaith rheoli rheolaidd, gwaith cadwraeth syml a dilyn yr egwyddor 'peidio â gwneud difrod'.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid cynnal y Weithred hon ar bob fferm yn y Cynllun sydd ag o leiaf un o'r nodweddion a restrir isod:

- Henebion Cofrestredig
- Nodweddion Amgylcheddol Hanesyddol
- Adeiladau rhestredig
- Adeiladau Fferm Traddodiadol
- Parciau a Gerddi: Wedi'u cofrestru a heb eu cofrestru
- Nodweddion Tirwedd – megis ffiniau hanesyddol
- Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig ac Ardaloedd â Chymeriad Tirwedd Hanesyddol

Byddwn yn rhoi map i chi o'r nodweddion hanesyddol sy'n hysbys ar eich tir.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Ar gyfer yr holl nodweddion hanesyddol ar eich fferm, bydd angen i chi:

- Archwili'r nodweddion yn rheolaidd a chofnodi / adrodd unrhyw ddirywiad
- Gwneud gwaith rheoli penodol, fydd yn dibynnu ar natur y nodweddion ar eich fferm, a allai gynnwys;
    - Clirio prysgwydd a llystyfiant goresgynnol oddi ar nodweddion gwrthgloddiau.
    - Cadw adeiladau fferm traddodiadol mewn cyflwr sefydlog i'w rhwystro rhag dirywio a chynnal gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sylfaenol, yn ôl yr angen.
    - Gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar adeiladau a strwythurau parciau a gerddi hanesyddol, e.e. clirio dail a malurion o gafnau dŵr glaw ac ati a nodweddion dŵr.

Cydymffurfio â'r egwyddor 'peidio â gwneud difrod' a fydd yn cael ei ddisgrifio mewn canllawiau technegol.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth a chanllawiau technegol ar yr hyn sy'n briodol wrth gynnal y Weithred hon. Rydym wedi darparu isod nodyn technegol ar gyfer trwsio a llenwi olion erydu mân ar nodweddion hanesyddol fel enghraifft.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth (fel ffotograffau wedi'u geodagio) ar adegau penodol neu pan welir newid amlwg yn eu cyflwr.

Efallai y bydd Cadw, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru neu sefydliadau amgylchedd hanesyddol eraill yn gofyn am ragor o wybodaeth.

### Trwsio a llenwi olion erydu mân ar nodweddion hanesyddol

Bydd angen gwneud gwaith trwsio mân pan fydd gwrthgloddiau hanesyddol wedi erydu neu dreulio am fod da byw wedi rhwbio a sathru arnyn nhw ac ati. Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio safon ofynnol y gwaith sydd ei angen.

#### Creithiau Erydu Mân

#### Canlyniadau mesuradwy:

- Mae dau opsiwn trwsio ar gael:
    1. Mewnlenwi'r darn sydd wedi'i erydu ag uwchbridd o'r tu allan i'r ardal gofrestredig ac ail-hau'r darn sydd wedi'i fewnlenwi â chymysgedd o hadau lleol/brodorol
    2. Mewnlenwi'r darn sydd wedi'i erydu gan ddefnyddio tyweirch cyfan o'r tu allan i'r ardal gofrestredig gan osgoi'r angen i ailhau.
- Os oes defaid yn pori'r tir, efallai y bydd angen gorchuddio'r darn sydd wedi'i fewnlenwi am gyfnod â weiar netin (wedi'i begio i'w le). Gallwch ei symud pan fydd y gwaith llenwi wedi sefydlogi a'r tyfiant wedi ailgydio.
- Pan fydd gwartheg yn ei bori, bydd angen eu cadw o'r darn tir gafodd ei drin am o leiaf blwyddyn.
- Os yw'r erydu'n digwydd o gwmpas 'ffocws', weithiau bydd angen dileu'r 'achos' hefyd. Er enghraifft, mae coed unigol neu gellïoedd bach o goed/llwyni yn aml yn denu da byw sy'n eu defnyddio fel man cysgodi. Trwy gael gwared ar y goeden/llwyni a thrwsio olion yr erydu, ni ddylai'r broblem ddigwydd eto.
- Lle ceir mannau o dan bwysau mwy, er enghraifft ar hyd llwybrau, bydd angen trwsio'r darn sydd wedi'i ddifrodi ac yna agor y llwybr i fyny drwy glirio peth o'r llystyfiant o amgylch (prysgwydd, mieri, chwyn ac ati).

**Cyfyngiadau:**

- Peidiwch â chodi boncyffion coed rhag niweidio'r archaeoleg sydd oddi tanynt. Dylid gadael y boncyff yn y fan a'r lle er y caniateir ichi ei drin â chemegau.
- Peidiwch â gosod cafnau bwydo ar nodweddion hanesyddol gan y gallai hynny arwain at dreulio a stablad (sathru) tir.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd pa mor aml y bydd angen i chi wneud tasgau cynnal a chadw yn dibynnu'n llwyr ar y math o nodweddion sydd gennych ar eich fferm, a'u cyflwr.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth (fel ffotograffau wedi'u geodagio) ar adegau penodol neu pan welir newid amlwg yn eu cyflwr.

# Cod i Bawb ar gyfer cynefinoedd

**Mae'r rhestr ganlynol yn adeiladu ar 'God y Fferm Gyfan' a ddefnyddiwyd mewn cynlluniau blaenorol.**

Ystyr cynefin yw:

**Unrhyw lystyfiant â llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, yn unol â Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017.**

Peidiwch â difrodi tir cynefin - mae difrod yn golygu peri colli'r math o lystyfiant sy'n nodweddiadol o'r cynefin hwnnw, megis trwy ei orbori neu ei danbori, ei stablad (sathru) gan dda byw neu ei rigoli gan beiriannau neu gerbydau.

Peidiwch â gwella tir cynefin at ddiben amaethyddol - mae gwella amaethyddol yn golygu rheolaeth sy'n arwain at gynnydd mewn rhywogaethau amaethyddol fel rhygwellt a meillion gwyn.

Peidiwch ag aredig, trin nac ail–hau'r tir.

Peidiwch â rowlio tir cynefin na'i lyfnu rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf.

Peidiwch â gosod draeniau newydd ar dir cynefin na newid y draeniau sydd yno'n barod nac o fewn 100m o wlyptir lle byddai'r ffos neu'r draen yn atal dŵr rhag llifo i'r gwlyptir.

Peidiwch â charthu ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst ar dir cynefin. Gellir gwneud gwaith cynnal a chadw arferol ar ddraeniau sy'n bodoli eisoes fel a ganlyn:

- Cewch glirio llystyfiant a gwaddodion, gan adael llystyfiant ar hyd un ochr y ffos.
- Peidiwch â dyfnhau, llenwi na lledu ffosydd na gosod pibellau newydd.
- Cewch gynnal draeniau caeau at y safon wreiddiol cyn belled na fydd hyn yn amharu ar y cynefin.
- Rhaid cofnodi manylion unrhyw waith clirio ffosydd ar dir cynefin.

Peidiwch â gwneud gwaith sy'n golygu symud pridd tir cynefin, gan gynnwys torri mawn a llenwi pantiau naturiol.

Peidiwch â chodi craig, sgri, tywod, graean, clai na mawn oddi ar dir cynefin neu afon.

Peidiwch â gwasgaru slyri, gwrtaith anorganig, gwrtaith organig, tail buarth, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall o'r fferm nac o le arall (gan gynnwys dip defaid) ar dir cynefin. Cewch wasgaru tail buarth dim ond lle bydd un o Weithredoedd cynefin penodol SFS yn gadael ichi wneud hynny.

Peidiwch â rhoi calch ar dir cynefin, ac eithrio pan fydd un o Weithredoedd Cynefin SFS yn gadael ichi wneud hynny.

Peidiwch â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm ar dir cynefin nac ar nodweddion archeolegol neu'r dirwedd nac o fewn 10 metr i gwrs dŵr gan gynnwys draeniau mewn cae.

Peidiwch â defnyddio cynhyrchion amddiffyn planhigion ac eithrio fel rhan o gynllun rheoli plâu integredig i:

**i.** sbot drin a rheoli chwyn niweidiol i'r graddau lleiaf sy'n angenrheidiol, gan gynnwys marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, tafol llydanddail a llysiau'r gingroen; ac i reoli rhywogaethau estron goresgynnol, fel rhododendron, Jac y Neidiwr, yr efwr enfawr: neu i

**ii.** reoli llystyfiant goresgynnol ar nodweddion hanesyddol, adeiladau traddodiadol ac adeiladau fferm.

Peidiwch ag adeiladu traciau, ffyrdd, iardiau, arwynebau caled nac unrhyw strwythurau newydd ar dir cynefin, ac eithrio lle bydd un o Weithredoedd cynefin SFS yn gadael ichi wneud hynny.

Cadwch yr holl goed ffrwythau sydd yno eisoes.

Peidiwch â llosgi llystyfiant, glaswelltir nac unrhyw ddeunydd wedi'i dorri ar dir cynefin, ac eithrio fel rhan o gynllun llosgi grug y cytunwyd arno.

Peidiwch â rhoi bwyd atodol i anifeiliaid ar dir cynefin, ac eithrio torthau mwynau neu halen fyddai'n eu galluogi i ddefnyddio'r borfa gras, neu lle bo angen hynny'n benodol er lles y da byw.

Peidiwch â storio deunyddiau, cerbydau, trelars na pheiriannau ar dir cynefin.

Efallai y bydd eithriadau i’r amodau uchod os oes eu hangen i sicrhau'r manteision amgylcheddol penodol sydd eu hangen fel rhan o’r cynllun.

# UA15: Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

**Gweithio gyda'ch milfeddyg i sefydlu dull rhagweithiol parhaus ar gyfer ymdrin ag iechyd anifeiliaid.**

## Yr uchelgais

Trwy ganolbwyntio ar les anifeiliaid yn ogystal ag ar eu hiechyd a'u cynhyrchiant, a thrwy ddeall bod 'atal yn well na gwella', gallwn wella iechyd anifeiliaid fesul cam, hynny er lles eich fferm, y sector ehangach a'r diwydiant ar raddfa genedlaethol.

Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC) yn cyfrannu at wneud y fferm yn fwy cydnerth drwy ddarparu fframwaith a chymorth i chi weithio gyda'ch milfeddyg i ysgogi gwelliannau yn iechyd, lles a chynhyrchiant eich da byw. Mae'r ymagwedd hon yn ymgorffori egwyddorion cynhyrchu da byw cynaliadwy trwy arfer meddygaeth ataliol. Mae ei hamcanion yn cynnwys:

- Gwelliant cymalog ac aildroddus yn iechyd a chynhyrchiant da byw dros amser.
- Cyfrannu at gynaliadwyedd busnesau fferm da byw.
- Lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys yr ôl troed carbon.
- Gwella lles anifeiliaid.
- Lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd drwy ddefnyddio meddyginiaethau yn gyfrifol a chynhyrchu bwyd diogel.
- Gwella llesiant ceidwaid da byw.

Dylech gynnal yr AHIC drwy weithio gyda'r brif filfeddygfa sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau clinigol pob dydd i chi, sy'n gwybod hanes iechyd da byw eich fferm ac yn gwybod pa feddyginiaethau milfeddygol rydych yn eu defnyddio, gan gynnwys data am eich defnydd o wrthfiotigau.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob ceidwad da byw cofrestredig yn y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Byddwch yn gweithio gyda'ch milfeddyg i ddilyn pedwar cam yr AHIC:

- **Mesur –** Gyda'ch milfeddyg, penderfynu pa ddata sydd ar gael am iechyd a chynhyrchiant eich fferm, dadansoddi perfformiad y fenter da byw a'i meincnodi ar sail eich nodau.
- **Cynllun –** Blaenoriaethu maes iechyd/cynhyrchu ar gyfer ei wella a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar iechyd, lles a chynhyrchiant a chyda'ch milfeddyg, cytunwch ar flaenoriaethau ar gyfer cynllun gweithredu realistig sy'n benodol i'ch fferm.
- **Gweithredu –** Cynnal nifer hylaw (dau i bump fel arfer) o weithredoedd mesuradwy dros gyfnod penodedig o amser a chadw cofnod/tystiolaeth bod y camau hyn wedi'u cymryd. Efallai y bydd cyngor a chefnogaeth ar gael i hwyluso camau AHIC.
- **Adolygu –** Adolygu cynnydd ac effaith gyda'ch milfeddyg

Byddwch yn cadw cofnod bod pob un o bedwar cam yr AHIC wedi'u cwblhau, gan gynnwys ardystiad gan eich milfeddyg. Bydd templed yn cael ei ddarparu ar gyfer y broses.

Ni fydd angen i chi gyflwyno'r templed AHIC gorffenedig bob tro gan y gallwch gadarnhau'ch bod wedi cwblhau pedwar cam yr AHIC drwy hunan-ddatganiad.

Rhaid i chi gyfrifo faint o wrthfiotigau y mae pob rhywogaeth yn ei ddefnyddio bob blwyddyn a chyflwyno'r wybodaeth fel rhan o'r broses KPI.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylech ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf a'i hailadrodd bob blwyddyn wedi hynny.

# UA16: Lles eich anifeiliaid

**Cwblhau hyfforddiant i fagu cymhwysedd i allu cynnal prawf sgorio cloffni a chyflwr corff i wella safonau lles da byw.**

## Yr uchelgais

Rydym wedi ymrwymo bod anifeiliaid yng Nghymru yn byw bywyd o ansawdd da. Yn y gorffennol, mae dulliau asesu lles wedi canolbwyntio ar 'weithredu biolegol'. Os oedd anifeiliaid yn cynhyrchu'n dda ac yn tyfu'n unol â'r targed, yna tybiwyd bod eu lles yn dda. Fodd bynnag, fel cymdeithas rydym yn newid ac yn ystyried ansawdd bywyd anifail ar wahân i'w allu i gynhyrchu bwyd.

Rydym am i'r Weithred hon ganolbwyntio ar gloffni a chyflwr corff er mwyn mynd i'r afael â dwy o'r problemau lles mwyaf arwyddocaol ar ffermydd yng Nghymru, sydd hefyd yn effeithio'n sylweddol ar lefelau cynhyrchiant.

Mae'r Weithred hon yn eich helpu i gynnal asesiad o'ch stoc fel y cam cyntaf tuag at adnabod problemau lles posibl, er mwyn cymryd camau i reoli problemau ac atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol.

## Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob ceidwad da byw cofrestredig yn y cynllun gynnal y Weithred Gyffredinol hon.

## Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Cwblhau hyfforddiant ar-lein ar sgorio cyflwr corff a sgorio symudedd y rhywogaethau perthnasol rydych chi'n eu cadw (tua dwy awr o hyd) fel rhan o’r Weithred DPP (UA2).

Gall unrhyw un sy'n ddigon cyfarwydd â'ch da byw wneud yr hyfforddiant h.y. bugail neu fucheswr. Nid oes angen i'r hyfforddiant gael ei wneud gan bartner cofrestredig yn y busnes.

Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys templedi a chanllawiau i'ch helpu i sgorio symudedd a chyflwr corff y mathau stoc perthnasol ar eich fferm. Ni fydd angen i chi wneud hyn ar gyfer pob anifail. Bydd angen dewis nifer gynrychioliadol o anifeiliaid, fel y dywed yr hyfforddiant ar-lein wrthych, a sgorio grwpiau rheoli perthnasol ar y fferm, ar adegau priodol yn y cylch cynhyrchu (e.e. mamogiaid wrth fynd at hwrdd a threisiedi/heffrod sy'n bwrw eu llo cyntaf).

Hefyd, mae'n rhaid cofnodi nifer yr anifeiliaid cloff yn y fuches neu'r ddiadell bob blwyddyn fel rhan o'r Weithred Dangosydd Allweddol (UA1).

Byddwch yn cadarnhau eich bod wedi sgorio cyflwr a symudedd drwy hunanddatganiad ac yn cadw cofnodion priodol o weithgarwch sgorio a lefelau cloffni.

Dylid trafod canlyniadau'r sgorio a'r lefel cloffni gyda'ch milfeddyg fel rhan o'r gofal arferol.

## Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Dylech gwblhau'r hyfforddiant yn y flwyddyn gyntaf, a'i ailadrodd bob pum mlynedd wedi hynny, oni bai bod yr unigolyn gafodd ei hyfforddi yn gadael y busnes, ac os felly bydd angen ei ailadrodd o'r dechrau. Felly, rydym yn eich annog i hyfforddi pobl eraill yn y busnes ond nid yw hyn yn orfodol.

Mae angen sgorio cyflwr corff a symudedd a chofnodi achosion o gloffni bob blwyddyn cyn diwedd y flwyddyn.

# UA17: Bioddiogelwch da ar y fferm

**Sefydlu protocolau bioddiogelwch i leihau'r risg o adael clefyd i mewn i'r fferm neu i fynd o'r fferm.**

## Yr uchelgais

Mae bioddiogelwch yn golygu set o fesurau ymarferol i reoli'r risg o gyflwyno clefydau. Gall bioddiogelwch gwael a chaniatáu clefydau gael effeithiau difrifol a hirdymor ar eich fferm, y sector ehangach ac yn genedlaethol. Dyma risgiau bioddiogelwch gwael:

- Llai o elw i'r fferm oherwydd cynhyrchiant is a chost triniaethau.
- Llai o fasnachu'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Clefydau milheintiol sy'n bygwth iechyd y cyhoedd.
- Bygythiadau i'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â chynhyrchu da byw yn aneffeithlon (cynyddu'r ôl troed carbon).
- Mwy o ddefnydd o wrthfiotigau all arwain at fagu ymwrthedd i wrthfiotigau.
- Mwy o risg o glefydau hysbysadwy, fel TB gwartheg, Clefyd y Traed a'r Genau a Ffliw'r Adar ac o'u lledaenu yng Nghymru.

Byddwn yn helpu ffermwyr i atal a rheoli clefydau gan ddefnyddio'r egwyddor "gwell atal na gwella clwy". Bydd hyn yn arwain at fanteision i chi yn ogystal â chael yr effaith o wella statws iechyd a lles da byw Cymru.

Y mesurau bioddiogelwch gofynnol sydd eu hangen fel rhan o'r weithred hon yw:

- Sicrhau bod mannau golchi a diheintio ar gael wrth fynd i mewn ac allan o'r fferm.
- Cynnal ffiniau diogel ar y fferm na all da byw fynd drwyddyn nhw.
- Asesu bioddiogelwch anifeiliaid sy'n dod i'r fferm.
- Cofnodi'r camau bioddiogelwch rydych wedi'u cymryd.

### Oes rhaid i mi gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Rhaid i bob fferm yn y Cynllun ddarparu mannau golchi.

Rhaid i bob ceidwad da byw yn y Cynllun gynnal ffiniau diogel ac asesu risg yr anifeiliaid sy'n dod i'r fferm.

### Beth bydd angen i mi ei wneud i gynnal y Weithred Gyffredinol hon?

Bydd angen i chi gadw at yr holl fesurau bioddiogelwch angenrheidiol. Sef:

- Sicrhau bod mannau golchi a diheintio ar gael i bobl sy'n dod i'r fferm neu'n ei gadael i lanhau eu dillad, offer a cherbydau: bod gennych brotocol; a bod gennych ar gael bob amser y cyfarpar angenrheidiol, sy'n cael ei gynnal mewn cyflwr da, i allu glanhau esgidiau, dillad gwrth-ddŵr ac olwynion cerbydau yn effeithiol wrth fynedfa ac allanfa ffermydd lle cedwir stoc, gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir gan DEFRA.

- Gofalu bod eich holl ffiniau yn cadw'ch stoc rhag crwydro.
- Gyda'ch milfeddyg, cynhaliwch asesiad bioddiogelwch o'r risg y gall anifail ddod â chlefyd i'r fferm a sut i'w rheoli. Yna bydd angen i chi gasglu a chofnodi tystiolaeth o'r canlynol ar gyfer pob symudiad i'r fferm:
  - tarddiad yr anifail sy'n dod i'r fferm
  - statws clefyd yr anifeiliaid sy'n dod i'r fferm
  - ac ar gyfer pob symudiad i'r fferm, cofnodi tystiolaeth eich bod wedi cymryd y camau a argymhellir gan eich milfeddyg megis profi, cwarantin a brechu anifeiliaid sy'n dod i'r fferm.

Ni fydd angen cyflwyno cofnodion sy'n gysylltiedig â'r Weithred yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru ond dylid eu cadw a'u darparu pan ofynnir amdanynt. Byddwch yn cadarnhau'ch bod wedi cynnal y Weithred Gyffredinol bioddiogelwch trwy hunan-ddatgan.

### Pryd bydd rhaid i mi gwblhau'r Weithred hon?

Bydd gennych fannau golchi a ffiniau diogel erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf a byddwch yn eu cynnal yn barhaus wedi hynny.

Bydd angen eich bod yn asesu bioddiogelwch anifeiliaid sy'n dod i'r fferm erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf a'i ailadrodd bob blwyddyn, ac yn cofnodi'r camau rydych yn eu cymryd i ddelio â phob symudiad i'r fferm bob tro.

# Ystyriaethau penodol

### Ffermwyr tenant

Mae ffermwyr tenant a thir â thenant yn rhan arwyddocaol o'n diwydiant amaeth yng Nghymru. Rydym felly wedi dweud o'r dechrau, os nad yw'r Cynllun yn gweithio i ffermwyr tenant, nid yw'n gweithio o gwbl.

Rydym wedi dadansoddi'r cynigion yn fanwl, gyda chymorth arbenigwyr, i weld sut gallwn ni leihau'r problemau penodol i ffermwyr tenant. Bydd y ddau newid pwysig i'r cynllun a gynigir isod yn hwb i'r hyblygrwydd sydd eisoes yn y Cynllun ar gyfer tenantiaid a thir rhent.

Hyd y contract – rydym yn cynnig cytundebau blynyddol sy'n golygu bod tenantiaid yn cael ymuno â'r Cynllun a bod modd ychwanegu tir. Rydym yn disgwyl cyflwyno rheol i'r cynllun sy'n golygu, os yw tenant yn colli rheolaeth yn annisgwyl ar ddarn o dir, caiff dynnu'r tir o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn dan sylw gyda gostyngiad cymesur yn ei daliad ond heb gosb ariannol, cyn belled â'i fod yn cydymffurfio â phob agwedd arall.

Y gorchudd coed gofynnol - rydym yn cynnig y dylai 10% o bob fferm fod o dan orchudd coed fel un o reolau'r cynllun. Ni fydd modd i ffermwyr tenant wneud hyn os bydd perchennog y tir yn cadw meddiant ar y coed sy'n bod a/neu nad yw'r cytundeb tenantiaeth yn caniatáu plannu rhagor o goed. Felly, pan fydd ffermwr tenant yn datgan (gellid gofyn iddo brofi hynny) bod cyfyngiadau o'r fath ar y tir y mae'n ei rentu neu ar ran ohono, ni fydd gofyn cynnal y Rheol hon ar y tir hwnnw. Bydd angen gorchudd o 10% o goed ar y tir sy'n weddill. Bydd yn rhaid cydymffurfio â holl ofynion eraill ar y tir sy'n cael ei rentu.

### Busnesau fferm bob ochr i'r ffin

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisi amaethyddiaeth a rheoli tir yng Nghymru. Dim ond gweithgarwch ar dir Cymru rydym yn cael ei ariannu. At ddiben y Cynllun hwn, rhaid i'r busnes a chyfran y tir sydd yng Nghymru fodloni'r amodau er mwyn cael bod yn rhan o'r Cynllun.

Byddwn yn parhau i ystyried pob cyfle i sicrhau bod gofynion y cynllun yn briodol ar gyfer y grŵp hwn o ffermwyr ac i annog cydweithio trawsffiniol. Byddwn yn profi'r Gweithredoedd yn yr ymgynghoriad hwn â ffermwyr trawsffiniol ac yn addasu gofynion y cynllun os gwelwn fod angen. Er enghraifft, peidio â gofyn am IPM ar gyfer y tir yng Nghymru os oes gennych un ar gyfer y fferm gyfan.

### Ffermydd Organig Ardystiedig

Gall effeithiau cronnol ffermio organig wneud cyfraniad sylweddol at gynaliadwyedd y diwydiant er enghraifft mae peidio â defnyddio gwrtaith a defnyddio mwy o godlysiau yn debygol o hyrwyddo ffawna a fflora rhinweddol yn y pridd, sy'n sylfaen ar gyfer adeiladu ecosystem fwy amrywiol. Bydd ffermwyr â thystysgrif organig mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer ymuno'n rhwydd â'r Cynllun gan y bydd llawer o Weithredoedd y Cynllun eisoes yn rhan o fodel eich busnes.

Rydym wedi cynnig cyflwyno nifer o Weithredoedd Opsiynol yn ystod y Cyfnod Pontio a bydd llawer ohonynt yn cyd-fynd ag arferion organig. Byddwn yn edrych gyda rhanddeiliaid arbenigol, ar sut i gysoni'r Gweithredoedd Opsiynol sy'n cael eu cynnig â gofynion y dystysgrif organig ac i weld a oes bylchau yn y cymorth y gallwn eu llenwi. Byddwn yn ystyried rhoi blaenoriaeth i gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol hyn.

Os caiff cynllun i gefnogi'r Sector Organig ei gyflwyno yn 2024, ac rydym wrthi'n ystyried hyn, yna rydym yn cynnig cyflwyno elfen arall o gymorth ariannol yn ystod y Cyfnod Pontio drwy'r Taliad Sefydlogrwydd. Gweler Pennod 4 am fwy o wybodaeth.

## Ffermwyr Newydd

Mae unigolion o gefndir ffermio sy'n ceisio cael lle iddyn nhw eu hunain yn annibynnol yn y diwydiant, a newydd-ddyfodiaid o'r tu allan i'r diwydiant, i gyd yn bwysig o ran dod â thalent, syniadau ac egni entrepreneuraidd newydd i ffermio yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â'r cymorth sy'n cael ei gynnig ac a allai cael ei gyflwyno fel rhan o'r Cynllun.

Mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu'n fwriadol i chwalu rhai o'r rhwystrau sy'n ei gwneud yn anodd i ffermwyr newydd gael cymorth; ni fydd y Cynllun yn gofyn am hawliau na chwotâu.

Gall diffyg cyfle i ddysgu sgiliau fod yn rhwystr rhag ymuno â'r diwydiant a mynd yn eich blaen ynddo. Byddwn yn parhau i gynnig mentora a help i ddysgu sgiliau (gan gynnwys sgiliau busnes) i'r rheini sydd am ymuno â'r cynllun am y tro cyntaf a'r rhai sy'n newydd i ffermio.

Rydym hefyd yn cynnig helpu partneriaethau busnes newydd rhwng unigolion sydd eisoes yn ffermio a newydd-ddyfodiaid a fyddai'n elwa o'r cyfle i ymuno â busnes ffermio. Rydym yn ystyried gofyn cwestiynau ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF) yn y dyfodol i weld sut gallwn gefnogi'r partneriaethau busnes newydd hyn. Bydd angen i ni ystyried a oes angen newid y gofynion o ran pwy sy'n cael ymuno â'r cynllun er mwyn gallu cynnwys partneriaethau busnes o'r fath

## Tir comin

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn bennaf â thir ffermio wedi'i amgáu, ond mae angen i ni ystyried sut orau y gallwn gefnogi'r eangderau o dir comin sydd yng Nghymru. Mae tir comin yn darparu tir pori pwysig ar gyfer da byw, yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig fel storio carbon a rheoli dŵr, ac mae'n adnodd cymdeithasol a diwylliannol pwysig.

Nid oes un senario ar gyfer disgrifio cyflwr tir comin. Mae trefniadau pori rhai tiroedd comin wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd wrth i ffermwyr roi'r gorau i bori'r comin. O ganlyniad, mae rhai tiroedd comin yn cael eu tanbori gan ddirywio cyflwr y cynefin, cynyddu'r perygl o dân a cholli'r da byw sy'n gyfarwydd â'u 'cynefin'.

Ar y llaw arall, mae rhai tiroedd comin yn cael eu gorbori a gall hynny arwain at erydu a llystyfiant na fydd yn gallu cynnal yr ystod lawn o fywyd gwyllt, hidlo dŵr na dal carbon..

Rydym yn deall bod tir comin drwy'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at incwm rhai ffermwyr. Rydym am eich helpu trwy'r cyfnod pontio i'r cynllun. Rydym wrthi'n ystyried sut orau i ymgorffori tir comin, ond mae natur tir comin yn creu amrywiaeth o heriau.

Oherwydd y cymhlethdodau ynghylch pwy sy'n berchen ar dir comin a sut mae hawliau'n cael eu rhannu, ni fydd modd talu unigolion am lawer o'r Gweithredoedd Cyffredinol oni bai bod ganddyn nhw gyfrifoldeb rheoli llwyr am y tir comin, fel a eglurir isod.

Er enghraifft, ni all ffermwr â hawliau pori ysgwyddo'r cyfrifoldeb ar ei ben ei hun am reoli nac am gyflwr rhan benodol o'r comin. Yn yr un modd, fel arfer ni fydd gan ffermwr sydd â hawliau pori yr hawl i drin y tir na gwasgaru mewnbynnau arno sy'n gylygu na fydd yn bosibl iddo Reoli Plâu yn Integredig.

Efallai y bydd modd addasu rhai Gweithredoedd Cyffredinol nad ydynt yn seiliedig ar y tir fel Meincnodi a Datblygiad Personol Parhaus i ddefnyddiwr tir comin allu eu cynnal.

Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor i'n tiroedd comin, credwn ei bod yn bwysig ein bod yn cynnig help i gynllunio a chynnal gweithredoedd cadarnhaol ar dir comin.

Rydym yn cynnig, er mwyn i ffermwyr sydd â hawliau pori tir comin allu manteisio ar yr holl gymorth sy'n seiliedig ar dir, bod tir comin yn dod o dan gytundeb ar wahân. Rydym yn cynnig, ar gyfer pob comin (neu grŵp o diroedd comin cyffiniol) y dylai Cynllun Rheoli Tir Comin gael ei ddatblygu ar y cyd â deiliaid hawliau a pherchenogion tir, gyda chymorth sefydliadau cymorth o bosibl.

Gallai'r cynllun nodi cyflwr presennol y dirwedd, y cynefinoedd a'r nodweddion sy'n unigryw i'r comin hwnnw a nodi'r cyfleoedd a'r mathau o weithredoedd sydd eu hangen i reoli neu wella'r nodweddion hynny. Byddai'n defnyddio gwybodaeth a phrofiad ffermwyr ynghyd ag arbenigeddau a threfniadau technegol awdurdodau perthnasol.

Rydym yn disgwyl y bydd gan y cynllun strategaeth bori i o leiaf cadw'r cynefinoedd mewn cyflwr ffafriol, neu i wella ansawdd cynefin lle gellir. Gallai, er enghraifft, ganolbwyntio ar lefel ac amseriad y pori a chefnogi cadw neu ailgyflwyno gwartheg i bori ar y comin. Disgwylir i'r cynllun a'r camau dilynol esblygu dros amser.

Wrth ddatblygu'r cynllun tir comin, byddwn yn penderfynu sut y dylai'r arian gael ei ddyrannu i borwyr a sut i rannu taliadau yn ôl cyfraniad a/neu lefelau cyfrifoldeb unigolion am gymryd camau.

Mae Cymdeithasau Tir Comin sy'n cydweithio â pherchenogion tir mewn sefyllfa dda i allu rheoli ein tiroedd comin yn gynaliadwy, i fynd i'r afael ag anghenion y ffermwyr sydd â hawliau ac i roi'r help a'r trefniadau sydd eu hangen er mwyn rheoli ar raddfa tirwedd. Rydym wrthi'n ystyried a ddylem roi rhagor o help ar gyfer hyn, i hwyluso creu cymdeithasau newydd neu i ddatblygu cymdeithasau sy'n bod eisoes.

Rydym yn cynnig elfen ychwanegol o gymorth ariannol ar gyfer porwyr unigol drwy'r Taliad Sefydlogrwydd, tan y caiff yr elfen Gydweithredol ei chyflwyno (Pennod 4).

Os oes tir yn cael ei bori ar y cyd, nad yw wedi'i gofrestru'n dir comin, rydyn ni'n cynnig yr un cynigion ag yn yr adran uchod.

Os yw'r tir comin yn cael ei reoli gan berchennog y tir sy’n gymwys i’r Cynllun, ac nad oes hawliau eraill yn gysylltiedig â'r tir comin hwnnw (p'un a ydynt yn cael eu defnyddio neu beidio), efallai y bydd yn bosibl datgan y tir comin fel estyniad o'r fferm a'i gyfrif ar gyfer y Taliad Sylfaenol Cyffredinol. Caiff pob cais ei asesu yn ôl ei rinweddau.

**Cwestiynau Pennod 2**

**C1.** Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?

**C2.** Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm er lles bioamrywiaeth.

**a)** Beth yw eich barn am y gofynion hyn?

**b)** Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal?

**C3.** Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a cynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:

**a)** O fantais i fusnes eich fferm?

**b)** Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw?

**C4.** Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?

**C5.** Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?



PENNOD 3

# Proses y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Uchelgais y rhaglen yw creu cynllun integredig hirdymor fydd yn gwneud ein diwydiant amaeth yn un cydnerth, trwy gyfuniad o ddatganiadau blynyddol a chytundebau tymor hwy. Mae'r bennod hon yn disgrifio'r hyn y bydd angen i chi ei wneud bob blwyddyn i ymuno â'r Cynllun a bod yn rhan ohono.**

## Pwy sy'n gymwys

Rydym yn cynnig bod ymgeiswyr yn gorfod bodloni'r meini prawf canlynol i fod yn gymwys i Haenau Cyffredinol ac Opsiynol y Cynllun:

- Rhaid i chi (y ffermwr) ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau cysylltiedig ar dir amaethyddol.
- Rhaid bod gennych o leiaf dri hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru neu ddangos i chi wneud mwy na 550 awr o lafur safonol,

**a**

- Rhaid mai chi yw unig feddiannydd y tir a bod gennych reolaeth lwyr arno am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn galendr.

Rydym wedi diffinio 'ffermwr' fel person naturiol neu gyfreithiol neu grˆwp o bersonau naturiol neu gyfreithiol, waeth pa statws cyfreithiol sydd wedi'i roi i'r cyfryw bersonau neu grwpiau dan gyfraith genedlaethol, y mae eu daliad wedi'i leoli yng Nghymru ac sy'n cynnal gweithgarwch amaethyddol neu weithgarwch cysylltiedig ar dir amaethyddol. Ac ystyr 'daliad' yw'r holl unedau tir a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau amaethyddol, sy'n cael eu rheoli a'u lleoli yng Nghymru.

Diffinnir amaethyddiaeth a gweithgareddau cysylltiedig yn y Ddeddf Amaethyddiaeth. Gellir crynhoi hyn fel cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys cynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio a gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd, cadw natur, lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau.

Rydym yn cynnig, er mwyn bod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun, y dylid cynnal o leiaf dri hectar o dir amaeth mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer cynnal gweithgarwch amaethyddol neu gysylltiedig arno.

Rydym yn cynnig hefyd derbyn ffermwyr sydd â llai na thri hectar o dir cymwys, os ydych chi'n gallu dangos eich bod yn gweithio mwy na 550 o oriau llafur safonol mewn amaethyddiaeth a gweithgarwch cysylltiedig. Bydd gofyn i chi hefyd fodloni rheolau'r cynllun a chynnal y Gweithredoedd Cyffredinol.

Rhaid bod gan y ffermwyr sy'n gwneud cais i'r Cynllun 'Reolaeth Lwyr' ar y tir am o leiaf 10 mis o'r flwyddyn a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am y flwyddyn galendr lawn. Bydd tir yn cael ei ystyried o dan eich 'Rheolaeth Lwyr':

- Os chi yw'r Perchennog Feddiannydd.
- Os ydych yn denant sydd â 'meddiant llwyr' ar y tir naill ai o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 gyda Thenantiaeth Busnes Fferm neu denantiaeth lawn o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.
- Os ydych yn denant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod.

Os oes gan ddau ffermwr neu fwy gytundeb ffermio cyfran, fel nad oes gan yr un ohonynt feddiant llwyr, rydym yn cynnig mai dim ond un sy'n cael hawlio SFS. Rhaid cynnwys yr holl dir sydd o fewn y cytundeb ar Ffurflen Cais Sengl (SAF) y ffermwr a ddewisir. Bydd angen i'r ddau gydymffurfio â'r Gweithredoedd Cyffredinol ar y tir er mwyn sicrhau rheolaeth briodol ar y tir. Byddwn yn ystyried a oes angen newid y gofynion o ran pwy sy'n gymwys i ymuno â'r cynllun er mwyn medru cynnwys partneriaethau busnes a rhoi ffordd i mewn i'r diwydiant i ffermwyr newydd.

Ni fydd nodweddion anamaethyddol na defnydd anamaethyddol o'r tir yn cael eu hystyried yn gymwys o dan y Cynllun:

- Adeileddau a wnaed gan bobl (e.e. adeiladau, arwynebedau caled, ffyrdd a llwybrau heb eu pori)

**a**

- phyllau, afonydd a nentydd anghymwys
- gerddi, cyrsiau golff, parciau hamdden, meysydd gwersylla, tiroedd comin trefol, sŵau, peilonau wedi'u ffensio.

### Sut yr ydym yn cynnig bod y model gweithredu yn gweithio

Ein cynnig yw cynnal y Cynllun gan ddefnyddio model gweithredu Taliadau Gwledig Cymru (RPW), gan adeiladu ar lwyddiant RPW ar-lein, y SAF a'r cynlluniau buddsoddi gwledig .

Er bod y Cynllun yn ymrwymiad aml-flynyddol, rydym yn cynnig defnyddio datganiadau blynyddol ar gyfer yr Haen Gyffredinol, gan ddilyn model y SAF.

I wneud cais am y Taliad Sylfaenol Cyffredinol, bydd yn rhaid i chi lenwi'r SAF bob blwyddyn. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i allu delio â newidiadau i'ch deiliadaeth neu'ch tir a materion eraill bob blwyddyn yn ystod cyfnod y rhaglen.

Rydym yn cynnig agor cyfnod ymgeisio'r Cynllun ym mis Mawrth a'i gau ar 15 Mai, yn unol â chyfnod ymgeisio'r SAF. Mae hyn wedi hen ennill ei le yn ein calendr amaethyddol ac mae'n addas ar gyfer trefniadau'r SFS.

Efallai y bydd gofyn i chi ddiweddaru'ch cofnod cwsmer ystod y flwyddyn i gadarnhau eich bod wedi cynnal y gweithredoedd hynny na fydd angen i chi fod wedi'u cwblhau pan fyddwch yn cyflwyno'ch SAF.

I ategu'r SAF, bydd yna o bosib gytundebau ar wahân, lle bo hynny'n briodol, all ganiatáu mwy o amser i gynnal Gweithredoedd Opsiynol neu Gydweithredol.

### Cofrestru

Os ydych am ymuno â'r Cynllun, bydd angen i chi gofrestru'ch busnes ar RPW Ar-lein a rhoi manylion eich tir. Ni fydd gofyn i fusnesau sydd eisoes wedi cofrestru ar RPW Ar-lein ac sydd wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN) gofrestru eto, ond efallai y bydd angen iddynt ddiweddaru eu manylion ar ôl cadarnhau'r Cynllun terfynol.

Efallai y bydd angen i fusnesau fferm gofrestru hefyd i gael gwybodaeth, help ac arweiniad am y Cynllun. Ni ddisgwylir i'r drefn fod yn wahanol i drefn bresennol Cyswllt Ffermio.

### Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd

Un o ofynion y Cynllun fydd i chi reoli o leiaf 10% o'ch tir fel cynefin er budd bioamrywiaeth a bydd angen bod 10% o'ch tir o dan orchudd coed neu'ch bod yn gweithio at hynny.

Er mwyn gallu gweinyddu a chyfrifo bod fferm yn bodloni'r gofynion hyn ac felly'n gymwys, bydd angen nodi a chofnodi'r nodweddion sy'n bresennol ar eich fferm pan fyddwch yn ymuno â'r Cynllun. I wneud hyn, rydym yn cynnig cynnal asesiad sylfaenol o amgylchedd y fferm sef yr Adolygiad Sylfaenol Lefel 1 o Gynefinoedd (HBR1) fel yr ydym am ei alw. Bydd yr HBR1 yn nodi'r mathau bras o gynefinoedd, coed a pherthi/gwrychoedd sy'n bresennol ar eich fferm. Bydd y HBR1 yn nodi hefyd nodweddion pwysig eraill ar eich fferm fel nodweddion hanesyddol, safleoedd dynodedig a'u clustogfeydd.

Bydd proses glir ar gyfer adolygu'r HBR1 er mwyn i chi allu cadarnhau a diweddaru'r wybodaeth sydd gennym. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn cael ei ddefnyddio i'n helpu i gyfrif eich taliadau a dangos y gofynion y bydd angen i chi eu bodloni.

Yn ogystal, rydym yn cynnig proses Adolygu Sylfaenol fanylach Lefel 2 o Gynefinoedd (HBR2) i gefnogi Haen Opsiynol y Cynllun a phlannu coed ar dir sensitif. Bydd proses HBR2 yn cynnwys cymorth technegol, a disgwylir iddi roi cyfle i dynnu'ch sylw at wybodaeth, cynlluniau neu wasanaethau cymorth eraill.

## Cadarnhau Data

Mae RPW yn cynnig cynnal ymarfer Cadarnhau Data yn 2024, i gasglu a dilysu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn dechrau'r Cynllun. Y bwriad yw rhoi map digidol i chi gyda gwybodaeth gysylltiedig, sy'n dangos y cynefinoedd, y perthi/gwrychoedd a'r coed sy'n bresennol ar eich fferm fel sydd ar hyn o bryd ar system mapio RPW, ac i chi gadarnhau'r map hwnnw. Bydd hyn yn bwydo'r HBR1.

## Cyfrifiannell Carbon

Mae'n hanfodol bod pob ffermwr yn deall effaith ei fusnes o ran carbon a'r cyfleoedd sy'n deillio o hyn.

Byddwn yn gofyn i chi gwblhau asesiad carbon yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ymuno â'r Cynllun. Rydym yn disgwyl i'r asesiad carbon fod ar ffurf cyfrifiannell carbon. Bydd yn fan cychwyn i chi ddeall eich effaith carbon. Bydd angen i chi ailadrodd yr asesiad fel rhan o Gynllun 2029, ond byddai'n well gennym eich bod yn ei wneud bob blwyddyn.

Trwy gynnal asesiad carbon, gallwch nodi cyfleoedd ac arbedion, nid yn unig o ran lleihau allyriadau ond hefyd o ran lleihau costau, megis trwy dargedu gwrteithiau ac ati yn well.

Ar lefel genedlaethol, bydd canlyniadau'r asesiadau hyn, ar ôl tynnu'ch enw a'u cyfuno, yn ein helpu i ddeall effaith gyffredinol y sector, o ran allyriadau a'r cyfleoedd i ddal carbon. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i nodi a datblygu Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol i'ch helpu i leihau'ch ôl troed carbon, cynyddu cyfleoedd ar gyfer dal carbon, ac i wella busnes y fferm.

Rydym am glywed eich barn ynghylch y ffordd orau o ateb y gofyniad hwn mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i chi yn ogystal â gwireddu amcanion ehangach. Mae llawer o gyfrifianellau carbon ar gael i helpu busnesau fferm i ddeall eu heffaith carbon. Mae rhai wedi'u creu ar gyfer sectorau amaethyddol penodol a gall canlyniadau yn aml fod yn wahanol rhwng cyfrifianellau oherwydd y fethodoleg sylfaenol a ddefnyddir. Rydym yn awyddus i osgoi dyblygu ymdrech ac i ddefnyddio gwybodaeth sy'n bod eisoes lle medrwn. Ond mae'n bwysig gallu cymharu'r wybodaeth a gesglir, a chasglu'r wybodaeth yn rheolaidd i greu darlun cenedlaethol.

O ganlyniad, rydym yn disgwyl nodi'r cyfrifiannell carbon benodol y bydd gofyn i chi ei defnyddio, yn hytrach nag, er enghraifft cynnig dewis o gyfrifianellau i chi.

## Rheolau'r Cynllun

Ar ôl yr ymgynghoriad hwn a chyn agor y Cynllun, byddwn yn cyhoeddi canllawiau manwl ar y cynllun a chyfres o safonau dilysadwy fydd yn nodi rheolau, gweithredoedd a'r dystiolaeth angenrheidiol i fodloni amodau'r Cynllun. Efallai y bydd peidio â bodloni'r rheolau hyn yn effeithio ar eich taliad, neu ran ohono.

Bydd nifer o'r rheolau hyn yn debyg i rai cynlluniau cymorth blaenorol a'r safonau Trawsgydymffurfio y dylech fod yn gyfarwydd â nhw, ond dyma rai o'r rheolau pwysicaf y dylech wybod amdanyn nhw:

- Bydd y Cynllun yn dilyn y flwyddyn galendr, 1 Ionawr i 31 Rhagfyr.
- Cymerir rhan yn y cynllun ar lefel busnes y fferm a chynhwysir yr holl dir sydd wedi'i gofrestru o dan eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN).
- Byddwch yn datgan yn flynyddol yr holl dir sydd ar gael i chi / o dan eich rheolaeth (sy'n eiddo i chi a/neu ar rent i chi). Y dyddiad cau ar gyfer datgan fydd 15 Mai.
- Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gallu bodloni amodau'r Gweithredoedd Cyffredinol sy'n berthnasol i'ch fferm,
- Bydd o leiaf 10% o bob fferm o dan orchudd o goed erbyn diwedd 2029.
- Bydd o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei rheoli fel cynefin er budd bioamrywiaeth ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.
- Byddwch yn cadw at y Cod i Bawb ar gyfer Cynefinoedd fydd yn rhwystro unrhyw golled neu ddifrod pellach i gynefinoedd lled-naturiol.

Rydym hefyd yn ystyried cyflwyno rheoliadau ychwanegol at reolau'r cynllun. Dyma enghreifftiau ohonyn nhw isod.

- Ysgwyddo'ch cyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau bod y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) ar eich tir yn agored, yn hygyrch ac yn ddiogel i'r cyhoedd. Rhaid i chi hefyd reoli tir Mynediad Agored yn briodol yn unol â Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad, 2000.
- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd, sy'n golygu gwahanu ac ailgylchu 'gwastraff tebyg i wastraff domestig' a gynhyrchir ar ffermydd – er enghraifft cynwysyddion cardbord a phlastig, a'r gwaharddiad ar anfon deunydd y gellir ei ailgylchu i'w losgi neu i safleoedd tirlenwi.
- Ysgwyddo'ch cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 i beidio â phlannu rhywogaethau goresgynnol estron rhestredig na'u peri i dyfu.

### Y Broses Ddilysu Weinyddol

Bydd deiliadaeth pob tir, parsel a gorchudd tir yn cael ei chadarnhau ar System Adnabod Parseli Tir (LPIS) RPW. Gwneir hyn i sicrhau bod y taliadau'n cael eu gwneud ar y darnau tir cywir, na chaiff ffermwr ei dalu ddwywaith am yr un peth ac nad yw'r categori defnyddio tir yn groes i'r defnydd tir y mae rheolau'r cynllun yn gofyn amdano. Bydd archwiliadau'n cael eu cynnal hefyd o'r datganiadau SAF o ran cwblhau neu gynnydd y Gweithredoedd Cyffredinol.

Byddwn yn cydnabod ac yn cywiro gwallau sy'n hawdd eu darganfod mewn archwiliad gweinyddol o'r wybodaeth a roddir ar y SAF, dogfennau ategol neu unrhyw gais a hawliad arall.

Os cewch eich rhwystro rhag cyflawni rhwymedigaeth neu gwblhau Gweithred oherwydd digwyddiad y tu hwnt i'ch rheolaeth, byddwn yn ei ystyried o dan y ddarpariaeth Amgylchiadau Eithriadol.

### Archwiliadau ar y safle

Bydd archwiliadau ar y safle'n cael eu cynnal fydd yn gyfuniad o archwiliadau ffisegol a lluniau o'r ddaear (e.e. synhwyro o bell a ffotograffau o'r awyr) lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd RPW yn dewis ac yn arolygu canran o geisiadau'r cynllun bob blwyddyn i gadarnhau bod rheolau'r cynllun, gan gynnwys y gofynion rheoleiddio sylfaenol, yn cael eu bodloni. Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) ac Awdurdodau Rheoli Cymwys eraill (CCA) fydd yn cynnal yr archwiliadau hyn. Bydd nifer yr archwiliadau'n cynyddu lle gwelir afreoleidd-dra arwyddocaol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu'n briodol.

### Taliadau

Byddwn yn defnyddio manylion eich fferm sydd wedi'u datgan a'u dilysu ar y SAF i gyfrif y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn unol â'r fethodoleg a ddisgrifir yn fanylach ym Mhennod 4.

Bydd yr hectarau cymwys ym mhob categori talu yn cael eu lluosi gan y gyfradd gyfatebol a delir fesul hectar a'u hadio at ei gilydd i roi'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol bob blwyddyn. Bydd unrhyw Daliad Sefydlogrwydd ar gyfer y Cyfnod Pontio yn ychwanegol at y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

Daw categorïau talu'r cynllun neu gyfanswm gwerth y Taliad Sylfaenol Cyffredinol o dan fesurau rheoli ariannol fel capio.

Rydym yn cynnig talu rhag-daliad o fis Hydref ac yna talu'r balans unwaith y bydd yr holl waith dilysu a chadarnhau wedi'i wneud o fis Rhagfyr ymlaen.

### Rhybuddion a chosbau

Mae cydymffurfio â meini prawf cymhwysedd y cynllun, rheolau'r cynllun, y llinell sylfaen reoleiddio a holl Weithredoedd y Cynllun i gyd yn amod o'r taliad.

Gallai peidio â datgan gwybodaeth yn gywir fel tir a nodweddion cymwys arwain at orddatgan neu danddatgan yr arwynebedd cymwys a gallai hynny arwain at ostwng eich taliad a'ch cosbi. Gall gynnwys amgylchiadau a grëwyd i gael mantais o unrhyw un o'r rheolau sy'n ymwneud â'r Cynllun.

Pan welir lefel o ddiffyg cydymffurfio, ac y teimlir bod angen cosbau ariannol, bydd set o safonau dilysadwy a matrics sancsiynau yn nodi'r canlyniadau'n glir.

Bydd canllawiau pellach yn cael eu paratoi i'ch helpu i gywiro mân broblemau, gan roi amser i chi unioni unrhyw faterion lle bo hynny'n bosibl.

### Y broses apelio

Mae proses apelio grantiau Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r broses apelio a reolir ar hyn o bryd gan RPW sy'n cynnwys asesiad gan banel annibynnol a lle gwneir y penderfyniad terfynol gan Weinidogion Cymru.

Mae'r broses bresennol yn gostus ac yn cymryd llawer o amser heb fawr o fantais o'i chymharu â'r broses weinyddol a gynigir isod, yn enwedig yng ngoleuni'r ymagwedd gymesur sydd gennym ar y gweill at ddiffyg cydymffurfio.

Bwriedir i apeliadau fod yn broses adolygu dau gam, gyda swyddogion gwahanol i'r rhai a wnaeth y penderfyniadau gwreiddiol yn cymryd rhan. Byddai apeliadau yn cael eu hystyried yn llawn, a bydd canlyniad yr apêl yn cael ei nodi'n glir yn ein hymateb.

### Cyngor a chymorth

Efallai'ch bod yn gyfarwydd â'r cyngor, y dysgu a'r datblygiad y mae Cyswllt Ffermio yn ei gynnig ar hyn o bryd, y cyfan gyda chymhorthdal. Efallai'ch bod wedi bod ar gwrs hyfforddi, wedi cynnal profion pridd, neu wedi cael cyngor neu arweiniad ar yr hyn y gallwch ei wneud i wneud eich busnes yn fwy cydnerth, neu'r pethau y gallwch eu gwneud ar eich fferm i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

Rydym am barhau i'ch helpu ar eich taith dysgu a datblygu ar ôl cyflwyno'r Cynllun. Byddwn yn rhoi cyngor i chi ar sut i lenwi'r SAF, cynnal HBR1 a 2 a chynnal Gweithredoedd y Cynllun.

Rydym am i chi gael y gorau o'r Cynllun unwaith y byddwch wedi ymuno, felly byddwn yn eich cefnogi hefyd i ennill a meithrin yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i gynnal y Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol.

Rydym yn gwybod eich bod yn gwerthfawrogi'r gymysgedd presennol o hyfforddiant, cyngor ac arbenigedd technegol sydd ar gael, a'ch bod yn croesawu'n arbennig y cyfleoedd i ddysgu a rhannu profiad wyneb yn wyneb ar y fferm neu gyda'ch cydweithwyr. Rydym yn cynnig parhau i gynnig y cyngor, yr arweiniad a'r dysgu hwn am flynyddoedd i ddod.

### Proses ymgeisio'r haenau Opsiynol a Chydweithredol

Byddwn yn defnyddio prosesau'r cynllun lle medrir, i sgorio a dewis yn unol ag amcanion SLM os bydd y gyllideb yn cyfyngu ar faint fydd yn cael cymryd rhan. Gallai hynny olygu proses ymgeisio syml tebyg i'r broses ymgeisio am Grantiau Bach, neu efallai y bydd angen proses arfarnu ar gyfer ceisiadau mwy.

Bydd angen cynnal y Gweithredoedd o fewn yr amserlen a fydd wedi'i phennu ymlaen llaw.

Bydd angen i bob Grŵp Cydweithredol gofrestru gyda RPW a chael CRN ar gyfer y grŵp cyn ymgeisio.

Bydd taliadau'n cael eu gwneud i'r Grŵp Cydweithredol ac nid i aelodau unigol y grŵp.

#### Cwestiynau Pennod 3

**C6.** Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?

**C7.** Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?

**C8.** Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?

**C9.** Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?


UK 744143
204063
UK
744143 · 204063
UNO
14-3-20

PENNOD 4

# Dull talu

**Cyn i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2019, roedd Cymru yn manteisio ar sicrwydd cyllid hirdymor drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r ffaith ein bod wedi gadael yr UE yn golygu nad oes gennym bellach y sicrwydd hyn na'r gallu i symud cyllid rhwng blynyddoedd fel mater o drefn.**

Nid ydym yn gwybod faint o gyllid fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, nac a fydd yr adolygiad gwariant nesaf yn dyrannu cyllid yn benodol i amaethyddiaeth a chymunedau gwledig. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd ymrwymo i lefel benodol o gyllid ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) sy'n dechrau yn 2025. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael yr un cyfanswm o gyllid o leiaf gan Lywodraeth y DU ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir ag y byddwn yn ei dderbyn yn 2024/25. Gan gydnabod y pwysau mae chwyddiant wedi'i roi ar y diwydiant ffermio, fel y mae wedi effeithio ar sectorau eraill a phawb yng Nghymru, byddwn yn disgwyl i Lywodraeth y DU godi'r cyllid yn unol â chwyddiant.

Rydym yn cynnig eich bod yn cael hawlio'r BPS neu'r SFS yn ystod y Cyfnod Pontio, ond nid y ddau. Nodir methodoleg taliadau'r SFS (Cyffredinol a Sefydlogrwydd) isod, ac ymdrinnir â'r BPS ym Mhennod 6.

### Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol

Y cynnig yw i'r Cynllun roi Taliad Sylfaenol Cyffredinol i ffermwyr bob blwyddyn am gyflawni cyfres o Weithredoedd Cyffredinol y gellir eu cyflawni gan ffermydd ledled Cymru ac sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth. Bydd taliadau'n cefnogi'r gweithredoedd rydych yn eu cynnal i gyflawni yn erbyn yr amcanion ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy a nodir yn y Ddeddf Amaethyddiaeth fel rhan o gynhyrchu bwyd cynaliadwy.

Bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn seiliedig ar arwynebedd eich fferm. Bydd cyfanswm gwerth y taliad hwn (wedi'i gyfrifo fel cyfanswm) yn cynnwys pedwar taliad ar wahân, a fydd yn cynrychioli gwahanol gategorïau talu:

**Categorïau'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol**

- **Cyffredinol – Cynnal a chadw'r coetir presennol**
  Gwerth y taliad ar gyfer pob hectar o goetir presennol a reolir;
- **Cyffredinol – Creu coetir[1]**
  Taliad ar gyfer pob hectar ychwanegol o goetir newydd sy'n cael ei greu, unwaith mae wedi'i greu;
- **Cyffredinol – Cynnal a chadw[2] cynefinoedd[2]**
  Taliad ar gyfer pob hectar o gynefin lled-naturiol a reolir a/neu bob hectar ychwanegol o gynefin dros dro hyd at y 10% gofynnol, unwaith mae wedi'i greu;
- **Cyffredinol – Gweithredoedd**
  Taliad fesul hectar sy'n cwmpasu'r holl Weithredoedd Cyffredinol ar gyfanswm yr arwynebedd cymwys.

Rydyn ni'n cynnig cyfradd dalu ar wahân fesul hectar ar gyfer pob un o'r pedwar categori talu, i gydnabod y gwahanol gostau a ysgwyddir a'r incwm a gollir drwy gwblhau Gweithredoedd cysylltiedig.

Rydyn ni'n ystyried sut y gall cyfraddau talu gynnwys ffactorau y tu hwnt i hyn, gan gydnabod y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. Mae'r dystiolaeth ynghylch costau a ysgwyddir ac incwm a gollir, ynghyd â'r gwerth cymdeithasol a ddarperir gan y canlyniadau, yn cael eu crynhoi ym Mhennod 8.

[1] Bydd taliadau ar gyfer cytundebau plannu coetir presennol Llywodraeth Cymru yn cael eu gwneud ar y cyfraddau sydd eisoes wedi cael eu cadarnhau o dan y cynlluniau hynny, ac yn cael eu heithrio o'r cyfrifiad, tan ddiwedd y cytundeb.
[2] Caiff hyn gynnwys ardaloedd sy'n cael eu rheoli fel cynefin, er enghraifft, ardaloedd adfer mawndiroedd.

Rydyn ni'n ystyried hefyd yr angen i gapio cyfanswm gwerth y Taliad Sylfaenol Cyffredinol neu'r categorïau o daliadau, mewn ffordd debyg i'n dull o gapio taliadau'r BPS, a thaliadau o dan Gynllun Cynefin Cymru. Bydden ni'n ymgynghori ynghylch unrhyw gynigion ar gyfer capio drwy ein grŵp rhanddeiliaid cyn cyflwyno capiau o'r fath.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gost a ysgwyddir a'r incwm a gollir o ganlyniad i Weithredoedd sy'n cael eu hystyried ar gyfer pedwar categori'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol a restrir uchod.

| Taliadau blynyddol | Beth mae'r taliad blynyddol yn ei gynnwys | Y rhan o'r tir fferm y mae'r taliad blynyddol yn berthnasol iddi |
|---|---|---|
| Cyffredinol – Cynnal a chadw’r coetir presennol | Costau rheoli coetir presennol. | Coetir presennol, ac eithrio coetir SoDdGA presennol.<br>Mae coetir SoDdGA yn cyfrif tuag at y gofyniad am 10% o goetir, ond ni allwn dalu ffermwyr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ar gyfer tir SoDdGA. Bydd taliadau i wella cyflwr SoDdGA yn cael eu cynnwys fel rhan o Weithredoedd Opsiynol yr SFS. |
| Cyffredinol – Creu coetir | Costau rheoli'r darn o goetir ychwanegol sydd newydd ei sefydlu.<br>Yr incwm a gollir o ganlyniad i'r darn newydd o goetir sydd wedi cael ei greu. | Yr darn o goetir newydd wedi'i greu. Gall y taliad hwn gael ei dalu am hyd at 12 mlynedd ar ôl y plannu, ac ar ôl hynny bydd y taliad yn adlewyrchu'r gyfradd ar gyfer rheoli coetir presennol. |
| Cyffredinol – Cynnal a chadw cynefinoedd | Cost rheoli cynefinoedd lled-naturiol presennol.<br>Cost (gan gynnwys incwm a gollir) creu a rheoli cynefin dros dro newydd. | Darn o gynefin lled-naturiol, ac eithrio tir cynefin SoDdGA presennol.<br>Mae tir cynefin SoDdGA yn cyfrif tuag at y gofyniad am 10% o gynefin, ond ni allwn dalu ffermwyr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol ar gyfer tir SoDdGA. Bydd taliadau i wella cyflwr SoDdGA yn cael eu cynnwys fel rhan o Weithredoedd Opsiynol yr SFS. |
| Cyffredinol – Gweithredoedd | Gweler y tabl isod. | Pob darn cymwys, gan gynnwys SoDdGAau. |

Wrth bennu'r gyfradd dalu ar gyfer y categori talu am Weithredoedd Cyffredinol, byddwn yn ystyried y costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir o ganlyniad i'r gweithredoedd a amlinellir isod:

| Gweithredoedd Cyffredinol | Y costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer y taliad |
|---|---|
| Meincnodi | • Casglu data ac amser adrodd ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| Datblygiad Personol Parhaus | • Cost amser i gwblhau dysgu gorfodol |
| Cynllunio iechyd pridd | • Amser ffermwr i gynnal gweithredoedd<br>• Costau pecynnau samplu/costau postio |
| Gorchudd cnwd amrywogaeth | • Costau sefydlu a rheoli cnwd gorchudd priodol |
| Rheoli Plâu Integredig | • Amser cynllunio ac adrodd |
| Rheoli mawn sydd wedi'i newid yn fawr | • Costau diogelu mawn rhag diraddio neu erydu ychwanegol |
| Cynlluniau Rheoli Safle Dynodedig | • Amser ffermwr ar gyfer datblygu cynllun rheoli priodol |
| Pyllau dŵr parhaol a thymhorol | • Costau parhaus cynnal a chadw pyllau dŵr parhaol a thymhorol<br>• Costau creu pyllau dŵr tymhorol<br>• Costau adfer pyllau |
| Rheoli gwrychoedd (perthi) | • Rheoli gwrychoedd a thasgau cynnal a chadw bach e.e. cau bylchau |
| Yr amgylchedd hanesyddol – cynnal a chadw a gwella | • Costau cynnal a chadw a rheoli rheolaidd |
| Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid | • Amser ffermwr i gwrdd â'i filfeddyg<br>• Cost ymweliadau milfeddygon<br>• Amser adrodd (e.e. defnyddio gwrthfiotigau) |
| Lles Anifeiliaid Da | • Amser ffermwr i gwblhau hyfforddiant hyfedredd a chwblhau sgorio symudedd a chloffni |
| Bioddiogelwch Fferm Da | • Amser ffermwr i gwrdd â'i filfeddyg<br>• Cost ymweliad milfeddyg<br>• Dilyn cynllun bioddiogelwch (e.e. glanhau a diheintio, monitro)<br>• Amser ffermwr i adolygu a diwygio cynllun bioddiogelwch |
| Cyfrifiannell Carbon | • Amser ffermwr i'w chwblhau |

Byddwn yn adolygu'r costau a ysgwyddir a'r incwm a gollir yn dilyn ymgynghori, ac yn rheolaidd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

Mae crynodeb o'r dystiolaeth i gefnogi datblygu cyfraddau talu ar gyfer Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei amlinellu ym Mhennod 8.

## Taliad Sefydlogrwydd

Yn ystod y Cyfnod Pontio (2025–2029), rydym yn cynnig, os ydych yn ymuno â'r Cynllun, ac wedi derbyn taliad y BPS yn 2024, y gallech hefyd dderbyn Taliad Sefydlogrwydd, sy'n ychwanegol at y Taliad Sylfaenol Cyffredinol.

Byddwch yn derbyn **Taliad Sefydlogrwydd** os bydd:

Cyfanswm gwerth y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn unrhyw un o'r blynyddoedd pontio yn

**llai na**

Y taliad BPS 'tybiannol' y byddai'r busnes fferm wedi ei dderbyn.

Wrth gyfrifo'r Taliad Sefydlogrwydd, byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau ym maint y fferm rhwng y flwyddyn bresennol a'ch arwynebedd BPS blaenorol. Felly, cyfrifir gwerth 'tybiannol' y BPS yn flynyddol a bydd yn seiliedig ar y fethodoleg ganlynol:

| Cyfrifo gwerth 'tybiannol' y BPS | |
|---|---|
| Arwynebedd y Taliad | Arwynebedd y fferm wedi'i neilltuo[3] ar gyfer yr SFS yn y flwyddyn bresennol.<br>**ac**<br>Arwynebedd tybiannol Tir Comin wedi'i neilltuo[3] (at dibenion sefydlogrwydd yn unig) |
| **Wedi'i luosi â'r** | |
| Y Gyfradd Dalu | Cyfraddau'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys effeithiau tapro ar gyfer Hawl i'r BPS, y Taliad wedi'i Ailddosbarthu a'r Taliad i Ffermwyr Ifanc (lle bo hynny'n berthnasol) |

Ni fydd unrhyw Daliad Sefydlogrwydd yr SFS yn daladwy os bydd cyfanswm gwerth Taliad Sylfaenol Cyffredinol yr SFS yn *cyfateb i werth tybiannol y BPS neu'n fwy nag ef* mewn unrhyw un flwyddyn.

Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn eich helpu i bontio o un system gymorth i'r llall, ac yn darparu cymorth ariannol ychwanegol cyn i Weithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol yr SFS ddod ar gael. Am y rheswm hwn, disgwylir i'r taliad hefyd ddarparu parhad i ymgeiswyr y BPS a oedd yn arfer hawlio am dir comin, a chynnwys ardaloedd SoDdGA a statws organig (y mae'n bosibl y bydd yn cael ei gyflwyno yn 2024).

## Gwerth y Taliad

Yn ystod y Cyfnod Pontio, bydd cyfanswm eich taliad yn gyfuniad o'r:

- Taliad Sylfaenol Cyffredinol blynyddol

  **a'r**

- Taliad Sefydlogrwydd (pan fydd hynny'n berthnasol).

Mae'r fethodoleg dalu a ddisgrifir uchod yn rhoi hyblygrwydd i adlewyrchu senarios a blaenoriaethau cyllideb sy'n newid yn y dyfodol. Byddwn yn gallu cadarnhau'r cyfraddau talu terfynol yn 2024 pan gytunir ar ddyluniad terfynol y cynllun a bod y gyllideb wedi'i chadarnhau.

**Cwestiynau Pennod 4**

**C10.** Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer:

**a)** taliad sylfaenol cyffredinol SFS

**b)** taliad sefydlogrwydd SFS

[3] Cyfyngir ar yr arwynebedd y cewch Daliad Sefydlogrwydd yr SFS arno i nifer yr hawliau a gafodd eu defnyddio o dan y BPS yn y flwyddyn cyn eich hawliad cyntaf o dan yr SFS. Hefyd, pan fydd hynny'n berthnasol, efallai y bydd rheolau capio'r BPS yn berthnasol i gyfrifo taliad tybiannol y BPS.



PENNOD 5

# Y Cyfnod Pontio

**Yn y bennod hon, rydyn ni'n cyflwyno ein dull ar gyfer eich cynorthwyo cyn ac ar ôl cyflwyno'r Gweithredoedd Cyffredinol yn 2025 a'r Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol dilynol.**

## Y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol

**Gweithredoedd Opsiynol -** gellir defnyddio’r rhain i dargedu mater penodol sy’n ymwneud â thir neu nodwedd o’r dirwedd y gallech ddewis rhoi sylw iddi. Rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw ddilyn neu gael eu llywio gan y Gweithredoedd Cyffredinol. Bydd rhai ffermwyr yn cynnal rhai o'r Gweithredoedd hyn eisoes.

Byddwch yn cael dewis pa Weithredoedd rydych am eu cynnal yn yr haen hon a chael eich talu am eu cynnal (yn ogystal â'r Taliad Sylfaenol Cyffredinol). Byddwch yn cael eich cefnogi, gan ddefnyddio data ac allbynnau'r Gweithredoedd Cyffredinol, i ddeall yr opsiynau sydd ar gael i ddewis ohonyn nhw, y manteision y gallan nhw eu darparu a'r incwm y gallan nhw ei gynhyrchu.

Mae'r rhestr o opsiynau posibl a gyhoeddwyd yn yr amlinelliad blaenorol o'r Cynllun wedi cael eu hailadrodd yn Atodiad 2 i roi syniad o'r Gweithredoedd Opsiynol sy'n cael eu hystyried.

**Gweithredoedd Cydweithredol -** bydd y rhain yn rhoi cyfle i ffermwyr weithredu ar lefel leol, lefel tirwedd, lefel dalgylch neu lefel genedlaethol, gan gefnogi ffermwyr sydd am wneud mwy. Bydd y Gweithredoedd hyn yn helpu i gynyddu cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng ffermwyr, rheolwyr tir, coedwigwyr ac eraill i gyflawni gweithredoedd ac ymyriadau sy'n cyd-fynd â'r amcanion ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

Bydd y dull arfaethedig o gefnogi Gweithredoedd Cydweithredol yn amrywio, ond disgwylir iddo gynnwys:

- Gweithredu ar lefel tirwedd, er mwyn cynnal atebion sy'n seiliedig ar natur ar lefel tirwedd i sicrhau bod ecosystemau yn gydnerth, yn gysylltiedig ac mewn cyflwr da.
- Rhannu arloesedd a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth, i sicrhau bod gwybodaeth a gweithgareddau arloesol yn cael eu rhannu er mwyn datblygu prosesau, technegau a thechnolegau newydd, a datblygu atebion i ddatrys heriau'r sector.
- Cydweithredu – rydyn ni am alluogi busnesau fferm i gydweithredu â'i gilydd, gan alluogi rhannu cyfleusterau ac adnoddau i gynyddu proffidioldeb a chydnerthedd busnesau fferm.
- Gwerth ychwanegol: er enghraifft drwy weithredoedd i gynyddu effeithlonrwydd o ran adnoddau a chyfleoedd newydd ar gyfer y gadwyn gyflenwi, i gefnogi cyflenwi rhagor y fwyd o ansawdd uchel o ffynonellau lleol.

Bydd cyflawni ar raddfa fawr drwy'r Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol, yn gwella cydnerthedd eich fferm. Byddan nhw’n cefnogi cydgysylltu gweithredoedd ac ymyriadau wedi'u targedu i wella bioamrywiaeth ac ansawdd pridd, aer ac dŵr, er mwyn sicrhau iechyd a lles da ar gyfer anifeiliaid, lliniaru perygl llifogydd a sychder a gwella effeithlonrwydd adnoddau a storio cymaint o garbon ag y bo modd.

## Cyflwyno Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol yn raddol

Bydd y Gweithredoedd Cyffredinol yn cael eu lansio yn 2025 a bydd y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol yn dilyn. Rydyn ni am roi'r cyfle ichi ddod i arfer â'r Cynllun newydd cyn inni gyflwyno'r Gweithredoedd sy'n weddill. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno rhwng 2025 a 2029, a bydd y gweithredu yn destun ymgysylltiad pellach â grwpiau rhanddeiliaid ac yn dibynnu ar faint o arian fydd ar gael. Efallai y byddwn yn cyflwyno rhai Gweithredoedd cyn eraill, lle mae angen eu blaenoriaethu.

Cyn cyflwyno'r Haen Opsiynol a'r Haen Gydweithredol, gan ddibynnu ar faint y gyllideb, byddwn yn parhau i ddarparu amrediad o gynlluniau amaethyddol ac amgylcheddol wedi'u caffael ar sail galw, gan gefnogi amrediad o ganlyniadau. Mae aliniad cryf rhwng y cynlluniau rydyn ni eisoes yn eu cefnogi a'r Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol y byddwn yn eu cyflwyno yn ystod y Cyfnod Pontio. Er enghraifft:

Mae'r cynllun **Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau** yn cefnogi ymdrechion i leihau effaith amgylcheddol amonia.

Mae ein hamrediad o **gynlluniau coetir** yn helpu i greu darnau o amaeth-goedwigaeth a choetir newydd a rheoli rhai presennol.

Mae'r cynllun **Grantiau Bach – Yr Amgylchedd** yn cefnogi ffermwyr i roi ffensys a gwrychoedd tair metr o led ar hyd ffin eu fferm (lle bo hynny'n briodol) i atal stoc gyfagos rhag dod i gysylltiad â'u stoc nhw.

Bydd ein **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig** a'r R**haglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** yn cefnogi darparu atebion sy'n seiliedig ar natur ar draws y dirwedd.

Mae'r **Cynllun Arloesi Cynaliadwy** yn helpu i gydgysylltu cadwyni cyflenwi.

Mae'r **Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau** yn helpu i sicrhau bod dŵr yn cael ei amddiffyn rhag llygredd.

Bydd cynllun peilot y **Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid** yn helpu i wella mesurau iechyd a lles anifeiliaid ar y fferm.

Mae'r cynlluniau sydd gennyn ni ar waith eisoes, yr ydyn ni'n disgwyl i lawer ohonynt esblygu yn Weithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol, yn helpu i gyflawni rhai o'r canlyniadau mwyaf tuag at ein huchelgeisiau ar gyfer sero-net, ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, wrth hefyd alluogi cyfleoedd ehangach ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

## Blaenoriaethau i ffermwyr yn Haen Cyffredinol y Cynllun

Credwn ni, os byddwch yn ymuno â'r Cynllun, gan ymrwymo i ddull fferm gyfan er mwyn gwella eich cydnerthedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol drwy'r Gweithredoedd Cyffredinol, yna dylech gael blaenoriaeth o ran cael mynediad i'r Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol.

Ni fyddai'r rhai nad ydyn nhw'n cofrestru i ymuno â'r Cynllun yn elwa ar y mynediad â blaenoriaeth hwn, a bydden nhw'n destun proses gystadleuol i ymuno â chynlluniau ariannu (yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael).

### Cwestiynau Pennod 5

**C11.** Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?

**C12.** Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?



PENNOD 6

# Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)

**O 2025 ymlaen, rydyn ni'n cynnig y bydd gennych opsiwn i ddewis naill ai'r SFS neu'r BPS.**

Pan fyddwch wedi dewis cymryd rhan yn yr SFS ni fydd gennych yr opsiwn i ddychwelyd i'r BPS mwyach, gan mai'r SFS fydd y prif fecanwaith cymorth hirdymor i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

### Dod â'r BPS i ben yn raddol

Rydyn ni'n cynnig dod â'r BPS i ben yn raddol yn ystod y Cyfnod Pontio. Mae'r Cynllun a'r dull talu wedi cael eu dylunio i'ch helpu i drosglwyddo i'r SFS o'r flwyddyn gyntaf sydd ar gael h.y. 2025.

Byddwn yn dod â Thaliad y BPS, y Taliad wedi'i Ailddosbarthu a'r Taliad i Ffermwyr Ifanc i ben yn raddol. Bwriedir i hyn ddigwydd dros gyfnod o bum mlynedd, gyda tapr o 20% mewn camau cyfartal bob blwyddyn fel y nodir isod.

Canran arfaethedig o Daliad BPS, y Taliad wedi'i Ailddosbarthu a'r Taliad i Ffermwyr Ifanc sy'n daladwy bob blwyddyn yn ystod y Cyfnod Pontio.

**Taliad y BPS, y Taliad wedi'i Ailddosbarthu a'r Taliad i Ffermwyr Ifanc**

| 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|
| 80% | 60% | 40% | 20% | 0% |

Defnyddiwyd y model tapro hwn dros gyfnod o bum mlynedd pan gyflwynwyd y BPS i ddisodli Cynllun y Taliad Sengl yn 2015, gan wneud pob hawl yn gyfradd safonol erbyn 2019.

Mae'r dull hwn o ddod â'r BPS i ben yn raddol yn golygu nad oes angen pennu terfyn uchaf ar gyfer cyllideb y BPS, ac y byddwch yn gallu cyfrifo gwerth eich taliad BPS ar gyfer y cyfnod pontio, os byddwch yn dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun.

Byddai'r gostyngiad cyntaf o 20% yn berthnasol i BPS 2025 gyda hawliad terfynol y BPS ar gael yn 2028. Ni fydd unrhyw gais neu daliad y BPS ar gael yn 2029.

### Newidiadau arfaethedig i reolau'r BPS

Ni fydd y rhan fwyaf o reolau'r BPS yn newid. Bydd angen nifer cyfatebol o hectarau cymwys arnoch o hyd i ddefnyddio’ch hawliau BPS, a rhaid bod gennych dir cymwys sydd ar gael ichi. Gan fod y BPS yn cael ei dynnu'n ôl yn ystod y Cyfnod Pontio, mae angen inni sicrhau nad yw nifer yr hawlwyr a hawliadau unigol y BPS yn cynyddu.

Felly, rydyn ni'n bwriadu gwneud newidiadau i'r BPS o 2025. Mae manylion y rhain isod.

### Terfyn Uchaf Cyllideb y BPS

Ni fydd yn ofynnol bellach i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf ar gyfer Cyllideb y BPS, gan y bydd Taliadau'r BPS, y Taliad wedi'i Ailddosbarthu a'r Taliad i Ffermwyr Ifanc yn cael eu lleihau'n raddol o BPS 2025 ymlaen.

## Hawliau BPS

Er mwyn sicrhau nad yw nifer yr hawlwyr a hawliadau unigol y BPS yn cynyddu yn ystod y cyfnod pontio, o 2025 rydyn ni'n cynnig a canlynol:

- Bydd ffermwyr sy'n dewis cymryd rhan yn yr SFS yn ildio eu hawliau, ac na fyddan nhw ar gael ar gyfer blynyddoedd cynllun y BPS yn y dyfodol.
- Cau'r Gronfa Genedlaethol. Bydd ymgeiswyr newydd i ffermio yn cael eu cyfeirio at yr SFS, gan nad oes unrhyw ofynion i ddal hawliau o dan y Cynllun.
- Cyfyngu ar drosglwyddo hawliau BPS i'r rhai sy'n trosglwyddo a/neu brydlesu hawliau gyda'r tir, a ffermwyr sy'n prydlesu hawliau ar hyn o bryd ar gyfer tir y maen nhw'n hawlio amdano ar hyn o bryd o dan y BPS. Caniateir trosglwyddo hawliau'r BPS mewn achosion o etifeddiaeth ac olyniaeth hefyd. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd Cyfnod Trosglwyddo a Phrydlesu 2025 a'r rheolau trosglwyddo hawliau ar gael yn ddiweddarach yn 2024.
- Cael gwared ar y rheol defnyddio hawl o ddwy flynedd.

## Capio Taliadau

Rydyn ni'n cynnig newid cap taliad y BPS i sicrhau cysondeb â model tapro'r BPS. Mae hyn yn golygu y bydd effaith tapro'r BPS yr un peth ar gyfer pob hawliwr.

Rydyn ni'n cynnig defnyddio gostyngiad cynyddrannol i'r Bandiau Talu fel a ganlyn:

| Canran y Gostyngiad | Bandiau Talu 2024 | Bandiau Talu 2025 | Bandiau Talu 2026 | Bandiau Talu 2027 | Bandiau Talu 2028 |
|---|---|---|---|---|---|
| **0%** | £150,000 | £120,000 | £90,000 | £60,000 | £30,000 |
| **15%** | £150,000 i £200,000 | £120,000 i £160,000 | £90,000 i £120,000 | £60,000 i £80,000 | £30,000 i £40,000 |
| **30%** | £200,000 i £250,000 | £160,000 i £200,000 | £120,000 i £150,000 | £80,000 i £100,000 | £40,000 i £50,000 |
| **55%** | £250,000 i £300,000 | £200,000 i £240,000 | £150,000 i £180,000 | £100,000 i £120,000 | £50,000 i £60,000 |
| **100%** | Mwy na £300,000 | Mwy na £240,000 | Mwy na £180,000 | Mwy na £120,000 | Mwy na £60,000 |

## Fframwaith Cyfreithiol

Credwn fod y cynigion uchod yn cynnig y ffordd symlaf a thecach o drosglwyddo o'r BPS i'r SFS, wrth hefyd ddarparu sefydlogrwydd a sicrhau nad yw cyllid unrhyw ffermwr yn gollwng yn sydyn os yw'n penderfynu peidio â chymryd rhan yn yr SFS.

Bydd y cynigion hyn yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio pwerau yn y Ddeddf Amaethyddiaeth i newid deddfwriaeth y BPS drwy wneud is-ddeddfwriaeth yn ystod 2024 (gweler Pennod 7)

Byddwn yn cadw'r fframwaith cyfreithiol Trawsgydymffurfio a rheolaethau a chosbau cysylltiedig i hawlwyr y BPS.

### Cwestiynau Pennod 6

**C13.** Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025? Byddan nhw'n cynnwys:

**a)** Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau.

**b)** Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd.

**c)** Trothwyon ar gyfer capio.

**d)** Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau.

PENNOD 7

# Rheoliadau

## Pwerau i Ddarparu Cymorth

Mae gan y Ddeddf Amaethyddiaeth bwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth i'r sector, drwy gynllun neu fel arall, ar gyfer amaethyddiaeth neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. I allu gweithredu a gweinyddu cynllun cymorth yn effeithiol, mae angen is-ddeddfwriaeth i sicrhau bod pob cynllun cymorth amaethyddol yn y dyfodol yn cael ei sefydlu a'i ddarparu yn unol â'r Ddeddf Amaethyddiaeth.

Ein bwriad yw lleihau biwrocratiaeth wrth sefydlu cynlluniau cymorth a galluog cymorth mwy ymatebol a hyblyg y gellir ei addasu, sy'n diwallu anghenion ein diwydiant amaethyddol yng Nghymru.

## Yr hyn rydyn ni'n ei gynnig

Rydyn ni'n cynnig un Rheoliad sengl sy'n cynnwys yr holl bwerau rheoleiddio yn unol ag adrannau 10 a 12 o Ddeddf Amaethyddiaeth yn y bennod Pŵer Gweinidogion Cymru i Ddarparu Cymorth (Rhan 2).

Mae'r Rheoliad hwn yn ofyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth i alluogi nid yn unig fonitro cynllun cymorth, ond hefyd pob agwedd sy'n ymwneud â'r cynlluniau hynny, er enghraifft:

- gwirio bod meini prawf cymhwysedd yn cael eu bodloni
- y canlyniadau pan fydd cymorth wedi ei ddarparu heb i feini prawf cymhwysedd gael eu bodloni
- gorfodi cydymffurfedd ag unrhyw amodau y darperir neu y darparwyd cymorth yn ddarostyngedig iddynt
- monitro i ba raddau y mae pwrpas y cymorth wedi cael ei gyflawni;
- ymchwilio i droseddau a amheuir mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth neu ddarparu cymorth
- cyhoeddi gwybodaeth benodol am y cymorth a ddarperir neu a ddarparwyd yn unol ag Adran 8.

Ni fwriedir i'r Rheoliad gyfeirio'n uniongyrchol at unrhyw gymorth (megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy). Bydd y dull hwn yn sicrhau y bydd y Rheoliad yn effeithlon ac yn parhau i fod yn addas i'r diben drwy alluogi cynlluniau cymorth yn y dyfodol i ddefnyddio pwerau'r rheoliadau hyn a'u prosesau ategol.

Bydd y Rheoliadau yn galluogi pob cynllun cymorth yn y dyfodol, sy'n gweithredu o dan y pŵer i ddarparu cymorth o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth, i ddefnyddio'r un pŵer rheoleiddio i weithredu a gweinyddu'r cynlluniau cymorth yn effeithiol. Mae manylion pob math o gymorth, cynllun neu fater arall i'w darparu o fewn rheolau a chanllawiau'r cynllun.

Byddwn yn diffinio ystyr 'rheolau a chanllawiau'r cynllun' yn y Rheoliadau. Mae enghraifft o sut y bydd y Rheoliad yn gweithio ar y cyd â chynllun wedi'i nodi isod. Mae'r enghraifft hon yn defnyddio monitro cynlluniau a chydymffurfedd i ddangos y berthynas rhwng y Rheoliad a chynllun cymorth:

- Bydd y Rheoliad yn egluro y gall cynlluniau gael eu monitro, drwy archwiliad rhithwir neu ffisegol, er mwyn canfod i ba raddau mae diben y cymorth wedi cael ei gyflawni.
- Wedyn bydd rheolau'r cynllun yn nodi manylion a phwrpas y monitro; y broses a'r ffordd y bydd yn cael ei defnyddio a'r ffordd y cesglir data i ategu'r gwaith o fonitro effeithiau cynllun, pa mor aml y cesglir data, pwy fydd yn ei gasglu, a beth fydd yn cael ei wneud gyda'r data.

Bydd yr holl gymorth yn y dyfodol yn cael ei amlinellu yn y Cynllun Cymorth Amlflwyddyn, sy'n darparu cynllun pum mlynedd (o leiaf) ymlaen llaw ar gyfer cynlluniau cymorth amaethyddol, sydd naill ai ar waith neu y disgwylir iddyn nhw gael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod o bum mlynedd sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2025. Bydd y Cynllun Cymorth Amlflwyddyn yn sicrhau tryloywder ac yn rhoi sicrwydd ichi fod gan Lywodraeth Cymru gynllun neu gyfres o weithgareddau addas ar waith i gefnogi'r sector yn y dyfodol. Bydd y Rheoliad yn nodi'r gofynion sydd eu hangen i alluogi'r cynlluniau cymorth a amlinellir yn y Cynllun Cymorth Amlflwyddyn i gaei eu gweithredu a'u gweinyddu'n effeithiol.

Nid ydyn ni'n ymgynghori ynghylch yr is-ddeddfwriaeth fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, bydd y cwestiynau, y prosesau, y gweithredoedd, yn ogystal â'r ymatebion a'r canlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried a'u defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Rheoliadau.

### Gofynion Deddfwriaethol ar gyfer y BPS

Er mwyn caniatáu'r newidiadau a gynigir ar gyfer y BPS o 2025 i 2029 fel yr amlinellir ym Mhennod 6, gwnaethom gynnig newid yt is-ddeddfwriaeth ganlynol:

- Cyfraith Ewropeaidd a ddargedwir: Rheoliadau'r GE 1306/2013, 1307/2013, 639/2014, 640/2014, ac 809/2014.
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014, 2014/3223.
- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015, 2015/1252.
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019, 2019/688.

Roedd yr is-ddeddfwriaeth hon yn pennu rheolau'r BPS pan agorodd y cynllun, ond maen nhw hefyd bellach yng Nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir (REUL), a oedd yn galluogi parhau i weithredu'r BPS yn dilyn y cyfnod gweithredu ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2020.

Bydd y newidiadau i'r is-ddeddwriaeth yn cael eu gwneud drwy Reoliad sengl, gan ddiwygio'r REUL a'r is-ddeddfwriaeth a nodir uchod.

#### Cwestiynau Pennod 7

**C14.** Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

PENNOD 8

# Tystiolaeth

**Yn y bennod hon rydyn ni'n edrych ar yr Asesiad Effaith Integredig sy'n ategu'r ymgynghoriad hwn a'r dull a'r dystiolaeth sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu'r fethodoleg talu.**

## Asesiad Effaith Integredig

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, rydyn ni wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Cynllun arfaethedig. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymdrin â'r Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig a bennir yn yr ymgynghoriad a'r ymrwymiad ehangach i gefnogi amaethyddiaeth drwy'r Cynllun yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys y Gweithredoedd Opsiynol a'r Gweithredoedd Cydweithredol) fel ffordd o gyflawni Amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adeiladu ar asesiadau blaenorol a gynhaliwyd ar gyfer y Ddeddf Amaethyddiaeth. Mae'r adroddiad ar gael yn Atodiad 4.

## Y Taliad Sylfaenol Cyffredinol

Y sail ar gyfer y Taliad Sylfaenol Cyffredinol fydd amcangyfrif o'r gost yr ysgwyddir a'r incwm a gollir gan ffermwyr o ganlyniad iddyn nhw gynnal gweithredoedd o dan Haen Gyffredinol y cynllun. Rydyn ni'n cydnabod y gallai cynnal rhai o'r Gweithredoedd Cyffredinol eich arwain at gostau ychwanegol ar gyfer eich fferm. Rydyn ni hefyd yn cydnabod, wrth gwblhau'r Gweithredoedd Cyffredinol, y gallai rhai busnesau fferm golli rhan o'u gweithgareddau amaethyddol, a gallai hyn arwain at golli incwm. Mae'r effeithiau hyn yn amrywio ar draws ffermydd yn ôl eu hamgylchiadau a'u busnes ffermio.

Yn ogystal â'r costau yr ysgwyddir a'r incwm a gollir, rydyn ni'n cynnig adlewyrchu gwerth cymdeithasol y canlyniadau sy'n cael eu gwireddu drwy reoli tir yn gynaliadwy. Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn cael ei chrynhoi isod.

## Effaith costau a ysgwyddir ac incwm a gollir

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil modelu economaidd ym maes amaethyddiaeth gan gonsortiwm dan arweiniad ADAS a oedd yn cynnwys SRUC, Pareto Consulting a Choleg Prifysgol Dulyn. Roedd y gwaith modelu hwn yn amcangyfrif yr effeithiau ar lefel cae a lefel fferm o ganlyniad i gynnal yGweithredoedd Cyffredinol arfaethedig gan adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud i asesu costau ar lefel y fferm[4].

Datblygwyd proffiliau cost manwl ar gyfer y Gweithredoedd Cyffredinol arfaethedig Cafodd costau ymlaen llaw eu hystyried (prynu nwyddau neu wasanaethau), costau rheoli a chynnal a chadw parhaus, cost amser ffermwyr sydd ei angen i gynnal gweithredoedd, ac unrhyw incwm a gollir o ganlyniad i golli gweithgareddau amaethyddol.

Y boblogaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad oedd busnesau fferm a oedd ar y System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS) ac a oedd yn derbyn taliadau cymorth Colofn I neu Golofn II yn 2019 (15,960 o fusnesau). Defnyddiwyd is-set lai (8,774 o fusnesau) o'r rhai ag allbwn safonol amcangyfrifedig o £25,000 o leiaf i fodelu allbwn a newidiadau i incwm.

Adeiladwyd proffil bioffisegol ac ariannol drwy gyfuno 14 set ddata bresennol, a oedd yn ymwneud â phriodoleddau ffisegol, amgylcheddol a daearyddol, ac economaidd amaethyddiaeth Cymru, drwy ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a chronfeydd data[5] perthynol.

[4] Steven Thomson and Andrew Moxey (2023) Potential economic effects of the Sustainable Farming Scheme. Draft Phase 3 report on farm-level costs of proposed SFS UA. **A report to Welsh Government under project C280/2019/2020. Mae'r adroddiad ar gael ar gais.**
[5] Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am y rhain mewn adroddiad ar fethodoleg dechnegol a ffynonellau data sydd ar gael ar gais.

Wedyn defnyddiwyd tybiaethau sy'n adlewyrchu newidiadau posibl yn y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio o ganlyniad i gynnal Gweithredoedd Cyffredinol yr SFS, ynghyd â'r amcangyfrifon o gostau proffil i amcangyfrif yr effeithiau ar allbwn amaethyddol ac incwm a gollir, yn seiliedig ar ddata perfformiad ariannol Arolwg Busnes Fferm Cymru (FBS) fel cyfartaledd dros dair blynedd i 2018/19. Gweler canlyniadau'r gwaith yn hwn Atodiad 5.

Mae'r gwaith modelu o gynigion blaenorol y cynllun, ynghyd â thystiolaeth arall gan gynnwys adborth o'r broses gydlunio, wedi bod yn hynod ddefnyddiol ar gyfer llunio'r cynigion sy'n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn. Bu'n ffynhonnell dealltwriaeth yr ydym wedi'i defnyddio i ddylunio'r cynllun, y dull talu a'r cynnig i sefydlu Taliad Sefydlogrwydd.

Nid yw'n adlewyrchu'r dadansoddiad terfynol o'r costau a ysgwyddir, yr incwm a gollir na chanlyniadau'r cynllun. Caiff y dadansoddiad ynghyd â thystiolaeth arall eu diweddaru ar ôl i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau i ddyluniad y cynllun. Bwriedir i'r dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o'r dyluniad buddsoddi terfynol gan Weinidogion Cymru yn 2024 adlewyrchu'r cynllun fydd yn cael ei gyflwyno yn 2025.

## Gwerth cymdeithasol y canlyniadau

Comisiynodd Llywodraeth Cymru eftec ac ADAS, fel rhan o'r Rhaglen Modelu a Monitro'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) a arweinir gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH), i asesu'r dystiolaeth ynghylch gwerth cymdeithasol newidiadau mewn cyfalaf naturiol a sut y gellid adlewyrchu hwn yn lefelau talu'r Cynllun. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan ERAMMP.

Mae'r adroddiad yn edrych ar y dystiolaeth ynghylch amrywiadau gofodol ac amserol yn y gwerth cymdeithasol a ddarperir gan Gyfalaf Naturiol (h.y. y manteision o'r amgylchedd naturiol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mhrisiau'r farchnad).

Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dull Cyfalaf Naturiol, gan ddadansoddi gwerth ariannol manteision sy'n deillio o'r amgylchedd naturiol. Drwy'r dull hwn, ystyrir yr amgylchedd naturiol yn ased sy'n darparu manteision i bobl dros amser. Gall cyflwr yr asedau cyfalaf naturiol gael eu dylanwadu gan ffactorau allanol (gan gynnwys prosesau naturiol, a newid yn yr hinsawdd a achosir gan bobl), a'r ffordd mae'r asedau'n cael eu cynnal a/neu eu defnyddio gan bobl.

Roedd yr adroddiad yn ystyried gostyngiadau carbon yn sgil atafaelu neu leihau allyriadau; coetir yn amsugno llygrydd aer; manteision ar gyfer gweithgareddau hamdden; manteision iechyd corfforol; manteision ar gyfer ansawdd dŵr, y cyflenwad dŵr a rheoli perygl llifogydd; a manteision i fioamrywiaeth.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwerth rhai o'r manteision a ddadansoddwyd yn gadarn, yn enwedig:

- Gostyngiadau carbon drwy atafaelu neu leihau allyriadau;
- Coetir yn amsugno llygryddion aer;
- Manteision drwy weithgareddau hamdden;
- Manteision drwy iechyd corfforol; a
- Gwerth manteision ar gyfer ansawdd dŵr.

Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ynghylch gwerth y manteision ar gyfer rheoli perygl llifogydd, bioamrywiaeth a chyflenwi dŵr yn llai cadarn.

[6] Farm Business Survey: Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences, Aberystwyth University
[7] Integrated Monitoring Platform (IMP) | ERAMMP

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn dangos amrywiad sylweddol yng ngwerth cymdeithasol manteision cyfalaf naturiol ledled Cymru. Mae hyn yn wir ar draws pob un o'r pum math o fantais y ceir tystiolaeth werthuso ddigon cadarn ohonynt. Y rheswm am yr amrywiad hwn yw yn amrywio yn ôl y mathau gwahanol o fantais. Mae gwerth ariannol y manteision mewn perthynas â charbon yn amrywio yn dibynnu ar swyddogaethau ecolegol cynefin penodol yn unig. Mae gwerth manteision cyfalaf naturiol eraill yn amrywio yn dibynnu ar swyddogaethau ecolegol cynefin penodol a'u lleoliad. Er enghraifft, mae gwerth coetir o ran dal llygreddau aer ar ei uchaf mewn ardaloedd trefol ac yn fach iawn mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r adroddiad yn cydnabod hefyd y bydd gwerth cymdeithasol newidiadau i gyfalaf naturiol o ganlyniad i gynnal gweithredoedd ar y fferm yn newid dros amser ac mae'n esbonio sut y mae amcangyfrif gwerth presennol blynyddol cyfartalog y manteision hynny, wedi'i asesu dros nifer o flynyddoedd, yn ategu'r polisi'n dda.

Ein bwriad o hyd yw ystyried y gwerth cymdeithasol yn ein dull talu, ond bydd gwneud hyn yn iawn yn cymryd amser. Mae'r gwahaniaethau yng ngwerth manteision cyfalaf naturiol o ran math, lleoliad ac amser, fel a nodwyd uchod, yn ei gwneud yn anos byth diffinio ffordd deg a chymesur o fynd ati sy'n adlewyrchu'r gweithredoedd a gynhelir ar y fferm ac sy'n cydnabod eu gwerth i bobl Cymru.

Byddwn yn cynnwys rhanddeiliaid, wrth inni ddatblygu'r gwaith hwn i adlewyrchu gwerth cymdeithasol canlyniadau yn y cyfraddau talu arfaethedig ar gyfer Gweithredoedd Cyffredinol, Gweithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol.

### Cwestiynau Pennod 8

**C15.** Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.

PENNOD 9

# Prosesu ac adrodd ar ddata

### Prosesu a defnyddio eich data

Rydyn ni'n bwriadu casglu data, yn bennaf at ddiben prosesu a dilysu taliadau. Gellir defnyddio'r data hefyd i weithredu cynlluniau eraill, ar gyfer monitro, neu at ddibenion eraill a ddisgrifir isod. Mae diogelwch eich data yn hollbwysig inni.

### Datgelu Data

Ceir prosesau a Gweithredoedd yn yr ymgynghoriad hwn sy'n gofyn i ni gasglu data, peth ohonyn nhw'n ddata sensitif, er mwyn i benderfyniadau doeth allu cael eu gwneud ar y fferm neu i fonitro perfformiad Gweithred. Caiff y data eu rheoli'n ddiogel ac mewn ffordd sensitif. Byddwn ond yn gofyn am ddata pan fydd angen gwneud hynny. Pan fyddwn yn crynhoi data i ddangos ystadegau neu dueddiadau ar lefel sector, rhanbarth neu wlad, bydd y data'n ddi-enw.

Gall Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â:

- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- EIDCymru
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Adrannau eraill Llywodraeth y DU.

Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio at y dibenion a ganlyn:

- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi derbyn cymorth amaethyddol.
- gwneud penderfyniadau ynghylch newid polisi ac ariannu gan gynnwys cynnal astudiaethau ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru.
- at ddiben monitro a gwerthuso cynlluniau.
- llunio adroddiadau ar ddata cyfun a/neu ystadegau cryno a fydd ar gael i'r cyhoedd, megis yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Effaith o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth (rhagor o fanylion isod).
- adnabod perchnogion/defnyddwyr tir mewn argyfwng, e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau.
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am gyllid.
- caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol.
- datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau a Chyllid Ei Fawrhydi a'r heddlu.

## Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Bydd yr wybodaeth yn cael ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan y canlynol:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o’r fath.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Byddwn yn darparu esboniad manwl o'r gofynion data a'r ffordd mae data yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r canllawiau a ddarperir cyn i'r Cynllun agor.

## Adrodd

Mae dyletswydd statudol yn y Ddeddf Amaethyddiaeth i Weinidogion Cymru fonitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd ar gyfer unrhyw gymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru a'i gyfraniad tuag at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

Bydd monitro yn galluogi Llywodraeth Cymru i fod yn atebol am weithredu'r Amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, Bydd yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ac Aelodau'r Senedd ymgysylltu a darparu tryloywder. Bydd hefyd yn darparu sylfaen dystiolaeth i ategu'r gwaith o datblygu polisi a dylunio cymorth yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf Amaethyddiaeth yn nodi fframwaith monitro ac adrodd clir. Mae hyn yn cynnwys cyfres gyffredinol o weithgareddau ar gyfer adrodd a mesur effaith a gwerth am arian. Nodir y lefelau gwahanol o gymorth isod.

**Y Cynllun Cymorth Amlflwyddyn:** Mae'r Cynllun Cymorth Amlflwyddyn yn gynllun pum mlynedd ymlaen llaw y mae'n rhaid iddo amlinellu sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth yn ystod y cyfnod er mwyn cyfrannu orau at gyflawni’r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy; Bydd angen iddo ddarparu disgrifiad o bob cynllun sydd ar waith neu y disgwylir iddo fod ar waith yn ystod y cyfnod(er enghraifft, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy), a disgrifio unrhyw gymorth y bwriedir ei ddarparu nad yw o dan gynllun.

**Targedau a Dangosyddion Rheoli Tir yn Gynaliadwy:** Bydd cyfres o ddangosyddion a thargedau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy yn cael eu cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2025, er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Bydd angen ystyried dangosyddion cenedlaethol eraill ac adroddiadau cenedlaethol eraill fel Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a'r Adroddiad Effaith diweddaraf wrth bennu neu ddiwygio'r dangosyddion a'r targedau.

**Yr Adroddiad Blynyddol:** Bydd mecanweithiau adrodd blynyddol ar waith i roi sicrwydd, atebolrwydd a thryloywder i'r sector yn barhaus fod Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth perthnasol i'r sector amaethyddol. Y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth am faint o gymorth a ddarparwyd, bydd yr adroddiad hefyd yn nodi lle mae cymorth wedi cael ei dynnu'n ôl neu ei adennill. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod o 17 Hydref 2023 hyd at 31 Mawrth2025 a rhaid ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf. Yn dilyn y cyfnod Adrodd Blynyddol cyntaf, bydd yr holl gyfnodau adrodd dilynol ar gyfer flwyddyn ariannol.

**Yr Adroddiad ar yr Effaith:** Bob pum mlynedd bydd yr holl gymorth a roddwyd o dan y Ddeddf yn cael ei werthuso. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a roddwyd, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd yr Adroddiad ar yr Effaith yn asesu effaith ac effeithiolrwydd y cymorth, gan gynnwys (a) y ffordd y mae'r cymorth wedi cyflawni'r dibenion y rhoddwyd y cymorth ar eu cyfer, ac i ba raddau (b) y ffordd y mae darparu'r cymorth wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, ac i ba raddau.

**Yr Adroddiad ar Reoli Tir yn Gynaliadwy:**
Yr adroddiad hwn yw'r mecanwaith ar gyfer asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r ddyletswydd i gyflawni'r Amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Bob pum mlynedd bydd yr adroddiad ar reoli tir yn gynaliadwy yn darparu asesiad o'r cynnydd cronnus a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy (ers i'r ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy ddod i rym) ac yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Rhaid iddo hefyd ddarparu asesiad o'r cynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r targedau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy sydd wedi'u pennu a nodi a yw pob targed wedi cael ei gyflawni. Gall yr adroddiad hefyd gofnodi materion eraill, megis blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd allweddol mewn perthynas â chyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, a'r effaith y mae'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ei chael ar nodau ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfnod adrodd cyntaf yn dechrau ar 17 Hydref 2023 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Cyhoeddir adroddiadau dilynol ar gyfnod treigl o bum mlynedd.

**Cwestiynau Pennod 9**

**C16.** Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.

**C17.** Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol SFS ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiynau ychwanegol**

**C18.** Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid yr SFS er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- lleihau effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**C19.** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori?

ATODIAD 1

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Cwestiynau Pennod 2

**Cwestiwn 1:** Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?

**Cwestiwn 2:** Bydd gofyn i bob fferm yn yr SFS fod ag o leiaf 10% o orchudd o goed, ac i reoli o leiaf 10% o'r fferm er lles bioamrywiaeth.

**a)** Beth yw eich barn am y gofynion hyn?

**b)** Pa gefnogaeth a allai fod ei hangen arnoch i'w cynnal?

**Cwestiwn 3:** Ar wahân i'r gofynion o 10% o goetir a cynefin, a fydd y Gweithredoedd Cyffredinol:

**a)** O fantais i fusnes eich fferm?

**b)** Yn rhoi set o gamau ymarferol y gallwch eu cymryd y bydd y Taliad Sylfaenol Cyffredinol yn talu amdanyn nhw?

**Cwestiwn 4:** Trwy lunio adroddiadau data fferm, byddwch yn rhoi'r modd i Lywodraeth Cymru allu cadarnhau'ch bod wedi cynnal gweithredoedd a byddan nhw'n eich helpu i wneud penderfyniadau am eich fferm. Yn eich barn chi, a yw gofynion y Gweithredoedd Cyffredinol o ran llunio adroddiadau yn briodol?

**Cwestiwn 5:** Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi cymorth ychwanegol yn ystod y Cyfnod Pontio. Yn eich barn chi, a yw hyn yn briodol wrth gyflwyno'r Gweithredoedd Opsiynol a Chydweithredol?

### Cwestiynau Pennod 3

**Cwestiwn 6:** Rydym wedi cynnig y dylai fod gan ymgeiswyr reolaeth lwyr ar eu tir am 10 mis a'u bod yn cynnal y Gweithredoedd Cyffredinol am flwyddyn lawn y cynllun (12 mis). Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod o 10 mis yn ddigon?

**Cwestiwn 7:** Rydym yn cynnig bod pawb yn y Cynllun yn defnyddio'r un gyfrifiannell carbon. A ydych yn cytuno a sut y gallwn eich cefnogi i wneud hyn?

**Cwestiwn 8:** Er mwyn cael parhau i gynnal y safonau uchel ar ein ffermydd, rydym yn cynnig ffordd gymesur o ymdrin â mesurau rheoli a sancsiynau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfwriaeth ychwanegol fel amod o gael taliad y Cynllun. Beth yw'ch barn am hyn?

**Cwestiwn 9:** Bydd proses apelio Llywodraeth Cymru yn cynnig trefn effeithiol ac effeithlon i ni. A oes unrhyw reswm pam y dylem beidio â'i dilyn?

### Cwestiynau Pennod 4

**Cwestiwn 10:** Hoffem glywed eich barn am y cynigion ar gyfer:

**a)** taliad sylfaenol cyffredinol SFS

**b)** taliad sefydlogrwydd SFS

### Cwestiynau Pennod 5

**Cwestiwn 11:** Efallai y bydd ffermwyr y tu allan i'r Cynllun am gael help i gynnal gweithredoedd tebyg i'r rhai a gynigir yn yr Haenau Opsiynol a Chydweithredol. Yn eich barn chi, a ddylai ffermwyr sy'n rhan o'r Cynllun gael blaenoriaeth i wneud y gweithredoedd hyn?

**Cwestiwn 12:** Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?

### Cwestiynau Pennod 6

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydym yn eu cynnig i'r BPS o 2025?
Byddan nhw'n cynnwys:

**a)** Y gyfradd y bydd taliadau BPS yn cael eu lleihau.

**b)** Cau'r Gronfa Genedlaethol i ymgeiswyr newydd.

**c)** Trothwyon ar gyfer capio.

**d)** Gwahardd trosglwyddo a phrydlesu hawliau.

### Cwestiynau Pennod 7

**Cwestiwn 14:** Hoffem wybod eich barn am yr is-ddeddfwriaeth rydym yn cynnig ei chyflwyno, i gefnogi'r BPS ac i gyflwyno cynlluniau cymorth o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

### Cwestiynau Pennod 8

**Cwestiwn 15:** Daw'r gwaith dadansoddi a modelu economaidd i ben yn 2024 gan roi'r dystiolaeth i helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar sut i roi'r Cynllun ar waith. Hoffem wybod eich barn am y dadansoddiad presennol a'r dystiolaeth sydd ei hangen.

### Cwestiynau Pennod 9

**Cwestiwn 16:** Hoffem wybod eich barn ynghylch pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso'r Cynllun.

**Cwestiwn 17:** Yn eich barn chi, beth bydd effeithiau tebygol yr SFS ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig yn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

- Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo effeithiau positif?
- Ydych chi’n credu bod cyfleoedd i leihau effeithiau drwg?

### Cwestiynau ychwanegol

**Cwestiwn 18:** Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid yr SFS er mwyn:

- cael effeithiau positif neu effeithiau mwy positif ar ddefnyddio’r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; neu
- lleihau effeithiau negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?

**Cwestiwn 19:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori?

ATODIAD 2

# Gweithredoedd Opsiynol

Mae'r rhestr o Weithredoedd Opsiynol sy'n cael eu cynnig isod yn seiliedig ar y rheini yn **Cynllun Ffermio Cynaliadwy – Cynigion Bras 2025** ac maen nhw'n wedi'u twtio i gyd-fynd â'r Gweithredoedd Cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Nid yw'n rhestr gyflawn ac mae'n bosibl na chaiff rhai ohonynt eu cynnig. Gall blaenoriaethau neu gyfleoedd newydd arwain at greu Gweithredoedd Opsiynol eraill.

Gallwch ddefnyddio'r rhestr hon i ateb cwestiwn 12 yr ymgynghoriad hwn: *Pa gamau a chymorth yn yr haenau Opsiynol a Chydweithredol ddylai yn eich barn chi gael blaenoriaeth?*

Fel y Gweithredoedd Cyffredinol, bydd y Gweithredoedd Opsiynol hyn yn helpu i sicrhau nifer o ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Lle bo hynny, rydym wedi nodi lle bydd Gweithred Opsiynol â chysylltiad uniongyrchol â Gweithred Gyffredinol benodol.

- Cymorth i dyfu cnydau er mwyn prynu llai o borthiant a lleihau'r ddibyniaeth arno.
- Cymorth i fusnesau garddwrol newydd neu i fentrau garddwrol newydd o fewn busnes fferm sy'n bod eisoes.
- Helpu prosiectau arloesi sy'n treialu technegau neu dechnolegau newydd ar lefel ymarferol, gan roi sylw arbennig i gynaliadwyedd, gwneud y farchnad yn fwy amrywiol a gwneud y fferm yn fwy cydnerth.
- Cymorth cyfalaf i leihau allyriadau amonia gan gynnwys trwy'r canlynol:
  - addasu siediau anifeiliaid e.e. crafu slyri'n aml a sychu tail dofednod
  - storfeydd slyri e.e. cloriau i storfeydd slyri ac asideiddio slyri
  - gwasgaru slyri'n fanwl gywir e.e. 'trailing shoe' a chwistrellu
- Cymorth cyfalaf i ddatgarboneiddio arferion ffermio a/neu'r defnydd o beiriannau, ar sail eich asesiad carbon.
- Rheoli'r coed a'r coetir, gan gynnwys coetir hynafol, sy'n bod eisoes, yn unol â Safon Goedwigaeth y DU (mwy na gofyn y Weithred Gyffredinol ar gyfer Cynnal Coetir).
- Plannu coed a choetir ychwanegol, mwy na Gofyn Lleiaf y Cynllun
- Cymorth ar gyfer bridiau brodorol prin y DU. Rhaid iddynt fod yn anifeiliaid pedigri cofrestredig o frîd brodorol sydd ar restr gymeradwy'r DU o fridiau brodorol mewn perygl.
- Rheoli neu wella cynefinoedd trwy weithredoedd arbennig wedi'u teilwra'n well i safle penodol (mwy na gofyn y Weithred Gyffredinol ar gyfer Cynnal Cynefin).
- Creu lleiniau clustogi chwe metr o led ar hyd cyrsiau dŵr (i leihau'r risg o lygredd gwasgaredig, ar sail data mapiau risg). Gallai'r lleiniau gynnwys cymysgedd o borfa, llwyni a choed.
- Cymorth cyfalaf i gynaeafu a rheoli cyflenwadau dŵr, gan gynnwys:
  - creu cronfeydd dŵr a phyllau dyfrhau newydd
  - gosod offer casglu ac ailddefnyddio dŵr
  - gosod seilwaith gwahanu dŵr glân a dŵr budr.
- Creu pyllau parhaol a thymhorol ychwanegol (ar ben gofyn y Weithred Gyffredinol ar gyfer Pyllau Parhaol a Thymhorol)
- Creu arfaethau sy'n gollwng ac ailwlychu safleoedd addas i arafu llif dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Cymorth i ddarparu cofnod o gyflwr y nodweddion hanesyddol a sut y maen nhw'n cael eu rheoli a/neu cymorth i drwsio neu ddiogelu nodwedd hanesyddol â chyngor proffesiynol (ar ben gofyn y Weithred Gyffredinol ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol).
- Cymorth i wneud mwy dros Dirweddau Dynodedig. Bydd y gweithredoedd hyn yn rhai arbennig i'r fferm a'i chyffiniau ac yn gyson â dibenion statudol y dynodiadau gan gynnwys eu blaenoriaeth dros natur fel y'u nodir yn eu Cynlluniau Rheoli.

- Dewis neu addasu opsiynau fydd yn helpu pobl i ymwneud â'r amgylchedd naturiol a mynd iddo. Gallai hyn gynnwys:
  - gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus i'w troi'n llwybrau aml-ddefnydd
  - gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus i'w gwneud yn fwy hygyrch
  - cysylltu llwybrau â'i gilydd a chreu llwybrau mynediad newydd
  - creu llwybrau newydd
  - cynnal ymweliadau gofal ac addysgol â'r fferm.
- Cymorth i gynnal Datblygiad Personol Parhaus (DPP) cymhlethach neu o lefel uwch, gan gynnwys cymorth posibl i drosglwyddo gwybodaeth i ffermwyr eraill (ar ben gofyn y Weithred Gyffredinol ar DPP).

**Gweithredoedd Cyffredinol i wella iechyd anifeiliaid, mwy na gofyn y Gweithredoedd Cyffredinol ar Fioamrywiaeth Da ar y Fferm a Lles Anifeiliaid;**

- Creu ffens a pherth/gwrych 3 metr o led o gwmpas ffin y fferm (yn ôl y gofyn) i rwystro stoc cymdogion rhag dod i gysylltiad.
- Storfeydd diogel i gadw stoc marw wrth ffin y fferm i leihau'r gofyn i gerbydau cludo stoc marw ddod i safle'r fferm.
- Gwneud storfeydd bwyd anifeiliaid yn ddiogel i gadw allan bywyd gwyllt a fermin a ffynonellau heintio anuniongyrchol eraill fel tail adar neu rhag eu trosglwyddo o gerbydau i staff.
- Gosod mannau cyflenwi dŵr ac arwynebau caled wrth fynedfeydd/allanfeydd gyda draeniad effeithiol i gario'r dŵr oddi wrth fannau cadw stoc.
- Arwyddion o gwmpas y fferm i gyfeirio cerbydau a phobl fel nad oes symudiadau o'r mannau uwch eu risg i'r mannau lleiaf eu risg heb gyfleusterau glanhau a diheintio digonol.
- Cymorth i adeiladu Unedau Ynysu.
- Cymorth i ddefnyddio safonau lles anifeiliaid uwch. Gallai hyn gynnwys mabwysiadu safonau Lles Anifeiliaid Da (neu fenter debyg).

**Gweithredoedd Cyffredinol er lles y defnydd y faethynnau a chyflwr y pridd, ar ben gofyn y Weithred Gyffredinol ar gyfer Cynllunio Iechyd Pridd;**

- Creu glaswelltir â chnydau bachu nitrogen yn lle gwasgaru nitrogen neu i ategu'r nitrogen a wasgerir, trwy er enghraifft borfeydd cymysg neu blannu cnwd gorchudd.
- Gwella bioleg y pridd er enghraifft trwy blannu amrywiaeth o blanhigion, pori a gorffwys, bras-droi neu ddim troi, defnyddio planhigion lladd llyngyr neu reoli cynefinoedd.
- Creu cylchdro cnydau gwell sy'n gwella iechyd y pridd a lles yr amgylchedd trwy gynnwys:
  - cydbwysedd rhwng cnydau sy'n magu ffrwythlondeb a'r cnydau sy'n dihysbyddu ffrwythlondeb
  - codlysiau i fachu nitrogen er lles cnydau sy'n dilyn
  - cnydau â chymysgedd o systemau gwreiddio gwahanol
  - sicrhau bod bwlch o amser rhwng cnydau sy'n denu'r un plâu a chlefydau.
- Creu trefn pori a gorffwys am o leiaf bum mis y flwyddyn trwy:
  - rannu caeau er mwyn gallu symud da byw'n rheolaidd
  - pori'r borfa am gyfnodau byr (rhoi cyfnod o orffwys i'r borfa cyn ei phori eto, gan ddibynnu ar drwch y glaswellt).
- Cymorth cyfalaf i ddarparu'r seilwaith ar gyfer pori a gorffwys a/neu i arallgyfeirio i fentrau amaeth eraill sy'n rheoli'r borfa'n well ac yn gwella cynhyrchiant da byw.
- Sefydlu a/neu gynnal porfa gymysg o laswellt, codlysiau a pherlysiau (neu flodau gwyllt brodorol). Gall fod dau opsiwn:
  - bod o leiaf pum rhywogaeth o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth o berlysiau neu flodau gwyllt yn tyfu yn y borfa
  - bod o leiaf tair rhywogaeth o laswellt, dwy rywogaeth o godlys a dwy rywogaeth o berlysiau neu flodau gwyllt yn tyfu yn y borfa
- Sefydlu cnydau trwy fras-droi neu heb droi o gwbl.

ATODIAD 3

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ADAS** | Gwasanaeth cynghori amaethyddol annibynnol. |
| **Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd (HBR)** | Y broses weinyddol y bydd Llywodraeth Cymru'n ei defnyddio i ddangos ar fap hyd a lled y cynefinoedd a'r nodweddion sydd ar eich fferm, a'u math. |
| **Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DEFRA)** | Yr adran yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am yr Amgylchedd a Materion Gwledig. |
| **Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS)** | Arolwg blynyddol o sampl cynrychioliadol o ffermydd ar draws Cymru, yn cynnwys data ariannol a ffisegol. |
| **Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW)** | Tîm wedi'i greu'n unswydd o fewn Taliadau Gwledig Cymru i fod yn gyfrifol am gynnal archwiliadau i weld eich bod yn cydymffurfio. |
| **Awdurdod Rheoli Cymwys (CCA)** | Y cyrff sy'n gyfrifol am y systemau rheoli swyddogol sy'n cadarnhau'ch bod yn cydymffurfio â'r safonau a'r gofynion perthnasol ar ran Llywodraeth Cymru. |
| **Bioamrywiaeth** | Yr amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid (gan gynnwys eu geneteg a'u hecosystemau amrywiol) a geir ym mhob rhan o'n hamgylchedd. |
| **Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH)** | Athrofa ymchwil annibynnol ddi-elw. |
| **Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)** | Rhif adnabod unigryw a roddir i bob busnes fferm gan Taliadau Gwledig Cymru. |
| **Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC)** | Rhan o'r system Drawsgydymffurfio a ddefnyddir i bennu safonau gofynnol. |
| **Cyfnod pontio** | Y cyfnod rhwng 2025 a 2029 pan gaiff rhannau gwahanol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy eu lansio, ac y caiff gwerth Cynllun y Taliad Sylfaenol ei dapro. |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** | Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am reoleiddio a rhoi cyngor ar adnoddau naturiol Cymru. |
| **Cyfrifiannell Carbon** | Mecanwaith ar gyfer mesur ôl troed carbon (faint o garbon sy'n cael ei allyrru) gan agweddau gwahanol ar fusnes eich fferm. Gall roi mesur llinell sylfaen a'ch helpu i nodi cyfleoedd i leihau'ch allyriadau. |

| | |
|---|---|
| **Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid (AHIC)** | Proses barhaus lle bydd busnes y fferm yn gweithio gyda'i filfeddyg i wella iechyd ei anifeiliaid. |
| **Cynefin / Cynefin lled-naturiol** | At ddiben yr ymgynghoriad hwn, mae cynefin yn golygu amrywiaeth eang o fathau o dir fel rhosydd, gweirgloddiau a gwlypdir. Ym mhob un, mae ystod wahanol o blanhigion ac anifeiliaid yn dibynnu arno i oroesi. Mae 'lled-naturiol' yn golygu cynefin sydd wedi'i newid gan ddyn ond sydd yn dal i gynnal planhigion ac anifeiliaid sy'n bod yn naturiol yn yr ardal honno. |
| **Cynllun Cymorth Amlflynyddol** | Cynllun ar gyfer y pum mlynedd nesaf o gymorth i amaethyddiaeth. Llywodraeth Cymru fydd yn ei ddarparu. |
| **Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), neu'r 'Cynllun'** | Prif gynllun cymorth Llywodraeth Cymru i ffermwyr Cymru o 2025 ymlaen. |
| **Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)** | Y prif gynllun cyfredol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i ffermwyr. |
| **Cynnyrch amddiffyn planhigion (PPPs)** | Ystod o gynnyrch cemegol gan gynnwys plaladdwyr, chwynladdwyr a rheolyddion tyfu. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs)** | Set o dargedau mesuradwy (yn ymwneud â'r busnes, da byw neu arferion rheoli) y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau rheoli ar sail data. |
| **Dal a storio carbon** | Defnyddio systemau naturiol i ddal carbon deuocsid o'r atmosffer a'i gloi yn y pridd neu mewn planhigion, fel mawnogydd. Ceir dulliau technolegol o ddal a storio carbon sydd y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn. |
| **Datblygiad Personol Parhaus (DPP)** | Proses ddi-dor o ddysgu a datblygu i fagu sgiliau a gwybodaeth. |
| **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** | Cyfeirir ati hefyd fel "y Ddeddf Amaeth" neu'r "Ddeddf Amaethyddiaeth": deddf Gymreig newydd sy'n rhoi'r pwerau cyfreithiol i Weinidogion Cymru allu cefnogi gweithgareddau amaethyddol yng Nghymru. Y Ddeddf hon sy'n creu amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. |
| **Ecosystemau** | Y berthynas gymhleth rhwng ac o fewn cynefinoedd sy'n cynnal ac yn rheoli llawer o brosesau amgylcheddol fel aer glân, dŵr glân, bioamrywiaeth lewyrchus a'r bwyd rydym yn ei fwyta. |
| **Ffurflen Cais Sengl (SAF)** | Y broses weinyddol flynyddol y mae ffermwyr yn darparu data ac yn hawlio taliadau ffermio a rheoli tir drwyddi oddi wrth y llywodraeth. |
| **Gweithred Gyffredinol (UA)** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael ei gynnig wedi'i rannu'n dair haen. Yr haen isaf yw haen y Gweithredoedd Cyffredinol y bydd angen i bob ffermwr sy'n rhan o'r Cynllun eu cynnal. Am hynny, caiff taliad Sylfaenol Cyffredinol ei dalu iddo. |

| | |
|---|---|
| **Gweithredoedd Cydweithredol** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael ei gynnig wedi'i rannu'n dair haen. Yr haen uchaf yw haen y Gweithredoedd Cydweithredol lle caiff ffermwyr ddewis gweithio gyda'i gilydd a chydag eraill mewn ffordd gydlynol i sicrhau canlyniadau na ellir eu darparu ar raddfa'r fferm unigol. Am hynny, caiff taliad ychwanegol ei dalu iddynt o dan y Cynllun. |
| **Gweithredoedd Opsiynol** | Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael ei gynnig wedi'i rannu'n dair haen. Yr haen ganol yw haen y Gweithredoedd Opsiynol lle caiff ffermwyr ddewis Gweithredoedd sy'n gofyn am fwy na'r Gweithredoedd Cyffredinol, gan ddibynnu ar beth sy'n gweddu orau i fusnes y fferm a'i uchelgeisiau. Am hynny, caiff taliad ychwanegol ei dalu iddynt o dan y Cynllun. |
| **Rhaglen Fonitro a Modelu yr Amgylchedd a Materion gwledig (ERAMMP)** | Partneriaeth ymchwil a darparu tystiolaeth wyddonol o dan arweiniad Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU ar ran Llywodraeth Cymru. |
| **Rheoli Plâu yn Integredig (IPM)** | Mynd ati mewn ffordd holistig i reoli plâu a chlefydau. |
| **Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)** | Ffordd holistig i ymgorffori adnoddau amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol mewn ffordd a fydd yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion cenedlaethau heddiw a'n hymrwymiadau i genedlaethau fory. |
| **Rheoliadau'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (EIA)** | Rheoliadau i ystyried effeithiau prosiectau ar yr amgylchedd. |
| **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** | Dynodiad ffurfiol ar dir neu ddŵr sydd o werth arbennig oherwydd ei fywyd gwyllt neu ei nodweddion daearegol. Amddiffynnir SoDdGAau yn statudol trwy ddeddfwriaeth benodol. |
| **Safon Goedwigaeth y DU (UKFS)** | Y safon gyfeirio ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU. Mae'n berthnasol i bob coedwig, waeth pwy sy'n berchen arni neu'n ei rheoli. |
| **System Adnabod Parseli Tir (LPIS)** | Y system a ddefnyddir gan Taliadau Gwledig Cymru i gadw a dadansoddi data am gaeau. |
| **Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)** | Systemau gwybodaeth a ddefnyddir i gadw a thrin gwybodaeth ddaearyddol. |
| **Taliad Sefydlogrwydd** | Taliad ar ben y taliad Sylfaenol Cyffredinol i helpu ffermwyr i newid o'r BPS i'r SFS yn ystod y Cyfnod Pontio. |
| **Taliad Sylfaenol Cyffredinol** | Y taliad blynyddoedd y bydd pob ffermwr yn ei gael gan Lywodraeth Cymru am gynnal y Gweithredoedd Cyffredinol. |
| **Taliadau Gwledig Cymru (RPW)** | Yr is-adran o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth a thaliadau ffermio a rheoli tir. |

Number: WG48770

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael o ofyn amdanynt.

**Manylion cysylltu**
I gael rhagor o wybodaeth:


Materion Gwledig a Diwygio Rheoli Tir
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: CynllunFfermioCynaliadwy@llyw.cymru


Mae'r ddogfen hon ar gael yn **Saesneg** hefyd.